# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD IAU, 22 HYDREF 2020<br>am 2.00 o'r gloch | THURSDAY, 22 OCTOBER 2020<br>at 2.00 pm |
| CYFARFOD RHITHIOL (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD) | VIRTUAL MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND) |
| Swyddog Pwyllgor   **Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516** | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 21 Medi, 2020.

**4 PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019/20** (Tudalennau 9 - 56)

Cyflwyno adroddiad gan yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gwynedd a Môn.

**5 ADRODDIAD CYNNYDD PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION** (Tudalennau 57 - 64)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**6 CASGLU GWASTRAFF GARDD GWYRDD - METHODOLEG CODI TÂL A CHYNLLUN GWEITHREDU** (Tudalennau 65 - 68)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

**7 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AR GYFER 2020/21** (Tudalennau 69 - 74)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2020

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, R Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret M Roberts a Nicola Roberts.<br><br>Y Cynghorydd Llinos M Huws – Arweinydd y Cyngor,<br>Y Cynghorydd R Merion Jones – Aelod Portffolio (Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid),<br>Y Cynghorydd Alun Mummery – Aelod Portffolio (Tai a Chefnogi Cymunedau),<br>Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS – Aelod Portffolio (Priffyrdd, Eiddo a Morwrol),<br>Y Cynghorydd Dafydd R Thomas – Aelod Portffolio (Busnes y Cyngor),<br>Y Cynghorydd Robin Williams - Deilodd Portffolio (Adnoddau) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Dros Dro),<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Swyddog Sgriwtini (SR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – ar gyfer Eitem 4.<br>Prif Swyddog – Medrwn Môn – ar gyfer Eitem 5 |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd Alun Roberts ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5 oherwydd iddo wneud gwaith gwirfoddol yn ystod cyfnod clo'r pandemig Covid-19.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd fel rhai cywir, cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2020.

## 4 ADRODDIAD BLYNYDDOL – BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS 2019/20

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

Adroddodd y Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, bod yr adroddiad wedi'i strwythuro i gyfeirio at gynnydd gwaith Is-grwpiau'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a sefydlwyd. Mae gan y Bwrdd bedwar Is-grŵp fel a ganlyn:-

- **Is-grŵp Newid Hinsawdd**

  Sefydlwyd yr Is-grŵp i annog cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus a chymunedau lleol ar sut i ymdrin â bygythiadau i'n cymunedau yn sgil newidiadau hinsawdd yn y dyfodol. Nodwyd fod cyfres o weithdai wedi cael eu trefnu ond, oherwydd y pandemig Covid-19, ni fu modd eu cynnal. Mae'r Is-grŵp wedi nodi bod gwaith rhanbarthol yn cael ei wneud mewn perthynas â newid hinsawdd ac mae'r is-grŵp yn ymwybodol fod angen osgoi dyblygu gwaith a bod cyfle i ddysgu gan y naill a'r llall.

- **Is-grŵp yr Iaith Gymraeg**

  Mae'r Is-grŵp wedi canolbwyntio'n bennaf ar gydweithio i gynyddu'r defnydd o'r Iaith Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Yn benodol, mae hyn yn ymwneud â hyrwyddo'r iaith Gymraeg fel iaith ddewisol ar gyfer cyfathrebu'n fewnol yn y cyrff cyhoeddus, ac ar gyfer cyfathrebu â'r cyhoedd. Mae'r prosiect 'Arfer', dan arweinyddiaeth Prifysgol Bangor, yn edrych ar ddeall arferion siaradwyr sydd ddim mor hyderus neu gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws y rhanbarth yn derbyn grant gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch defnyddio'r grant i ariannu astudiaeth a fyddai'n archwilio sut i ddefnyddio derbynfeydd mewn sefydliadau cyhoeddus i annog mwy o bobl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac i hyrwyddo hynny. Yn anffodus, oherwydd y pandemig Covid-19, mae'r grant wedi cael ei dynnu'n ôl.

- **Is-grŵp Cartrefi ar gyfer Pobl Leol**

  Mae gwaith yr Is-grŵp wedi parhau yn ystod y pandemig Covid-19 a'i gamau nesaf arfaethedig fydd gwerthuso'n llawn hyfywedd ariannol y datblygiadau

ynghlwm â’r safleoedd dan sylw, cyn cadarnhau sut orau i ariannu’r datblygiadau a’r amserlen ar gyfer cychwyn y gwaith. Bu’r Is-grŵp yn trafod ei gynlluniau gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer tai arloesol a fforddiadwy. Cyflwynir adroddiad cynnydd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- **Is-grŵp Iechyd a Gofal**

  Cyfrifoldeb yr Is-grŵp yw goruchwylio’r ffrydiau gwaith/prosiectau canlynol: Oedolion, Plant, Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl a Thrawsnewid Cymunedol. Mae’r ffrydiau gwaith hyn yn cyd-fynd â meysydd blaenoriaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer integreiddio. Adroddwyd y cynhaliwyd cyfarfod o’r Is-grŵp ar 7 Gorffennaf. Pwrpas y cyfarfod oedd adolygu cylch gorchwyl y grŵp, yn dilyn Covid-19, a chytunwyd bod blaenoriaethau’r is-grŵp wrth adfer yn dilyn y pandemig wedi newid. Cynhaliwyd gweithdy gan yr Is-grŵp Iechyd a Gofal ar 16 Medi i roi sylw i Gynllun Gaeaf Ardal y Gorllewin a’r ffrydiau gwaith sy’n codi o’r Grŵp Iechyd a Gofal rhanbarthol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaed y pwyntiau a ganlyn:-

- Gofynnwyd i ba raddau y mae ffrydiau gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyfrannu at lesiant trigolion Ynys Môn a pha effaith mae’r gwaith wedi’i gael ar gymunedau lleol. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen fod cynnydd yr Is-grwpiau yn amrywio, ond hyd yn hyn mae’r Is-grwpiau wedi cyfrannu’n dda at lesiant trigolion yn y cymunedau lleol. Efallai bod rhai o’r canlyniadau presennol yn rhai meddal, ond mae eu hangen er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer cyfrannu at lesiant hirdymor ein trigolion. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y gwaith a wnaed gan Is-grŵp yr Iaith Gymraeg wedi canolbwyntio ar ymddygiad ieithyddol staff sydd ddim yn dymuno defnyddio’r iaith Gymraeg yn y gweithle, neu ddim digon hyderus i wneud hynny, a chynhaliwyd prosiect yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i fynd i’r afael â’r mater hwn;
- Gofynnwyd pa wersi a ddysgwyd gan y Bwrdd yn sgil y cynnydd a wnaed hyd yn hyn a sut mae’r Bwrdd yn bwriadu defnyddio unrhyw wersi a ddysgwyd yn y dyfodol. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dysgu gwersi’n barhaus. Cynhaliwyd gweithdy'r wythnos ddiwethaf a chafodd y cyrff cyhoeddus gyfle i adrodd ar wersi a ddysgwyd yn sgil y pandemig. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y gweithdy a gynhaliwyd yr wythnos ddiwethaf wedi ystyried dadansoddiad o’r sefyllfa a anfonwyd at sefydliadau partner ac a oedd wedi amlygu 40 o faterion sy’n bwysig i’n cymunedau. Roedd rhaid i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drafod pob mater a phenderfynu a oedd rôl i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth ymateb iddynt. Nododd ei bod yn bwysig sicrhau nad yw’r awdurdodau lleol a’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dyblygu gwasanaethau a bod angen pwyso a mesur pa gymorth ychwanegol all y Bwrdd ei gynnig i gymunedau lleol;
- Gofynnwyd pa mor effeithiol yw trefniadau monitro’r Bwrdd o ran sicrhau bod amcanion yn cael eu gweithredu o fewn yr amserlenni. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen fod Cadeiryddion yr Is-grwpiau’n adrodd yn chwarterol i’r Bwrdd. Felly, gall y Bwrdd fonitro gwaith yr Is-grwpiau yn unol â’r amcanion a’r amserlenni. Ychwanegodd mai diffyg adnoddau oedd y prif rwystr o ran gwneud cynnydd;

- Cyfeiriwyd at ail don bosib o'r pandemig a phroffwydoliaeth ddychrynllyd arbenigwyr iechyd sy'n cynghori Gweinidogion y Llywodraeth y gallai'r DU o bosib weld 50,000 y dydd o gleifion Covid-19 yn ystod y 4 i 6 wythnos nesaf. Gofynnwyd beth fyddai rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus pe gwireddwyd y broffwydoliaeth honno. Dywedodd Arweinydd y cyngor y cynhaliwyd gweithdy'r wythnos ddiwethaf (y cyfeiriwyd ato'n barod) lle trafodwyd yr ymateb i'r holiadur ynghylch rôl y Bwrdd mewn perthynas â gofynion cymunedau lleol pe gwelir ail don o'r pandemig yn digwydd;
- Dywedodd y Pwyllgor y byddent wedi dymuno gweld rhestr o gyflawniadau'r Is-grwpiau yn yr Adroddiad Blynyddol;
- Gofynnwyd beth fydd blaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer 2021/22. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen fod amcanion y Bwrdd a'r meysydd blaenoriaeth yn parhau i fod yn berthnasol;
- Dywedodd un o'r Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'i fod o'r farn y dylai'r blaenoriaethau a nodir yng nghylch gorchwyl y cyfryw fyrddau fod yn swyddogaethau i bob awdurdod lleol. Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei bod yn derbyn fod y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn sefydlu eu hunain ar hyn o bryd, ond oherwydd bodolaeth y byrddau hyn mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi pwysau ar Awdurdodau Iechyd i weithio ar lefel ranbarthol a gweithio'n agosach ag awdurdodau lleol. Dywedodd hefyd fod y Bwrdd wedi caniatáu i sefydliadau partner nodi tir datblygu posib sydd yn eu meddiant ar gyfer tai cymdeithasol. Dywedodd y Prif Weithredwr, oni bai am y gwaith rhanbarthol y mae'r Bwrdd wedi'i wneud mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg (drwy'r rhaglen 'Adfer' ar y cyd â Phrifysgol Bangor), a blaenoriaethau tai o fewn cymunedau lleol, ni fyddai'r materion hynny wedi cael sylw teilwng. Dywedodd y byddai cyflawniadau yn cael eu cynnwys yn adroddiad nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD nodi cynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

## 5 YMATEB Y CYNGOR I'R ARGYFWNG COVID-19

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr mewn perthynas ag ymateb y Cyngor i'r pandemig Covid-19 hyd yn hyn, yn unol â'i gyfrifoldebau dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posib 2004, o ran paratoi ar gyfer argyfwng a chydlynu'r ymateb ar lefel leol.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr ymateb i'r pandemig yn parhau ac y bydd pawb yn wynebu cyfnod ansicr a heriol. Er bod y Cyngor wedi canolbwyntio'n bennaf ar ymateb i'r argyfwng Covid-19, yn ystod yr wythnosau diwethaf bu'n cynllunio rhaglen adfer ac yn gwneud cynlluniau i ailagor gwasanaethau cyhoeddus yn raddol. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y gwaith ardderchog a wnaed gan staff, aelodau etholedig a sefydliadau partner yn y cymunedau.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr adroddiad manwl mewn perthynas ag ymateb y Cyngor i'r pandemig a gwaith ar y cyd â'r trydydd sector. Cyfeiriodd yn benodol at:-

- **Trefniadau Llywodraethu** - rhoddwyd trefniadau llywodraethu ar gyfer y cynlluniau argyfwng ar waith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol i arwain yr ymateb i'r pandemig. Ar lefel ranbarthol, mae hyn wedi'i arwain a'i gydlynu

gan y Fforwm Gwytnwch Lleol (lle mae'r sector cyhoeddus yn cydweithio) trwy'r Grŵp Cydlynu Strategol (GCS). Mae'r Cyngor wedi cyfrannu'n llawn at waith is-grwpiau thematig penodol sy'n adrodd i'r GCS ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Marwolaethau ychwanegol, y Cyfryngau a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE).

- **Meysydd Risg Allweddol** – crëwyd cofrestr risg benodol o'r cychwyn cyntaf ac mae'n cael ei hadolygu a'i diweddaru bob wythnos. Mae'r risgiau allweddol wedi'u blaenoriaethu o ran amser ac ymdrech ac roedd y risgiau hyn yn cynnwys cartrefi gofal, profi ac olrhain cysylltiadau, cyfarpar diogelu personol, delio ag achosion, cefnogi teuluoedd bregus, yr effaith ar sefyllfa ariannol y Cyngor a'r effaith ar weithlu'r Cyngor.

- **Allbynnau'r Llif Gwaith Cymunedol (gan gynnwys mewnbwn Medrwn Môn a Menter Môn)**

  Mae'r holl wasanaethau o fewn y Cyngor Sir wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd er mwyn bodloni anghenion preswylwyr Ynys Môn yn ystod y pandemig, ac mae anghenion preswylwyr wedi amrywio'n sylweddol drwy gydol y pandemig. Mae'r cydweithio rhwng meysydd gwasanaeth allweddol wedi bod yn rhagorol yn ystod y cyfnod hwn, ac mae hyn wedi cynnwys darpariaeth gwasanaeth creadigol a gwahanol iawn. Yn Ynys Môn, sefydlwyd partneriaeth i ddarparu cymorth i bobl fregus yn ein cymunedau yn ystod wythnosau cyntaf y pandemig.

  Sefydlodd y Cyngor linell ffôn ymateb brys benodol a oedd ar agor 7 diwrnod yr wythnos. Roedd gwybodaeth, cyngor a chymorth yn y cymunedau lleol ar gael drwy Bwynt Mynediad Sengl yn y gymuned a hwyluswyd gan Medrwn Môn a gyda chefnogaeth y Cydlynwyr Asedau Lleol (asiantiaid cymunedol sy'n cysylltu unigolion ag asedau a gwasanaethau cymunedol). Yn ystod y cyfnod clo, sefydlwyd dau fanc bwyd dros dro ar yr Ynys, un yn Llangefni a'r llall ym Mhorthaethwy trwy'r llif gwaith bwyd a oedd yn cynnwys y Gwasanaethau Tai, Banc Bwyd Ynys Môn a'r CAB. Roedd y banciau bwyd ychwanegol hyn yn gweithio ar y cyd â'r banciau bwyd sydd eisoes wedi hen sefydlu ac sy'n gweithredu yng Nghaergybi ac Amlwch. Yn ystod y cyfnod clo, a hyd at 28 Gorffennaf, dosbarthwyd 742 o becynnau bwyd o'r 4 banc bwyd sy'n gweithredu ar yr ynys. Sefydlodd Menter Môn, ar y cyd â bwyty Dylan's y prosiect Neges a oedd yn dosbarthu pecynnau bwyd i unigolion yn ystod y cyfnod. Hefyd, mae Medrwn Môn yn rhedeg Rhaglen Un Pwynt Mynediad a Phresgripsiynu Cymdeithasol o'r enw Linc Cymunedol Môn a ddefnyddiwyd i gydlynu elfen cefnogaeth gymunedol yr ymateb.

  Gellir gweld canlyniad y gwaith partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Medrwn Môn yn adran 5.1.3 yr adroddiad.

- **Cydweithio o ran Profi a'r Strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu (TTP)**

  Cydnabu'r Cyngor fod ganddo rôl allweddol i'w chwarae o ran gweithgaredd haen leol yn unol â'r Canllawiau Cenedlaethol. Adolygodd yr Awdurdod y Strategaeth a chysylltodd ag Awdurdodau Lleol eraill, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sefydlu prosiect peilot Olrhain Cysylltiadau ar yr Ynys i lywio datblygiad y drefn Profi, Olrhain a Diogelu Rhanbarthol. Mae tîm cyflogedig bellach wedi'i sefydlu i sicrhau bod y broses Olrhain Cysylltiadau yn cael ei gweithredu'n effeithiol tan fis Mawrth 2021. Nodwyd fod yr achosion o'r haint yn ffatri ddofednod 2 Sisters yn Llangefni wedi cael eu rheoli'n effeithiol ac nid ymledodd i'r gymuned.

- **Gwersi a Ddysgwyd a'r Ffordd Ymlaen**

  Wrth ddelio ag unrhyw argyfwng a sicrhau bod y Cyngor yn datblygu ymhellach, mae angen pwyso a mesur ynghyd â dysgu a chasglu gwybodaeth allweddol i lywio cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Cynhaliwyd ymarfer myfyrio a dysgu cychwynnol ddiwedd mis Mehefin 2020. Roedd hwn ar ffurf dadansoddiad SWOT (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) a gwblhawyd gan bob aelod o'r tîm rheoli yn eu meysydd gwasanaeth ac a gasglwyd ynghyd mewn un ddogfen gan y Penaethiaid Gwasanaeth/Cyfarwyddwyr.

Croesawodd y Cadeirydd Brif Swyddog Medrwn Môn i'r cyfarfod a gofynnwyd iddi gyflwyno sylwadau ar y gwaith a wnaed ar y cyd â'r Awdurdod yn ystod y pandemig.

Dywedodd Prif Swyddog Medrwn Môn fod y gwaith partneriaeth rhagorol â'r Awdurdod dros nifer o flynyddoedd wedi bod yn fanteisiol o ran y gwaith a wnaethpwyd yn ystod y cyfnod ansicr yn sgil y pandemig Covid-19. Amlinellodd y gwaith ar y cyd mewn perthynas â Chynllunio Lle, Cysylltiadau Cymunedol a'r Cynllun Tro Da mewn cymunedau lleol a'r gwaith partneriaeth â Menter Môn.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaed y pwyntiau canlynol:-

- Gofynnwyd a oedd y Cyngor wedi blaenoriaethu a rheoli ei adnoddau'n effeithiol mewn ymateb i'r argyfwng. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod angen i'r Awdurdod roi sylw i'r ymateb i'r argyfwng ac i barhau i allu darparu gwasanaethau hanfodol i drigolion yr Ynys. Nododd fod sicrhau cyfarpar diogelu personol i staff yr awdurdod a gwirfoddolwyr oedd yn cynorthwyo'r Cyngor yn holl bwysig ar gychwyn y pandemig. Bu'r Cyngor hefyd yn gweithio â busnesau lleol i sicrhau fod cyflenwadau hanfodol ar gael i gynorthwyo'r trydydd sector gyda'u gwaith mewn cymunedau lleol. Ychwanegodd fod y Cyngor wedi sefydlu ei raglen Tracio ac Olrhain ei hun sydd erbyn hyn yn gweithredu ar lefel genedlaethol. Roedd o'r farn fod y Cyngor wedi blaenoriaethu a rheoli ei adnoddau'n effeithiol;
- Gofynnwyd a fyddai'r Cyngor wedi ymateb yn wahanol i gynorthwyo cymunedau lleol a busnesau yn ystod yr argyfwng. Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod cyfathrebu ar lefel genedlaethol yn bwysig ynghyd â dysgu gwersi gan yr awdurdodau lleol eraill. Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn bwysig monitro'r data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac i herio'r data cenedlaethol ac i herio data hwyr;
- Cyfeiriwyd at densiynau cymunedol o ran twristiaid yn ymweld â'r Ynys. Gofynnwyd beth oedd y trefniadau cydweithio â'r Heddlu i liniaru'r tensiynau cymunedol hyn. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod proses 3 haen ar gyfer ymateb i'r argyfwng. Mae'r Heddlu'n cadeirio'r Grŵp Ymateb a gwnaethpwyd gwaith ar lefel ranbarthol gan y grŵp. Rhannwyd gwybodaeth am waith yr heddlu ar yr Ynys drwy'r orsaf Heddlu lleol yn Llangefni ac mae Adran Gwarchod y Cyhoedd hefyd yn gweithio'n agos â'r heddlu wrth ymweld â busnesau ar yr Ynys i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheolau'r pandemig ar eu safleoedd;

- Nodwyd fod y bwrdd iechyd lleol dan bwysau i sicrhau bod digon o welyau ar gael i ddelio â'r pandemig ar gychwyn y pandemig. Dywedwyd fod nifer o bobl wedi cael eu rhyddhau o ysbytai lleol a'u hanfon i gartrefi gofal heb roi prawf am y firws iddynt yn ystod mis Mawrth ac Ebrill. Dywedodd Arweinydd y cyngor fod pryderon ynghylch pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbytai wedi cael eu codi yng Ngrŵp Arweinwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a bu pwysau gwleidyddol i newid y polisi fel bob pobl yn cael eu profi cyn cael eu rhyddhau o'r ysbyty a'u symud i gartrefi preswyl a chartrefi gofal. Nododd fod yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhoi trefniadau ar waith i gwrdd â rheolwyr cartrefi preswyl a chartrefi gofal yn rheolaidd a sefydlwyd tîm i gynorthwyo cartrefi i gynnal profion addas a rheolaidd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro fod cartrefi'n darparu data yn wythnosol ar gychwyn y pandemig er mwyn adnabod achosion lle'r oedd pobl yn cael eu symud o'r ysbytai i gartrefi;
- Gofynnwyd pa brosesau sydd mewn lle i ddiogelu'r bobl fwyaf bregus ar yr Ynys nad oeddent wedi manteisio ar y banciau bwyd a help i gasglu presgripsiynau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro nad oedd pawb a oedd wedi derbyn llythyrau gwarchod yn bobl a oedd wedi derbyn cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y gorffennol a bod angen rhoi trefniadau mewn lle, gyda chymorth Medrwn Môn, i gysylltu â phob person ar yr Ynys a oedd wedi derbyn llythyr gwarchod er mwyn canfod beth oedd eu hanghenion. Nodwyd hefyd y byddai'r cynllun arbed swyddi (cynllun ffyrlo) yn dod i ben ym mis Hydref a bod posibilrwydd y byddai mwy o bobl angen gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn sgil hynny. Dywedodd y Prif Weithredwr fod oddeutu 29% o boblogaeth Ynys Môn wedi cael eu rhoi ar gynllun ffyrlo'r llywodraeth a bod pryder dybryd ynghylch beth fydd y Llywodraeth yn ei wneud i gefnogi'r bobl hyn pan ddaw'r cynllun i ben. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod pryder y bydd pobl o bosib yn wynebu amddifadedd ac y byddai teuluoedd cyfan, gan gynnwys plant, yn wynebu'r sefyllfa honno, ac nid unigolion yn unig. Gall yr Awdurdod gefnogi'r bobl hyn drwy ei wasanaethau ond cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yw sefydlu cynllun arall i gefnogi pobl sydd wedi bod ar y cynllun ffyrlo neu i fuddsoddi mewn cynlluniau eraill;
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch cadernid y Cyngor wrth gynllunio ar gyfer yr Adferiad. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod trefniadau wedi eu gwneud yn ystod yr haf i baratoi Cynlluniau Adfer ond mae wedi dod i'r amlwg yn ystod y bythefnos ddiwethaf fod ail don o'r pandemig yn debygol. Ychwanegodd fod drafft aeddfed o'r Cynllun Adfer Economaidd a Chynllun Adfer Twristiaeth wedi cael eu llunio. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith yn canolbwyntio ar yr argyfwng a busnes arferol.

Roedd y Pwyllgor yn dymuno diolch i Swyddogion y Cyngor am y modd yr oeddent wedi delio â'r pandemig ac i ganmol ymateb y sefydliad o ran y gefnogaeth a roddwyd i fusnesau a chymunedau. Roedd y Pwyllgor yn dymuno diolch i Arweinydd y Cyngor hefyd am ei gwaith caled.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar ei flaenoriaethau ar gyfer craffu ar feysydd o ymateb y Cyngor i'r argyfwng yn ystod 2020/21 a thu hwnt;**

- **Argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod y Byrddau Rhaglen yn cyflwyno adroddiadau cynnydd rheolaidd i'r ddau bwyllgor sgriwtini ar gynllunio ar gyfer yr adferiad a pharatoi ar gyfer y normal newydd.**

## 6 BLAEN RAGLEN WAITH 2020/21

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Sgriwtini.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith o fis Hydref i fis Rhagfyr, 2020.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Craffu** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 22 Hydref 2020 |
| **Pwnc:** | Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Adroddiad blynyddol i'r pwyllgor craffu |
| **Cadeirydd Craffu:** | Y Cynghorydd Gwilym Jones |
| **Deilydd/Deiliaid Portffolio:** | Y Cynghorydd Alun Mummery |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Mae swyddog cefnogi partneriaethau'r ddwy sir wedi'i leoli o fewn Awdurdod Lleol Gwynedd, arweinydd y Gwasanaeth Diogelwch Cymunedol yn Ynys Môn yw Ned Michael, a Morwena Edwards (ALl Gwynedd) yw cadeirydd y Bartneriaeth. |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Catherine E Roberts - Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gwynedd a Môn<br>01286 679047<br>Catherineeirlysroberts@gwynedd.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl aelodau |

| **1 - Argymhelliad/ion** |
|---|
| Nodi cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol, a nodi a yw'r Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol. |

| **2 - Cysylltiad i Gynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor hwn bob blwyddyn er mwyn cyflwyno trosolwg o weithgareddau. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiadau yn unol ag adrannau 19 a 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006.<br>**Dyletswydd y pwyllgor yw craffu gwaith y Bartneriaeth, yn hytrach na gwaith yr aelodau (cyrff) unigol.** |

| **3 - Egwyddorion sy'n Arwain yr Aelodau Craffu** |
|---|
| **Bydd y gyfres o egwyddorion a ganlyn arweiniol o gymorth i'r Aelodau wrth graffu'r pwnc hwn:**<br><br>**3.1 Y cwsmer/dinesydd** [edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt pobl leol] |

**3.2 Gwerth** [a yw cynlluniau a chynigion yn economaidd yn effeithlon ac yn effeithiol? Hefyd, edrych ar ofynion ehangach buddion cymunedol]

**3.3 Risg** [edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt gwytnwch a thrawsffurfio gwasanaeth. Mae'n ymwneud â throsglwyddo o wasanaeth traddodiadol i un sydd wedi'i drawsffurfio ac yn ymwneud â gwytnwch y gwasanaeth sydd wedi'i drawsffurfio pan ddaw i rym]

**3.4 Canolbwyntio ar y system (gan gynnwys datblygu'r sefydliad)** [Sicrhau bod gan y Cyngor a'i bartneriaid systemau mewn grym i sicrhau eu bod yn medru gweithredu'r trawsnewidiad yn ddidrafferth, yn effeithlon a heb gael effaith negyddol ar ddarparu'r gwasanaeth]

**3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:**

- **Tymor hir**
- **Ataliaeth**
- **Integreiddio**
- **Cydweithio**
- **Ymgysylltiad**

**[canolbwyntio ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Craffu Allweddol**

1. I ba raddau mae'r pwyllgor yn cytuno â blaenoriaethau'r Bartneriaeth, sy'n seiliedig ar broses asesu anghenion lleol, ac a oes materion eraill sydd angen eu blaenoriaethu?
2. Ym mha ffordd mae'r bartneriaeth statudol yn ychwanegu gwerth ac yn gweithio mewn ffordd effeithiol ac effeithlon yn unol â disgwyliadau'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998?
3. I ba raddau mae'r cynllun gweithredu yn ddigon gwydn i ymdrin ag agweddau o'r meysydd blaenoriaeth er budd cymunedau Môn?
4. Sut mae'r argyfwng Covid-19 yn mynd i ddylanwadu ar y bartneriaeth a'r ffrydiau gwaith, ac i ba raddau mae angen addasu blaenoriaethau a rhaglen waith y Bartneriaeth yn sgil y pandemig?
5. Sut mae'r partneriaid statudol yn cefnogi ac yn cyfrannu at effeithiolrwydd y Bartneriaeth?

**5 - Y Cefndir / Cyd-destun**

**CEFNDIR -**

Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998, a'r diwygiadau dilynol yn sgîl deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2002 a 2006, i weithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub i roi sylw i'r agenda diogelwch cymunedol yn lleol. Dyma'r prif asiantaethau sy'n ffurfio'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

**Yn wreiddiol, galwyd partneriaethau diogelwch cymunedol yn bartneriaethau trosedd ac anhrefn, ac er bod yr enw wedi'i newid, nid yw'r cyfrifoldebau, maent yn parhau i fod -**

- Throsedd ac Anhrefn

- Camddefnyddio Sylweddau
- Lleihau Aildroseddu
- Cyflwyno asesiad strategol i adnabod blaenoriaethau (gwaith sydd bellach yn cael ei wneud yn rhanbarthol)
- Rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â'r blaenoriaethau hyn (mae cynllun bellach yn bodoli ar sail rhanbarthol a lleol)

Mae partneriaeth wedi bodoli yn Ynys Môn a Gwynedd ers 1998. Fodd bynnag, mae wedi gweithredu fel Partneriaeth ddwy-sir ers nifer o flynyddoedd bellach.

Fel aelod statudol o'r Bartneriaeth, mae'n bwysig bod yr ALl yn cael ei gynrychioli'n briodol. Cyflawnir hyn drwy bresenoldeb yr aelod lleol presennol gyda phortffolio Diogelwch Cymunedol, sef Alun Mummery, a'r prif swyddog gyda chyfrifoldeb am y gwaith, sef Dylan Williams.

**BLAENORIAETHAU/DOGFENNAU'R BARTNERIAETH AR GYFER CRAFFU -**

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n unol â chynllun blynyddol, sy'n seiliedig ar gynllun rhanbarthol tair blynedd. Atodir adroddiadau 2019-20 ac 2020-21.

Mae saith blaenoriaeth yn denu sylw'r Bartneriaeth. Mae'r blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar asesiad strategol rhanbarthol, cynllun Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a chynllun rhanbarthol y Bwrdd Cymunedau Diogel. Y blaenoriaethau yw -

- Lleihau troseddau a chanddynt ddioddefwyr (troseddau meddiangar yn unig)
- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag bod yn ddioddefwyr trosedd
- Codi hyder i adrodd am ddigwyddiadau o gam-drin domestig
- Codi hyder i adrodd am gam-drin rhywiol
- Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal
- Lleihau Aildroseddu

**TROSOLWG O LEFELAU TROSEDDU DROS Y CYFNOD ADRODD**

- Wrth fesur lefelau trosedd, mae'n bwysig bod gennym sail ar gyfer cofnodi , sy'n caniatáu cymhariaeth â phersbectif. Mae'r Swyddfa Gartref (SG) yn monitro lefelau troseddau ar draws holl heddluoedd y DU. Un o'r paramedrau maen nhw'n eu defnyddio i gynnal trosolwg yw cynghrair gymhariaeth o fath, sef *grwpiau mwyaf tebyg* (GMT). Mae'r SG yn llunio grwpiau o Siroedd, lle mae'r ddemograffeg mor debyg, y byddai disgwyl i lefelau troseddu fod yn debyg iawn hefyd.
- Mae'r ddwy Sir yn amrywio o gwmpas y cyfartaledd ar gyfer ein GMT - gydag amrywiadau'n cael eu dadansoddi ymhellach, os a phryd mae angen.
- Mae'r Heddlu'n edrych ar ffigurau trosedd yn gyson, ac yn adolygu pob newid yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae unrhyw newidiadau sylweddol yn destun dadansoddiad pellach. Yna bydd meysydd problemus yn cael eu hadolygu, gyda chynlluniau Plismona ar waith i fynd i'r afael â'r materion. Mae dulliau plismona lleol yn cynnwys gosod adnoddau bob dydd i fynd i'r afael â materion wrth iddynt ddod i'r amlwg.

- Mae'r  Bartneriaeth yn derbyn data ar lefelau troseddu bob chwarter, a bydd y dulliau 'meddal' neu dymor hir o fynd i'r afael â thueddiadau trosedd yn sail i'r cynllun partneriaeth. (Yn ystod y cyfnod cloi, derbyniwyd data ar sail 2-3 wythnos). Y data a ddefnyddiwn yn gyffredinol yw data  cymhariaeth rhwng y cyfnod yn y flwyddyn gyfredol, a'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, er yr edrychir ar dueddiadau 5 mlynedd hefyd fel yr angen.
- Mae gan y Bartneriaeth ddyletswydd statudol i ymateb i asesiad strategol o dueddiadau trosedd, a pharatoi cynllun yn seiliedig ar yr asesiad hwn. Ar hyn o bryd, cynhelir yr asesiad ar sail ranbarthol, gyda chynllun 3 blynedd ar waith, ac yna mae'n hidlo i lawr i gynllun blwyddyn fwy lleol.
- Yn gynnar yn y flwyddyn hon, oherwydd y sefyllfa cloi, gostyngodd y niferoedd o droseddau, o bob math,  a adroddwyd i'r Heddlu. Roedd hyn wrth gwrs, i'w weld ledled y Wlad. Roedd y gostyngiad mwyaf sylweddol mewn troseddau meddiangar o bob math, a throseddau treisgar. Roedd  troseddau  yn gyffredinol wedi gostwng 29% ar draws Gogledd Cymru ym mis Mai eleni, ychydig yn llai  yn Ynys Môn a Gwynedd (29% yw'r cyfartaledd). Ddiwedd mis Mehefin trwy fis Gorffennaf, dechreuodd y ffigurau troseddau a gofnodwyd cynyddu, ac erbyn canol mis Medi roeddent yn  dychwelyd i gyfraddau cyn y cyfnod cloi. Fodd bynnag, mae bron pob math o drosedd yn dal yn is na'r adeg hon y llynedd gyda rhai, trais gydag anafiadau a throseddau meddiangar , yn sylweddol is.  Ond mae rhai mathau o droseddau wedi gweld cynnydd; Mae troseddau domestig bellach yn dychwelyd i gyfraddau cyn cloi, y rhagwelwyd, ac mae ymyriadau wedi'u rhoi ar waith yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf i fynd i'r afael â hyn.
- Dau faes lle gwelir niferoedd cynyddol yw stelcio ac aflonyddu, a throseddau casineb. Mae dadansoddiad pellach wedi dangos bod y cynnydd mewn stelcio ac aflonyddu yn bennaf oherwydd fod  troseddau rheoli gorfodol, nawr  yn cael eu cofnodi yn y categori aflonyddu a hefyd y cynnydd mewn adroddiadau o aflonyddu yn digwydd ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy apiau negeseuon. Mae'r Bartneriaeth yn edrych i baratoi ymgyrch ymwybyddiaeth o ran defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol yn briodol. Yn yr un modd, mae'r cynnydd mewn troseddau casineb (er bod y niferoedd yma'n isel iawn) wedi bod yn gysylltiedig i raddau helaeth â thensiynau rhwng unigolion sy'n arwain at gam-drin geiriol, sydd yn anffodus yn cael ei weld ledled y Wlad wrth fod symudiadau  pobl yn ystod cyfyngiadau Covid yn gallu achosi ffrithiant. Mae'r Heddlu'n ymateb i bob adroddiad o droseddau casineb ac ymchwilir iddynt yn llawn.

**2019-2020**

- Mae'n werth nodi bod y bartneriaeth diogelwch Cymunedol bellach wedi bodoli ers 22 mlynedd, yn ddiweddarach, fel partneriaeth dwy Sir. Mae'r newidiadau y mae'r bartneriaeth wedi'u hwynebu dros y blynyddoedd yn niferus. Yn wir, gellir dweud nad yw'r dirwedd heddiw yn edrych dim byd tebyg i'r hyn a fodolai ym 1998, pan ddaeth PDC yn ofyniad statudol.
- Yr hyn sydd heb newid fodd bynnag yw ymrwymiad ac ymgysylltiad yr holl bartneriaid. Mae presenoldeb da bob amser mewn cyfarfodydd chwarterol, ac nid

yw un cyfarfod wedi'i ganslo mewn dros 20 mlynedd - hyd at gyfyngiadau diweddar Covid 19.

- Mae partneriaid ac Aelodau lleol sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn cyfrannu'n gadarnhaol, ac mae data chwarterol ar ffigurau troseddau a diweddariad ar ein cynlluniau ar gael ym mhob cyfarfod.
- Mae pob aelod cyfrifol o'r bartneriaeth yn cyfrannu'n ariannol i gael dadansoddwyr partneriaeth, fel y gellir darparu data rheolaidd er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.
- Rhestrir rhai o'r prif newidiadau mae'r bartneriaeth wedi, ac yn parhau i'w hwynebu isod.
    - Colli grantiau lleol - mae'r holl grantiau a fydda cynt yn dod i'r bartneriaeth, naill ai wedi dod i ben, neu wedi symud i fod yn grant ranbarthol ac yn cael ei rheoli ar sail Gogledd Cymru. Fodd bynnag, trwy sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan yn y strwythur rhanbarthol, mae arian yn dal i gael ei sicrhau yn lleol, gan gynnwys cyllid ychwanegol yn y 18 mis diwethaf ar gyfer cam-drin domestig / trais rhywiol a chamddefnyddio sylweddau, yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
    - Colli cydlynwyr lleol - collwyd rhai swyddi oherwydd bod cyllid wedi'i dynnu'n ôl, daeth eraill yn adnodd rhanbarthol. Fodd bynnag, trwy gynnal aelodaeth agos a phwrpasol o'r grwpiau rhanbarthol, rydym yn hyderus bod anghenion lleol wedi'u hymgorffori ym mhob cynllun a gweithgaredd rhanbarthol.
    - Y prif heriau yr ydym i gyd yn eu hwynebu wrth gwrs, yw wyneb newidiol troseddu yn ein cymunedau heddiw. **Er bod Gwynedd ac Ynys Môn yn parhau i fod ymhlith y lleoedd mwyaf diogel i fyw**, rydym yn wynebu'r un materion â phob ardal arall yn y DU. Mae troseddau heddiw yn bellgyrhaeddol a chymhleth, gyda'r defnydd o dechnoleg yn galluogi lefel o droseddau ecsbloetiol ellir ddadlau, na welwyd o'r blaen. Mae gangiau troseddau cyfundrefnol yn bodoli ledled y DU, y rhan fwyaf yn ymwneud â throseddau cysylltiedig â chyffuriau, ac mae'r gangiau hyn a elwir yn gangiau llinellau sirol (County lines) wedi bod yn destun llawer o weithgaredd ymatebol yng Ngogledd Cymru.
- Yn ystod 2019-20, ddaru heddlu Gogledd Cymru arwain ar waith paratoi asesiad anghenion rhanbarthol ar linellau sirol, gan ddod â sefydliadau ledled y rhanbarth ynghyd (mynychodd bron i 200 o bobl un cyfarfod) o hynny, datblygwyd cynllun ymateb rhanbarthol, sydd bellach yn esblygu i weithgaredd lleol. Yn yr un cyfnod (ac yn parhau) mae heddlu Gogledd Cymru wedi cynnal nifer o weithrediadau gorfodi llinellau sirol, sydd wedi cael effaith fawr ar weithgaredd y 'gangiau troseddol' yn yr ardal.
- Mae cynllun 2019-20, sydd ynghlwm, yn coladu'r rhan fwyaf o'r gweithgaredd ychwanegol yr oedd y bartneriaeth eisiau ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Cwblhawyd y gweithgaredd, ac adroddwyd arno bob chwarter i'r PDC, fel y gellir cytuno ar unrhyw weithgaredd adferol pe bai angen. Rhannwyd ffigurau troseddau bob chwarter hefyd, fel y gellir trafod unrhyw weithgaredd ychwanegol a bu angen.
- Mae gweithio rhwng partneriaid yn sylfaenol i ddiogelwch cymunedol. Y prif reswm dros gyflwyno PDC yn ôl ym 1998, oedd sicrhau bod trosedd ac anhrefn yn cael ei

ystyried yn ‘broblem pawb’ ac nid tir yr Heddlu yn unig. Ni fu'r cydweithio rhwng partneriaid allweddol, yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector erioed mor gryf. Mae yna enghreifftiau diddiwedd o'r cydweithio rhwng sefydliadau, sydd bellach yn digwydd yn ddyddiol fel mater o drefn. Fodd bynnag, nid oes lle i hunanfoddhad, ac mae'r cynlluniau presennol yn dal i gynnwys bwriadau i symud i fwy fyth o weithio ar y cyd.

- Yn anffodus, trwy gydol y cyfnod adrodd hwn, mae’r bartneriaeth wedi parhau gyda dau adolygiad marwolaeth domestig (AMD).
- Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019-20, cafodd y bartneriaeth weithdy, i ddechrau'r gwaith o gynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod. Digwyddodd hyn ym mis Chwefror, a hwn oedd cyfarfod corfforol olaf y bartneriaeth yn lleol, cyn dechrau'r cau-lawr ym mis Mawrth 2020.

**2020-21**

- Er fod llawer wedi newid o ran arferion gwaith yn ystod mis Mawrth, ac i mewn i fis Ebrill, fe wnaethom lwyddo i lunio gweithgaredd y gweithdy yn gynllun gweithredu erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol hon. Mae'r cynllun ynghlwm.
- Canslodd y bartneriaeth y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer mis Ebrill, ac yn lle hynny dosbarthwyd LOG - yn cynnwys y ffigurau troseddau am y cyfnod, a'r holl bapurau a materion eraill a oedd angen sylw'r aelodau. Mae'r gweithgaredd hwn wedi parhau ers hynny, gyda LOG 2-3 wythnosol yn cael ei rannu, a materion sy'n codi yn cael eu hamlygu i gael sylw. Ail ddechreuwyd gyda cyfarfodydd yn mis Gorffennaf , gan ddefnyddio galluoedd rhithiol.
- Mae'r cynllun yn cael ei fonitro, ac yn ôl y disgwyl rydym yn gweld rhywfaint o weithgaredd yn cael ei oedi oherwydd sefyllfa Covid 19. Y bwriad yw ein bod yn ceisio nodi unrhyw gyfleoedd newydd sy'n codi o'r cyfnod cyfredol a lliniaru effeithiau posibl unrhyw weithgaredd na fydd yn digwydd. Mae'n ddyddiau cynnar eto, parthed ddadansoddi gwersi i'w dysgu ac arfer gorau.
- Yn gynnar iawn yn y cyfnod cloi, gwelsom, yn ôl y disgwyl, ostyngiad yn y cyfraddau troseddu cyffredinol ar draws y Siroedd, erbyn dechrau mis Mehefin - roedd y cyfraddau troseddu yn gyffredinol o gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol i lawr - 24.6% yng Ngwynedd a 24.8% yn Ynys Môn. Roedd y gostyngiadau yn amrywio ar draws y mathau o droseddau gyda throseddau meddiangar a threisgar yn gweld y gostyngiadau mwyaf.
- Ers hynny, mae cyfraddau troseddu wedi bod yn ymgripio'n araf tuag at y lefelau disgwyliedig. Mae cam-drin domestig (CD), a oedd yn fater y gwnaethom gadw trosolwg agos ohono yn ystod y cyfnod cloi, am resymau amlwg - unwaith eto yn agosáu at niferoedd mwy disgwyliedig o ran niferoedd. Yn ffodus, fel y soniwyd yn flaenorol, rydym wedi gallu manteisio ar yr arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i roi mwy o ddarpariaeth ar waith ar gyfer anghenion CD a cham-drin rhywiol.
- Yn ystod y misoedd sy'n weddill o'r flwyddyn ariannol hon, ein nod yw parhau â chyfarfodydd rhithwir a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd, er mwyn cadw'r cynllun ar y trywydd iawn cyn belled ag y bo modd. Ein nod hefyd yw dysgu o'r ‘ymateb’ i’r cyfnod cau-lawr, sydd, heb os, wedi gweld arfer da ac arloesodd.

Ers datblygu'r bartneriaeth statudol hon o dan Ddeddf 1998, mae cydweithio rhwng y gwahanol sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector wedi newid yn ddramatig. Tydi'r ffaith bod rhai o'r partneriaid cyfrifol wedi'u datganoli a rhai ddim, bod rhai meysydd gwaith yn cael eu harwain gan Lywodraeth Cymru, ac eraill gan Lywodraeth y DU, ddim wedi rhwystro cynnydd gweithio ar y cyd, sydd fel y soniwyd eisoes, bellach wedi'i ymgorffori yn ymarfer gweithio bob dydd.

Er hynny, nid oes amheuaeth bod sefyllfa ddiweddar Covid 19 wedi, ac yn parhau i fod yn gyfnod heriol i'r holl bartneriaid. Isod mae enghreifftiau o sut bu ymateb i rai o'r heriau hyn.

- Yn anffodus, yng Ngwynedd, roedd angen cynnal adolygiad Dynladdiad Domestig (sy'n gyfrifoldeb PDC) yn dilyn marwolaeth ym mis Rhagfyr 2019. Rhoddodd y Swyddfa Gartref ryddid i bartneriaethau 'ddal' ar y broses yn ystod y cyfnod cloi. Fodd bynnag, roedd partneriaid yn awyddus i wneud cynnydd, a chan ddefnyddio cyfarfodydd rhithwir yn lleol a gyda sefydliadau o ddwy Sir arall ledled y DU, rydym wedi cadw at yr amserlen y byddem wedi'i wneud, serch y rhwystrau presennol.
- Yn gynnar yn y cyfnod Cloi, cydnabuwyd bod angen bod yn wyliadwrus o ran Cam-drin Ddomestig (DA). Mae dioddefwyr risg uchel CD yn cael eu trafod mewn cyfarfod amlasiantaethol bob mis, fel arfer safonol. Cytunodd partneriaid y byddai cyfarfodydd rhithwir wythnosol hefyd yn cael eu cynnal, fel y gellir delio â ffactorau risg yn gyflym. Mae'r cyfarfodydd hyn yn parhau.
- Daeth diwallu anghenion ein dinasyddion digartref yn flaenoriaeth yn gynnar yn y cyfnod cloi, nid yn unig yn darparu tai i bob un, ond hefyd yn diwallu anghenion eraill y gallent eu cyflwyno. Cynyddodd ein gwasanaethau camddefnyddio sylweddau'r ddarpariaeth 'allgymorth' sydd ar gael, gan weithio ochr yn ochr â'r heddlu a gwasanaethau tai ar lawr gwlad, gan ymgysylltu â phob unigolyn. Roedd darparu ar gyfer yr anghenion hyn yn sicrhau eu bod yn parhau i ymgysylltu â gwasanaethau ac o ganlyniad yn cyfeirio ac yn ymgysylltu o fewn gwasanaethau triniaeth mwy strwythuredig. Darparwyd gwerth ychwanegol trwy ddarparu bwyd poeth ac eitemau sylfaenol, ffonau symudol lle nad oedd ganddynt fynediad at un, a ticedi teithio i'w galluogi i fynd i apwyntiadau a derbyn cefnogaeth bellach yn ôl yr angen.
- Cynyddodd ein gwasanaethau tai a gofal cymdeithasol y nifer y cyfarfodydd (rhithwir) gyda phartneriaid yn y trydydd sector / camddefnyddio sylweddau / a'r gwasanaeth Prawf, er mwyn trafod unigolion yn y gymuned a oedd yn destun goruchwyliaeth Prawf. Mynd i'r afael ag anghenion a rheoli risg oedd y nod i raddau helaeth, ar adeg lle nad oedd cyswllt wyneb yn wyneb bob amser yn bosibl.
- Hefyd, wrth i gyfarfodydd goruchwylio wyneb yn wyneb â chleientiaid yn y gymuned o fewn swyddfeydd ddod yn anodd i'r gwasanaeth prawf (fel gyda phob darparwr arall) yn ystod dyddiau cynnar cloi, mae'r Gwasanaeth Prawf a'r heddlu'n cryfhau eu harferion gweithio ar y cyd, mwy o ddefnydd o Safleoedd heddlu ac ymweliadau stopio drws ar y cyd, er mwyn sicrhau bod rheolaeth risg yn cael ei chynnal yn ystod y cyfnod.
- Yn ystod y cyfnod Cloi, derbyniodd partneriaid ddata ar dueddiadau trosedd pob 2-3 wythnos, yn hytrach na'r monitro chwarterol sy'n safonol. Roedd hyn yn galluogi'r partneriaid i ymateb i dueddiadau neu faterion oedd yn dod i'r amlwg. Roedd y dadansoddwr partneriaeth hefyd yn gallu darparu data mwy manwl ar unrhyw faterion a nodwyd, fel ein bod i gyd yn deall sut y gallai newid ymatebion. Enghraifft o hyn, oedd nodi cynnydd mewn math o achosion 'aflonyddu' yn ymwneud â defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae'r bartneriaeth

| |
|---|
| yn edrych ar ba ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ychwanegol y gallem eu datblygu i hysbysu pobl o'r angen am ddefnydd cyfrifol o gyfryngau o'r fath. |

| 6 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb |
|---|
| Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir |

| 7 - Goblygiadau Ariannol |
|---|
| Nid yw'r adroddiad yn nodi unrhyw oblygiadau ariannol penodol i'r Awdurdod Lleol |

| 8 - Atodiadau: |
|---|
| 1. Cynllun 2019-20<br>2. Cynllun 2020-21 |

| 9 - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am wybodaeth bellach): |
|---|
| Dim |

## Blaenoriaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru

Tra bo Bwrdd Cymunedau Diogel GC yn canolbwyntio ar iechyd meddwl, troseddau cudd a throseddau drwy ddefnyddio technoleg ar lefel ranbarthol, mae'r Bwrdd wedi gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol lleol ganolbwyntio ar:

### 1. Rhwystro Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

- Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr
- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cynyddu'r gyfradd adrodd am Droseddau Casineb
- Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag iddynt ddioddef trosedd
- Lleihau nifer yr ail-droseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr ac YGG ar gyfer ddioddefwyr a throseddwyr
- Gweithio gyda MARAC i reoli'r niferoedd sy'n ddioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro
- Ymdrin yn effeithiol ag achosion risg uchel o Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Cynyddu hyder i adrodd am achosion o Gam-drin Domestig a Throseddau Rhywiol
- Cynyddu ymwybyddiaeth am drais rhywiol ymysg pobl ifanc

### 2. Lleihau niwed a'r risg o niwed

- Lleihau camddefnyddio sylweddau
- Lleihau'r defnydd o gyffuriau ac alcohol
- Monitro Tensiynau Cymunedol

### 3. Darparu Ymateb Effeithiol

- Lleihau aildroseddu
- Deall a mynd i'r afael ag effeithiau ymfudo ar yr agenda diogelwch cymunedol

## Cynllun lleol Gwynedd ac Ynys Môn

Mae'n cynllun lleol yn edrych i weithredu'r penawdau uchod, ac yn seiliedig ar bwysigrwydd pob un yma yng Ngwynedd ac Ynys Môn, bydd rhai materion yn cael mwy o sylw nag eraill. Hefyd, mae rhai rhaglenni gwaith yn digwydd yn Rhanbarthol, ac efallai na fyddwn ond yn adnabod y gwaith hwn yn ein cynllun lleol.

Bwriad y cynllun dilynol ar gyfer 2019/20 yw adeiladu ar y gwaith eang a wnaed dros y blynyddoedd diweddar sydd wedi arwain at leihad sylweddol mewn Trosedd ac Anrhefn yn siroedd Gwynedd ac Ynys Môn. Rydym yn cydnabod bod troseddu yn ei gyfanrwydd wedi cynyddu ar draws y wlad yn ddiweddar. Rydym hefyd yn adnabod bod math o droseddau nad ydym wedi delio â hwy o'r blaen yn dod i'r amlwg, ac mae angen cydweithio mewn ffyrdd gwahanol i'w taclo.

Bydd y Cynllun yn canolbwyntio ar feysydd gwaith fydd yn cael eu datblygu yn ystod 2019 a thu hwnt. Bydd y cynllun yn cael ei adnewyddu bob blwyddyn. Bydd y cynllun hefyd yn ystyried yr asesiad strategol, yn ogystal â'r canllawiau a'r blaenoriaethau a sefydlwyd gan y Bwrdd Rhanbarthol.

Gweler isod ein prif flaenoriaethau, gyda rhestr o faterion yr ydym am fynd i'r afael â hwy yn ystod y flwyddyn. Mae'r cynllun yn un byw, ac felly fe all newid yn ystod y cyfnod er mwyn ymateb i newidiadau a sialensiau newydd.

Camau gweithredol ar gyfer datblygu ein strwythurau i'r dyfodol

| | Camau gweithredu a phrosiectau 2019 | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb | Allbynnau a deilliannau | Allbwn wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Mae'r holl bartneriaid wedi ymrwymo i edrych ar resymoli ein strwythurau cydweithio rhanbarthol. Y bwriad yw creu strwythurau sy'n fwy effeithlon ar gyfer ein gwaith aml-asiantaethol i'r dyfodol. Yn lleol, byddwn yn cymryd rhan yn y broses ac yn ymateb yn lleol i'r newidiadau. | | Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru. | Bydd y gwaith o lunio opsiynau yn cael ei gyflawni gan y Bwrdd Rhanbarthol, ac wedi i'r newidiadau gael eu cytuno, bydd partneriaid yn gweithredu fel yr angen. Bydd hyn yn galluogi asiantaethau i weithio mewn ffordd fwy effeithiol i'r dyfodol. | Mae'r adolygiad wedi nodi a chytuno ar strwythur Bwrdd newydd ar gyfer y dyfodol. Bydd y strwythur hwn yn cymryd rhai misoedd i'w roi ar waith, gyda'r gefnogaeth a'r llywodraethu gofynnol iddo weithredu'n effeithiol. |
| | • Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu prosiect penodol i edrych ar wella ymateb yr holl asiantaethau perthnasol i faterion cyfiawnder troseddol. Bydd y bartneriaeth leol yn ystyried y rhaglen waith mae Llywodraeth Cymru wedi'i datblygu, ac yn sicrhau ymrwymiad ac ymateb i'r gofynion. | Bydd y gwaith yn datblygu dros y flwyddyn hon, ac o bosib bydd yn parhau i 2020. Adroddiad ar gynnydd yn (Ch3). | Llywodraeth Cymru – Bwrdd prosiect Aelodau'r Bartneriaeth | Bydd y Bartneriaeth yn ymrwymo i dderbyn gwybodaeth am disgwyliadau'r rhaglen, ac yn ymateb yn seiliedig ar benderfyniadau lleol. Drwy fanteisio ar yr hyn sy'n ddefnyddiol ac o werth i ni yn y rhaglen arfaethedig, bydd ein gallu i ymateb i droseddu yn gwella ar draws y rhanbarth. | Mae'r byrddau prosiect Cymru yn parhau gyda'r cynlluniau gwaith, a'r gwybodaeth yn cael ei gyfleu i'r Bartneriaeth leol yn rheolaidd. Mae'r datblygiadau cyfredol yn cynnwys y posibilrwydd o gydlynydd rhanbarthol am 18 mis i helpu gyda rhesymoli Byrddau Rhanbarthol (felly efallai y byddwn yn defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol) a'r posibilrwydd o adnoddau dadansoddol ychwanegol ledled Cymru i gynorthwyo gyda'r dull seiliedig ar dystiolaeth o flaenoriaethu. |

Tudalen 19

| | Camau gweithredu a phrosiectau 2019 Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws) | Cyfrifoldeb | Dyddiad Targed | Allbynnau | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Ffocws:** Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr (troseddau meddiangar yn unig)<br>• Troseddau wrth ddefnyddio technoleg<br>• Byrgleriaeth ddomestig<br><br>**Mesurau:**<br>**1.** Pob trosedd sy'n seiliedig ar y ddioddefwr<br>**2.** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro (3 neu ragor mewn 12 mis)<br>**3.** Byrgleriaeth breswyl (dangosydd newydd) | | | | |
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2019** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau a deilliannau** | |
| | • Mae'r bartneriaeth wedi adnabod bod angen codi ymwybyddiaeth plant ynghylch troseddau penodol sy'n seiliedig ar ecsploetiaeth er budd eraill - troseddau Llinellau Sirol yn bennaf. Mae'r Cynllun Schoolbeat am ledaenu'r gwersi yn ein hysgolion, gan gynnwys datblygiadau yn y maes hwn, yn ogystal â gwybodaeth am droseddau yn defnyddio cyllyll, a cham-fanteisio ar blant yn rhywiol. | Rhaglen yn fyw drwy gyfnod y flwyddyn (Ch4). | Heddlu/Addysg - https://www.schoolbeat.org/en/partners/county-lines/ | Gwybodaeth wedi ei rhannu gyda phlant yn ein hysgolion. Adnabod nifer yr ysgolion sydd wedi derbyn y sesiynau yn ystod y flwyddyn. Sesiynau sy'n eu galluogi i adnabod sefyllfaoedd peryglus, a gwybod beth i'w wneud a lle i adrodd am hynny. | Mae Heddlu Gogledd Cymru (rhaglen cyswllt ysgolion) wedi bod ar flaen y gad yn cynhyrchu a threialu ffilm animeiddiedig benodol am faterion yn ymwneud â llinellau sirol ar gyfer ein hysgolion. Bydd yn cael ei lansio fel adnodd Cymru gyfan ar y 26ain o Fawrth. Bydd pob un o'n hysgolion yn cael gwers benodol am y mater hwn a sut i gadw'n ddiogel. Mae bwriad hefyd i gynhyrchu adnodd i rieni, i'w cynorthwyo i gadw plant yn rhydd rhag cam fanteisio troseddol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • risyddir bod troseddau meddiangar yn defnyddio technoleg ar gynnydd. Mae'r heddlu yn arwain ar y maes gorfodaeth ac mae uned arbennig yn weithredol i ddelio â'r materion. Mae angen gwell dealltwriaeth o'r math a nifer y troseddau hyn ar gyfer y bartneriaeth, er mwyn adnabod cyfleoedd posib i godi ymwybyddiaeth neu dargedu ymyrraeth gynnar. | Adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn, er mwyn adnabod tueddiadau a allai arwain at weithredu pellach. | Dadansoddwr y bartneriaeth, a'r aelodau parthed gweithredu pellach. | Dadansoddiad ar gael o'r troseddau y mae'r uned arbennig yn delio â hwy yn ystod y flwyddyn. Hyn yn galluogi i'r bartneriaeth ymateb parthed adnabod cyfleoedd neu beidio. | Mae gwaith yr uned arbenigol - seiberdroseddu yn parhau. Yn y dyfodol agos bydd yr uned yn ehangu er mwyn helpu i ddelio â'r angen cynyddol. |
| Tudalen 21 | • Rydym yn ymwybodol bod troseddau sy'n defnyddio 'sgamiau' ar gynnydd. Mae'r Heddlu, a'r gwasanaethau Safonau Masnach yn y ddwy Sir am gydweithio ar brosiect codi ymwybyddiaeth drwy weithredu cynllun 'hyfforddi'r hyfforddwr' ar gyfer y sector gwirfoddol. Bydd hyn yn galluogi pobl sy'n gweithio ac yn cael cyswllt gyda'r cyhoedd, i rannu gwybodaeth o ran sut i adnabod sgamiau, yn enwedig gyda phobl sydd o bosib yn fwy tueddol o gael eu targedu, megis pobl hŷn. | Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod misoedd cyntaf 2019, felly adroddiad ar gynnydd erbyn (Ch2). | Heddlu, gwasanaethau Safonau Masnach y ddwy Sir | Bydd gwybodaeth ar gael parthed faint o bobl yr ydym wedi eu hyfforddi. Yna, bydd y wybodaeth hon ar gael gan y sector sy'n debygol o gael mwy o gyswllt â phobl a all fod yn darged i sgamiau, a dylanwadu arnynt. | Ynys Môn –mae gwaith wedi ei wneud eisoes ym Môn (blwyddyn diwethaf) I hyfforddi staff Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae cynrychiolydd o fanc Nat West bellach yn daprau Hyfforddiant I'w cwsmeriaid nhw hefyd a cynnal sgyrsiau yn y gymuned. Ma na fwriad i ni gynnal ambell i sesiwn yn y gymuned lle mae gynno ni wybodaeth yn arddangos bod angen Hyfforddiant ar y cymdogion lleol.<br><br>Gwynedd – Hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o faterion scams wedi cymryd lle gyda arweinyddion yn y |

Tudalen 22

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gymuned, 70 wedi mynychu. Lot wedi mynychu a dangos diddordeb.<br><br>18 o ymweliadau i unigolion ble mae scam wedi ei adrodd drwy'r Bwrdd safonau masnach cenedlaethol |
| | • Hefyd mewn perthynas â'r materion uchod, bydd yr Heddlu a'r gwasanaethau Safonau Masnach, yn defnyddio Bws i godi ymwybyddiaeth o droseddau technegol (Seiber) ar draws ein cymunedau (bws sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru). Bydd hyn yn ein galluogi i gyrraedd mwy o bobl gyda'r negeseuon pwysig o ran sut i adnabod sgamiau ac adrodd amdanynt. | Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod misoedd cyntaf 2019, felly adroddiad ar gynnydd erbyn (Ch2). | Heddlu, gwasanaethau Safonau Masnach y ddwy Sir | Byddwn yn nodi nifer y lleoliadau y mae'r bws wedi'i gyrraedd, a faint o bobl sydd wedi derbyn gwybodaeth a chyngor. Bydd hyn yn cynnig cyfleoedd i bobl dderbyn gwybodaeth wyneb-yn-wyneb gan arbenigwyr yn eu cymunedau, a lleihau'r tebygrwydd fod pobl yn cael eu sgamio. | Ynys Môn- Fuodd y bws Syber yn MSPARC Gaerwen a Morrisons Caergybi, yn ôl ym Mis Mawrth. Er, reit ddistaw yn Gaerwen, roedd llawer prysurech yng Nghaergybi, a'r uned yn fodlon gyda'r niferoedd o ymwelwyr I'r bws.<br><br>Gwynedd – Fuodd y bws Syber ym Mangor a Dolgellau yn ystod Mis Mawrth. Ddaru rhwng 30-40 ddod i gael gymorth ym Mangor, llai yn Nolgellau, ond does dim niferoedd pendant eto. |
| | • Ar ôl iddynt gynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth i'r cyhoedd ar faterion diogelu, mae Cyngor Ynys Môn wedi nodi bod angen sicrhau gwell mynediad i wybodaeth ar faterion sgamio. | Yn ystod chwarter un, adroddiad ar gynnydd (Ch1). | Gwasanaethau Oedolion Ynys Môn | Bydd gwybodaeth benodol, yn seiliedig ar y prif faterion a godwyd yn y sesiwn diogelu, nawr yn cael ei gosod ar wefan y Cyngor. Bydd hyn yn rhoi cyfle pellach i'r cyhoedd ddod o hyd i'r wybodaeth y maent ei hangen i'w cynorthwyo i adnabod troseddau o'r fath. | Gwybodaeth wedi ei lwytho i wefan yr awdurdod lleol fel rhan o'r fenter wythnos diogelu.<br><br>Sgyrsiau a gwybodaeth wedi ei rhannu gyda'r cyhoedd yn ystod yr wythnos ddiogelu drwy ddeialog ar lafar a |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | dosbarthu taflenni o'r stand yn dderbynfa y Cyngor. |

**Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**

- Sgamiau wrth ddefnyddio technoleg a phost: Addysgu a chynghori defnyddwyr, codi ymwybyddiaeth, rhannu gwybodaeth a chyfeirio at wasanaethau. Partneriaid: Gwarchod y Cyhoedd a'r Heddlu
- Protocol bancio: Cynllun yn galluogi gweithwyr y banc i adrodd i'r Heddlu os oes amheuaeth o dwyll. Partneriaid – Gwarchod y Cyhoedd a'r Heddlu
- *TITAN* Gogledd-orllewin: Cynrychiolaeth ar grŵp Troseddau cyfundrefnol y Gogledd-orllewin. Partneriaid – Gwarchod y Cyhoedd
- Troseddau carreg drws Cymru gyfan: Ymgyrch i fynd i'r afael â throseddau carreg drws yng Nghymru. Partneriaid – Gwarchod y Cyhoedd a'r Heddlu
- Unedau ymroddedig i droseddau Uwch-dechnoleg a throseddau wrth ddefnyddio technoleg. Partneriaid – Heddlu



**2** **Ffocws:** Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG)

**Mesurau:**

1. Lefel yr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
2. Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro - YGG

| | Camau gweithredu a phrosiectau 2019 | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb | Allbynnau a deilliannau | Allbwn wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Mae'r heddlu wedi adnabod bod angen ail-edrych ar y grwpiau gweithredol YG, er mwyn sicrhau y defnyddir adnoddau prin pob | | Heddlu i arwain, pawb i gyfrannu sylwadau. | Bydd strwythur grwpiau newydd mewn lle. Felly, bydd ymrwymiad amser gweithwyr i'r grwpiau yn fwy effeithiol, ac felly, ein hymateb i'r materion dan sylw yn effeithlon. | Yn dilyn adolygiad, cydnabuwyd bod y strwythurau cyfredol yn gweithio'n dda, yn enwedig y cyfarfodydd wythnosol rhwng sefydliadau Tai a'r |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | asiantaeth yn effeithiol. Fel rhan o adolygiad ehangach o grwpiau aml-asiantaethol lleol, bydd asesiad yn cael ei wneud i weld beth yw'r strwythurau angenrheidiol ar gyfer y dyfodol. | | | | heddlu. Mae ymwybyddiaeth gyson o ofynion ac angen newidiol yn parhau, felly ni chaiff newidiadau yn y dyfodol eu diystyru os bernir eu bod yn angenrheidiol. |
| | • Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion (Ynys Môn) wedi adnabod nad yw rhai cleientiaid yn derbyn gwasanaeth addas bob tro, yn sgil trothwyon y gwasanaethau, er eu bod yn cyflwyno i wasanaethau yn aml. Yn benodol, mae hyn yn wir o ran y ddealltwriaeth o alluoedd meddyliol/penderfyniadau annoeth/cymryd risgiau. Bydd y Gwasanaethau Oedolion yn arwain ar y gwaith o feithrin dealltwriaeth gyfunol o'r materion dan sylw. | | Gwasanaethau Oedolion i arwain, pawb i ymrwymo. | Bydd sgyrsiau/sesiynau gwella dealltwriaeth wedi digwydd. Felly, bydd gan yr asiantaethau penodol well dealltwriaeth o natur problemau unigolion, ac felly, bydd modd iddynt ymateb yn seiliedig ar angen ac nid yn seiliedig ar drothwyon y gwasanaeth yn unig. | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a lles -Mae'r awdurdod lleol yn gweithio yn ôl y Ddeddf ac yn darparu gwasanaeth cyngor a chymorth gwybodaeth i sicrhau bod dinasyddion yn : Derbyn help i reoli eu gofal c cymorth gyda , Mynediad at wasanaethau lleol , Cynnig dewisiadau a chyngor sy'n gweddu i ganlyniadau dymunol yr unigolyn, Cynnig atebion sy'n gymesur ag anghenion ac sy'n diwallu canlyniadau unigolyn. Mae hyn yn fan cychwyn ar gyfer asesiad: Os yw hynny'n briodol. Dulliau ataliol yr awdurdod lleol a chomisiynu gwasanaethau cysylltiedig e.e. cefnogi pobl gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai<br><br>Mae VARM yn parhau i ddarparu fframwaith pwysig i reoli risgiau a |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | allai godi o dan amgylchiadau penodol wrth weithio gydag oedolion y tybir bod ganddynt y gallu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, ond sydd mewn perygl o niwed difrifol.<br><br>Mae'r VARM yn broses rheoli risg asesu oedolion aml-asiantaeth i: nodi'r risgiau perthnasol i'r unigolyn, trafod a chytuno ar gyfrifoldebau/gweithredoedd yr Asiantaeth, cofnodi, monitro ac adolygu cynnydd gyda'r cynllun gweithredu cytunedig, cytuno pryd mae'r risgiau wedi cael eu rheoli a gwerthuso'r canlyniad<br><br>Mae'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol a fframwaith i weithwyr proffesiynol i hwyluso gwaith aml asiantaeth effeithiol gydag oedolion sydd mewn perygl sylweddol.<br><br>Rydym yn cyflawni ein swyddogaeth fel aelod o’r MARAC a MAPPA: ac rydym wedi gweld twf yn y galw. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Protocol hunan-esgeuluso Gogledd Cymru<br><br>Ers cychwyn y protocol hwn, bu gwelliannau sylweddol mewn gwaith aml asiantaeth rhagweithiol gydag unigolion sy'n hunan-esgeuluso. Mae hyn wedi arwain at ddealltwriaeth a rennir gan weithwyr proffesiynol ac, mewn llawer o achosion, wedi arwain at well canlyniadau i'r unigolyn a allai fod wedi bod ar gau i wasanaethau yn flaenorol. |
| | • Sefydlu fframwaith fydd yn galluogi rhannu gwybodaeth i gefnogi parhad y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC) ac edrych ar y posibilrwydd o gael gorchymyn newydd ym Mangor. Bydd rhaid edrych ar ba wybodaeth sydd ar gael, neu sydd angen bod ar gael gan yr Heddlu, i brofi gwerth y gorchmynion cyfredol. Hefyd, yr Heddlu a Chyngor Gwynedd i drafod y posibilrwydd o ddarparu | | Dadansoddwr yr Heddlu, Heddlu lleol a swyddogion perthnasol yng Nghyngor Gwynedd. | Bydd y wybodaeth berthnasol wedi ei hadnabod, a'i chasglu. Felly, defnyddir y ddeddfwriaeth yn fwy effeithlon, yn berthnasol i'r angen, ond hefyd ystyrir yr adnoddau sydd wirioneddol ar gael ar gyfer eu gweithredu. | Cymeradwywyd y gorchymun ym Mangor, ac aeth yn fyw ar y 1af o Ragfyr. Amserlen o gyfarfodydd nawr mewn lle, yr ail ohonynt yn cael ei chynnal ym mis Ionawr rhwng yr ALl a'r Heddlu, i fwrw ymlaen â'r adolygiad o orchmynion eraill sy'n bodoli yn y ddwy Sir. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gorchymyn newydd ym Mangor.<br><br>• Mae Cyngor Ynys Môn wedi adnabod fod trafod materion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol mewn ffordd amserol gyda'n tenantiaid yn y gymuned yn helpu i ddatrys materion yn gynnar. Felly, yn ystod 2019, bydd swyddogion y gwasanaethau Tai a'r Heddlu yn cynnal sesiynau galw heibio yn rheolaidd ar gyfer trafod materion gyda thrigolion. | Cynllun yn weithredol drwy'r flwyddyn, asesu cynnydd ar y diwedd, ac adrodd (ch4). | Gwasanaeth Tai Ynys Môn a'r Heddlu | Byddwn yn adnabod faint o alw sydd ar y sesiynau, a'r math o faterion sy'n cael eu hadnabod, ac yn derbyn sylw cynnar. Bydd tenantiaid yn teimlo bod eu problemau'n cael sylw amserol, bod y gwasanaethau yn weledol yn ein stadau tai, a bod sylw priodol yn cael ei roi i bryderon unigolion. | Mae nifer o feddygfeydd gwasanaethau Heddlu a Thai wedi digwydd trwy gydol y Flwyddyn ariannol. Fe'u targedir mewn meysydd lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn bryder. Mae'r sesiynau galw heibio yn rhoi cyfle i denantiaid ac Aelodau Etholedig lleol godi pryderon ynghylch ASB honedig ar y stadau tai. Anogir tenantiaid nad ydynt yn teimlo'n gyffyrddus wrth fynd i feddygfa heddlu a thai i riportio materion ASB i'w Swyddog Rheoli Tai.<br><br>Mae'r Gwasanaethau Tai yn gweithredu'r polisi ASB a ddatblygwyd ac a gymeradwywyd yn 2016. Mae hyn yn darparu arweiniad a gweithdrefnau gydag amserlenni gan sicrhau bod y tîm Rheoli Tai yn cadw at y rhain gyda'r bwriad o ddatrys cwynion ASB yn gyflym.<br><br>Mae'r Gwasanaethau Tai yn mynychu'r cyfarfod CAP wythnosol a chyfarfod misol VARM. Rhennir gwybodaeth rhwng asiantaethau i |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | sicrhau bod ymyrraeth gynnar yn allweddol i'n darpariaeth |
| | • Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) y ddwy Sir, a'r Heddlu, wedi adnabod yr angen i ail-edrych ar y prosesau o ymdrin â phlant sy'n creu trafferthion oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n amlwg bod angen dod â'r gwasanaeth cyfiawnder i mewn i'r broses yn gynnar, er mwyn sicrhau gwarchodaeth a chefnogaeth i'r plentyn yn ogystal â delio gyda'r materion ynghlwm â'r drosedd. Yn ogystal, mae asiantaethau, ar y cyd am ail-edrych ar y systemau o reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy ddefnyddio 'cerdyn melyn' ar gyfer plant. | Cynllun yn weithredol yn ystod 2019/20. Adrodd am gynnydd yn (Ch2). | Grŵp rheoli gweithredol GCI | Bydd proses newydd yn cael ei datblygu gan y Bwrdd gweithredol, ac yna'n cael ei hadolygu yn ystod y flwyddyn i sicrhau gwelliant yn y broses. Bydd y plant sy'n dod i sylw'r Heddlu yn cael pob cefnogaeth i droi cefn ar droseddu.<br><br>Pwrpas yr adolygiadau yw sicrhau bod pob cyfle yn cael ei adnabod, i sicrhau nad yw'r plant hyn yn mynd ymlaen i fod yn droseddwyr i'r dyfodol. | Mae Cytundeb Gweithio rhwng Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Gogledd Cymru, ac Ymgynghoriad ar gyfer Contractau Ymddygiad Derbyniol, Gorchmynion Gwasgaru a Gorchmynion Llys Ategol bellach wedi'i gwblhau<br><br>Pwrpas y cytundeb gweithio hwn yw sicrhau cydweithredu effeithiol rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gogledd Cymru o dan y prif nod i atal plant a phobl ifanc rhwng 8-17 oed rhag troseddu o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.<br><br>Mae'r cytundeb gweithio hwn hefyd yn cefnogi blaenoriaethau'r Bwrdd Pobl yn Ddiogel a'r Cynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid Rhanbarthol. |

**Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**

- Tîm ymyrraeth gynnar: Dull Aml-asiantaethol i weithredu ymyrraeth gynnar a mesurau ataliol. Partneriaid: Heddlu, Asiantaethau Tai ac eraill yn ôl yr angen.
- Gwerthiant cynnyrch gyda chyfyngiad oedran i rai dan oed: Gwaith gorfodaeth ac ataliol parthed gwerthu cynnyrch gyda chyfyngiad oedran, sef alcohol, tân gwyllt ac ati, yn cynnwys pryniannau prawf. Partneriaid – Gwarchod y Cyhoedd a’r Heddlu
- Ymgyrchoedd lleol/diwrnodau codi ymwybyddiaeth: Codi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd penodol, e.e. codi ymwybyddiaeth o droseddau cyllyll, noson tân gwyllt/Calan Gaeaf. Partneriaid: Gwarchod y Cyhoedd, Heddlu, Gwasanaeth Tân ac Achub
- Llygredd sŵn: Monitro llygredd sŵn gan gynnwys defnyddio *app* Môn i gasglu tystiolaeth i arwain at gamau gorfodaeth. Partneriaid: Gwarchod y Cyhoedd Ynys Môn a’r Heddlu
- Trwyddedu eiddo: Adolygu amodau ac amcanion trwydded pan fo’r angen. Gwarchod y Cyhoedd a’r Heddlu
- Ymgyrch MICRA – Targedu ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol yng Nghaernarfon. Partneriaid – Heddlu, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Addysg
- Ymgyrch Wax – Targedu'r drosedd o gardota yn ardal Bangor sydd wedi bod yn destun pryder yn y gymuned leol. Parhaus
- Ymgyrch Circuit – Troseddau’n seiliedig ar YGG yng Nghaergybi. Partneriaid – Heddlu ar y cyd â chlwb ieuenctid Canolfan Jessie Hughes, Yr Hwb, Pod Ieuenctid, Gwelfor, Gwasanaethau Tai a’r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
- Grŵp tasg YGG Gwynedd: Mynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Partneriaid – Heddlu (dull aml-asiantaethol)
- Ymgymryd â gwaith ataliol yn y maes gwerthu alcohol dan oed - cynghori busnesau, hyrwyddo Her 25, cynnal profion prynu, a gorfodaeth yn ôl yr angen. Partneriaid - Safonau Masnach a thrwyddedu yr Awdurdodau Lleol a'r Heddlu

**3** **Ffocws:** Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag iddynt ddioddef trosedd

- Caethwasiaeth fodern
- Troseddau casineb
- Monitro tensiynau cymunedol

**Mesurau:**

1. Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro (3 neu ragor mewn 12 mis)
2. Nifer yr achosion o gaethwasiaeth fodern (dangosydd newydd)
3. Nifer yr adroddiadau am droseddau casineb (dangosydd newydd)

| | Camau gweithredu a phrosiectau 2019 | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb | Allbynnau a deilliannau | Allbwn wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Cynllun Caethwasiaeth Fodern yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PDC drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogel. Bydd y llwybr cyfeirio newydd yn cael ei weithredu'n lleol, a bydd codi ymwybyddiaeth yn rhan o waith craidd yr asiantaethau. | Adrodd i'r PDC yn ôl yr angen, os bydd rhwystrau lleol. | Bwrdd Rhanbarthol Aelodau'r Bartneriaeth | Bydd rhaglen waith y bwrdd rhanbarthol yn cael ei monitro yn rhanbarthol. Bydd y bartneriaeth leol yn delio gydag unrhyw faterion o danberfformiad lleol, ac adroddir ar hyn yn y bwrdd rhanbarthol. | Mae'r gwaith hwn yn cael ei fonitro trwy'r Byrddau diogelu corfforaethol yn y ddau ALl. Ni fu unrhyw faterion yn gofyn am uwch gyfeirio i'r Bwrdd rhanbarthol hyd yn hyn. Mae'r gwaith yn parhau. |
| | • Mae partneriaid wedi adnabod fod y sialens o ddelio gyda'r troseddau parthed Llinellau Sirol yn gymhleth ac angen mwy o sylw. Felly, fel rhanbarth, byddwn yn cydweithio gyda'r Heddlu i gasglu gwybodaeth ar draws y sectorau er mwyn deall ac adnabod maint y broblem. Bydd hyn yn cynnig sylfaen er mwyn mynd ati i | | Grŵp tasg rhanbarthol yn arwain. Dadansoddwyr yn yr Heddlu yn cydgordio. Aelodau'r bartneriaeth i rannu gwybodaeth. | Wrth rannu ein gwybodaeth fel partneriaid, bydd modd creu darlun mwy cynhwysfawr o natur y bygythiad a'r risg i ni yng Ngogledd Cymru parthed Llinellau Sirol. Bydd y wybodaeth yn rhan o'r cyd-gynllunio ar gyfer ein hymateb i'r broblem yn y dyfodol. | Mae asesiad o anghenion ac yn fwy diweddar, proffil lleol wedi'i gwblhau o ran CL. Bydd y wybodaeth yma yn sail i weithdy i'w drefnu yn ystod yr wythnosau nesaf. Nod y gweithdy yw trosi'r wybodaeth yn gynllunio gweithredu lleol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | adnabod sut i ymateb fel partneriaid mewn ffordd fwy effeithiol. | | | | |
| | • Mae troseddau lle mae defnydd o gyllyll ar gynnydd ar draws y wlad, ac er nad yw'r broblem yn yr ardal hon ar yr un raddfa a'r hyn a welir mewn ardaloedd eraill, mae angen ymateb i'r risg. Mae'r heddlu a'r gwasanaethau Safonau Masnach yng Ngwynedd yn cydweithio ar gynllun codi ymwybyddiaeth yn ein siopau perthnasol, o ran gwerthu cyllyll i blant a phobl ifanc. Bydd rhai siopau yn cael eu targedu hefyd am *'spot checks'* er mwyn canfod unrhyw dor-cyfraith posib, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth a rhannu pecynnau gwybodaeth yn gyffredinol. | Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod misoedd cyntaf 2019, felly adroddiad ar gynnydd erbyn (Ch1). | Heddlu, gwasanaethau Safonau Masnach Gwynedd | Bydd siopau perthnasol yn cael gwybodaeth a sgyrsiau pwrpasol gyda'r heddlu a SM, er mwyn eu hatgoffa o ddeddfwriaeth a goblygiadau gwerthu cyllyll i bobl dan oed. Bydd rhai siopau hefyd yn derbyn *'spot checks'* gan gadéts yr heddlu, er mwyn i ni allu adnabod tor-cyfraith. Bydd hyn yn galluogi siopau i wneud penderfyniadau doeth, yn ogystal â'u gwneud yn ymwybodol bod yr asiantaethau gorfodaeth yn cadw golwg ar y materion hyn. | Operation 'Sceptre' wedi digwydd – gyda 23 pryniant Prawf yn cael eu gwneud yng Ngwynedd. Roedd 6 yn fethiannau, gyda pob un yn derbyn ymyrraeth ddilynol gan Safonau Masnachu o ran 'Diwydrwydd dyladwy', pecynnau gwybodaeth ac ati.<br>Mae hyn wedi gosod y llwyfan ar gyfer gweithgaredd parhaus am weddill y flwyddyn – gan gynnwys gweithrediad posibl yn yr Hydref dan arweiniad yr Heddlu. Mae SM yn cynnal ail-brofion yn ystod gwyliau'r Haf.<br>Cafodd y fenter hon sylw yn y wasg, er mwyn tynnu sylw at y gweithgareddau gorfodi mewn perthynas a gwerthu cyllyll. |
| | • Mae Cyngor Môn wedi adnabod ei bod yn bwysig i weithwyr ac Aelodau Etholedig fod yn gyfarwydd â'r prosesau a'r ddeddfwriaeth parthed ail-sefydlu troseddwyr risg uchel yn ein cymunedau. Mae dealltwriaeth yn arbed pobl rhag gorymateb a | Adroddiad ar gynnydd yn (Ch1). | Adran Dai Cyngor Ynys Môn –heddlu a'r gwasanaeth prawf | Bydd sesiynau addas yn cael eu trefnu, ac fe adroddir yn ôl ar nifer y mynychwyr. Wrth sicrhau fod Aelodau Etholedig a gweithwyr rheng flaen yn gwbl gyfarwydd gyda'r goblygiadau a strwythurau rheoli troseddwyr risg uchel yn ein cymunedau, maen nhw yn gallu | Ym Mis Ionawr 2019, cyflwynodd Cydlynydd MAPPA (Prawf_) PVPU Sgt (Heddlu Gogledd Cymru) a thai (Swyddog Ail-setlo carcharorion / Swyddog ASB a Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol) gyflwyniad MAPPA / RSO. Mynychodd 5 aelod etholedig y sesiwn hon a nifer uchel o swyddogion o wahanol adrannau. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | chamddeall y sefyllfa yn ein cymunedau. Felly, mae'r Cyngor, ynghyd â'r Heddlu a'r Gwasanaeth prawf, am drefnu sesiynau codi ymwybyddiaeth. | | | ymateb yn well i bryderon y cyhoedd. | Er mwyn sicrhau bod neges y broses a'r sicrwydd yn parhau ar gyfer Aelodau Etholedig, trefnit sesiwn friffio arall yn ystod y flwyddyn ariannol hon. |
| | • Mae'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus a'r Heddlu ar draws Cymru wedi cynllunio prosiect i ddatblygu gweithle sy'n fwy cyfarwydd gydag agenda Profiadau Newidiol Mewn Plentyndod (PNmP*) neu ACE - Adverse Childhood experiences*. Y bwriad yw sicrhau fod gweithwyr (yr Heddlu yn benodol) yn deall sut mae PNmP yn gallu effeithio ar unigolion, a defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau'r ymateb gorau bosib pan maen nhw yn dod i sylw gwasanaethau. | Adrodd ar gynnydd yn Ynys Môn ( CH1) Gwynedd yn (Ch3) | Tîm rhanbarthol yn arwain ar y gwaith. Partneriaid yn lleol i ymrwymo i fod yn rhan o'r datblygiad. | Bydd sesiynau codi ymwybyddiaeth yn cael eu cynnal ar draws y ddwy sir; gallwn fesur niferoedd y bobl sy'n eu derbyn, yn ogystal â sut effaith y mae hyn yn ei gael ar niferoedd y cyfeiriadau gan yr Heddlu i wasanaethau diogelu (un o'r allbynnau disgwyliedig yw y bydd llai o gyfeiriadau yn dod i Wasanaethau Cymdeithasol, gan y bydd gan yr Heddlu well dealltwriaeth o anghenion unigolion a sut i gyfeirio). Bydd unigolion yn cael ymateb mwy addas i'w hamgylchiadau gan wasanaethau rheng flaen. | **(Q1)** Mae Ynys Môn wedi'i nodi fel ardal braenaru EATP. Dechreuodd hyfforddiant ACE TIME yn Ynys Môn ym mis Rhagfyr 2018, ochr yn ochr â Sir y Fflint.<br>Hyd yma mae 483 o gynrychiolwyr wedi dechrau'r hyfforddiant – mae hyn wedi cynnwys 315 o Swyddogion Heddlu a Staff a 168 o staff asiantaethau bartner.<br>Mae hyfforddiant bellach wedi'i gwblhau yn y meysydd hyn ac mae'r effaith i'w gweld o ran cynyddu atgyfeiriadau cymorth cynnar a wneir a lleihau atgyfeiriadau diogelu.<br>Gwelir atgyfeiriadau diogelu o ansawdd gwell hefyd o ganlyniad i Swyddogion yn defnyddio iaith ACE. Mae hyn i gyd yn cefnogi sicrhau bod pobl/teuluoedd sy'n agored i niwed yn cael y cymorth iawn ar yr amser iawn.<br><br>**(Q3)** Ffurfiwyd grŵp Gweithredu EATP ym mis Ebrill 19 ac mae wedi cyfarfod 3 i 4 gwaith hyd yma yn cynnwys yr Awdurdod Lleol, (gan gynnwys |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Addysg, gofal cymdeithasol oedolion, gofal cymdeithasol plant, Gwaith, Tai, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid ac Ieuenctid, Hamdden a llyfrgelloedd ac ati), Mantell Gwynedd, Iechyd a HGC. Mae'r grŵp wedi hysbysu hyfforddiant AMSER AME Gwynedd ar gyfer Swyddogion Heddlu / staff yn ardaloedd Gogledd a De Gwynedd trwy fapio mynediad i gymorth a chefnogaeth gynnar ar gyfer bobl fregus . Fe wnaeth y grŵp hefyd gynghori ar, a chydlynu'r enwebiadau gan bartneriaid ar gyfer yr hyfforddiant.<br>Cytunodd gwasanaethau oedolion a thîm derbyn ac asesu Plant ar y broses cyfeirio cymorth cynnar a aeth yn fyw ddechrau mis Tachwedd ochr yn ochr â dechrau cyflwyno ACE TIME. Hyd yma mae'r rhaglen wedi hyfforddi mwy na 800 o Swyddogion Heddlu / staff ledled y rhanbarth. Cwblheir sesiynau hyfforddi craidd yng Ngwynedd ar 10fed Rhagfyr. Yn dilyn hyn, bydd Cydlynwyr ACE allan yng Ngorsafoedd yr Heddlu yn gweithio gyda Swyddogion i ymgorffori'r dull gweithredu a dysgu o'r hyfforddiant yn ymarferol.<br><br>Mae llwybr iechyd meddwl IOACC wedi hen ddechrau. Mae llety addas |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Mae Gwasanaethau Tai Ynys Môn wedi adnabod cynnydd yn niferoedd y defnyddwyr gwasanaeth sy'n datgan bod ganddynt anghenion iechyd meddwl. Er mwyn sicrhau bod yr unigolion hyn yn derbyn y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen, mae'r gwasanaeth wedi datblygu llwybr cefnogaeth a llety pwrpasol, ar y cyd â'r bwrdd iechyd. | Bydd y cynllun yn cael ei asesu o gwmpas Hydref 2019, felly adroddiad ar gynnydd yn (Ch3). | Adran Tai Ynys Môn a'r Bwrdd Iechyd lleol | Gan ddefnyddio'r 'Llwybr cefnogaeth a llety' clir ar gyfer pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl, bydd llai o bosibilrwydd y bydd unigolion yn cael eu targedu gan eraill sydd eisiau manteisio arnynt a'u defnyddio nhw fel person, neu eu llety, ar gyfer hwyluso troseddau, e.e. ar gyfer dosbarthu cyffuriau. Nid dyma brif bwrpas y cynllun, ond mae'n cyfrannu at leihau'r cyfleoedd i gam-fanteisio. | (cam i lawr) ar gael i breswylwyr digartref lle mae iechyd meddwl yn angen arweiniol. Mae'r cam i lawr wedi bod yn llwyddiannus i unigolion sy'n gadael yr uned Hergest a darperir cefnogaeth gymunedol ddwys ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Rydym wedi cael straeon o llwyddiant ond hefyd mae gwersi wedi'u dysgu ar hyd y daith. |
| **t** | **Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)** | | | | |



| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Ffocws:** Cynyddu'r hyder i adrodd am gam-drin domestig / Gweithio gyda MARAC i reoli'r niferoedd sy'n ddioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro (Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaethol)<br><br>**Mesurau:**<br>**1.** Lefel y cam-drin domestig | |

| | | |
|---|---|---|
| | **2.** Lefel y cam-drin domestig risg uchel (Achosion MARAC)<br>**3.** Nifer y bobl sy'n dioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro (3 neu ragor mewn 12 mis)<br>**4.** Nifer y troseddwyr sy'n troseddu dro ar ôl tro (dangosydd newydd)<br>*Dangosydd newydd ychwanegol posib – nifer yr erlyniadau cam-drin domestig llwyddiannus | |

| | Camau gweithredu a phrosiectau 2019 | Dyddiad Targed | Cyfrifoldeb | Allbynnau a deilliannau | Allbwn wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 35 | • Ymateb i'r ddeddfwriaeth newydd - Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 , gan gynnwys gweithredu'n lleol parthed anghenion y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Hefyd, fel partneriaid, rydym am gyfrannu at yr asesiad anghenion rhanbarthol ar gyfer cynllunio a chomisiynu gwasanaethau i'r dyfodol. | Bydd dyddiadau gweithredu yn amrywio ar draws y rhanbarth. Adrodd ar gynnydd yn (Ch3). | Bwrdd Iechyd, Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Tân | Mae codi ymwybyddiaeth o faterion Trais yn y Cartref ar draws y sectorau, ac ymysg y cyhoedd, yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru. Wrth ymrwymo i'r rhaglen hyfforddiant cenedlaethol, bydd gwasanaethau statudol yn hyfforddi'r gweithlu dros y blynyddoedd i ddod. Bydd modd adrodd ar nifer y bobl mae hyn yn effeithio arnynt dros y bum mlynedd i ddod - drwy waith y bwrdd rhanbarthol. | Mae'r cyfraniadau tuag at y strategaethau rhanbarthol yn parhau trwy'r Bwrdd rhanbarthol.<br><br>Yn y ddau Awdurdod Lleol, bu cynnydd mewn perthynas ag elfen Gofyn a Gweithredu'r fframwaith hyfforddi, gydag unigolion bellach wedi'u adnabod ar gyfer ymgymryd â'r sesiynau 'hyfforddi'r hyfforddwr' |
| | • Fel Partneriaeth, mae cyfrifoldeb statudol arnom i ymateb i farwolaethau domestig, gan gynnal adolygiad. Mae'r bartneriaeth yn cynnal y 3ydd adolygiad o'r fath ar hyn o bryd, a byddwn yn sicrhau ymateb priodol i unrhyw adolygiad o'r fath i'r dyfodol. | Bydd yr adolygiadau yn parhau dros y cyfnod sydd angen i gyflawni – ar gyfartaledd o gwmpas 2 flynedd. Mae cynnydd pob chwarter wedi'i gynnwys fel eitem ar agenda'r Bartneriaeth. | Y bartneriaeth leol, a'r panel pwrpasol sydd yn ei le ar gyfer yr adolygiad. | Byddwn yn rhannu'r gwersi sy'n deillio o'r adolygiadau gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth. Bydd cynllun gweithredu wedi ei sefydlu ar gyfer pob adolygiad, a byddwn yn monitro'r gweithredu sy'n deillio ohono. | Yn ddiweddar, rhannwyd dysgu o'r DHR gorffenedig gyda'r Bwrdd diogelu rhanbarthol. Dau DHR arall heb eu cwblhau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Mae’r broses MARAC (*multi agency risk assessment conference*) yn bodoli ym mhob Sir. Dyma lle mae asiantaethau yn dod at ei gilydd i drafod dioddefwyr trais yn y cartref, lle maent mewn risg uchel o niwed, er mwyn cynllunio i’w gwarchod. Mae’r Heddlu, sy’n arwain ar hyn, wedi amlygu’r angen i ail-edrych ar y broses, ac adolygu lle bo’r angen. | Adrodd ar gynnydd (CH2) | Aelodau’r Bwrdd Rhanbarthol, gyda’r heddlu’n arwain. | Posib y bydd y bwrdd rhanbarthol yn comisiynu corff allanol i gynnal yr adolygiad, ond bydd pob partner arall yn ymrwymo i’r broses drwy’r Bwrdd Rhanbarthol, a byddwn yn sicrhau bod anghenion lleol yn bwydo mewn i’r broses. Y bwriad yw sicrhau fod y broses yn gynaliadwy ac yn effeithiol i’r dyfodol, gan fod yr angen yn cynyddu. | Mae'r gwaith rhanbarthol yn parhau, dan arweiniad yr Heddlu. Cynigir model llywio MARAC rhanbarthol.<br><br>Yn lleol rydym wedi bwydo ein barn i'r broses. Hyd nes y bydd newidiadau ar waith, rydym yn parhau i fod yn weithredol fel grŵp llywio MARAC dwy Sir |
| | • Mae Gwasanaethau Plant Ynys Môn wedi adnabod yr angen i adolygu cydweithio ar achosion sy’n cyrraedd y Gwasanaeth Integredig Cefnogi Teuluoedd (GICT), neu IFSS (*Integrated Family Support Services*). Dyma’r teuluoedd lle mae posibilrwydd y bydd y plant yn gorfod mynd i ofal. | Bydd y peilot yn cymryd 3-6 mis. Adrodd ar gynnydd yn (Ch 3). | Gwasanaethau Plant Ynys Môn, gyda grŵp arwain yn rhedeg y peilot. | Mae grŵp wedi dod at ei gilydd i edrych ar beilota ffordd ychydig yn wahanol o weithio gyda’r teuluoedd hyn, gan gynnwys tynnu mwy o wasanaethau trydydd sector i mewn. Teuluoedd gyda phroblemau trais yn y cartref fydd yn cael sylw’r peilot. Bydd y peilot yn digwydd er mwyn asesu effaith y newid yn gyntaf, cyn mynd ati i raeadru ymhellach. | Mae’r gwaith yma yn mynd rhagddo wrth i ni ddatblygu llwybr ymateb gwahanol i achosion trais domestig. Mae safer lives yn llunio cwrs i weithwyr y tîm a gweithwyr o fewn yr asiantaethau i ni (Mis Ionawr) a bydd y cyngor yn cymerwyd rhan o bosib mewn cynllun peilot “one front door” sydd yn ddull aml asiantaethol o ymateb i gyfeiriadau trais domestig sydd wedi ei dreialu yn Lloegr e.e Gogledd Gwlad yr haf. |

| 5 | **Ffocws:** Cynyddu hyder i adrodd am drais rhywiol / cynyddu ymwybyddiaeth am drais rhywiol ymysg pobl ifanc<br>• Cam-fanteisio ar blant yn rhywiol (CBR)<br>• Achosion risg uchel<br>**Mesurau:**<br>**1.** Lefel y troseddau rhywiol<br>**2.** Nifer y troseddau Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2019** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau a deilliannau** | **Allbwn wedi'i gwblhau** |
| | • Mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud yn ystod y blynyddoedd diweddar i adnabod ffurf effeithiol o ymdrin â throseddau o gam-fanteisio ar blant yr rhywiol neu CSE (*child sexual exploitation)* gan gynnwys deddfwriaeth newydd a chynllun ymateb rhanbarthol. Rydym hefyd wedi sefydlu grwpiau lleol yn y gwasanaethau plant i ddelio gyda materion o'r fath. Mae'r gwaith yn parhau –<br>○ Bydd gwasanaethau safonau masnach Gwynedd yn gwneud hyfforddiant CSE yn orfodol i bawb sy'n dal trwydded gyrru tacsi o'r flwyddyn hon ymlaen.<br>○ Bydd Cyngor Ynys Môn yn gwneud hyfforddiant CSE yn orfodol i holl weithlu'r Cyngor. Yn ogystal, bydd Cyngor Gwynedd yn cynnig | Adrodd ar gynnydd (Ch3) | Yr holl bartneriaid i ymateb i'r fframwaith cydweithio. Safonau Masnach Gwynedd. Gwasanaethau plant y ddwy Sir. | Mae modd asesu nifer y gyrwyr tacsi yn Ynys Môn sy'n cydymffurfio â'r gofynion hyfforddiant. Bydd y Cynghorau'n asesu faint o bobl sydd wedi cael hyfforddiant, yn ogystal ag unrhyw fylchau sydd angen sylw. Y bwriad yw sicrhau bod gweithwyr yn ymwybodol o sut i adnabod CSE ac ymdrin ag ef. | Yn Gwynedd - mae hyfforddiant CSE yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau Gwasanaethau Plant a darperir hyfforddiant CSE yn flynyddol. Bellach mae'r hyfforddiant yn cael ei danategu gan banel CSE gweithredol amlasiantaethol pob Mis .<br>Yn Ynys Môn - bydd yr holl staff yn cwblhau Ymwybyddiaeth Sylfaenol o hyfforddiant CSE - Modiwl E-Ddysgu erbyn 31 Mawrth 2020. Mae'r gwaith hwn yn cael ei fonitro. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | hyfforddiant i'r gweithlu ar CSE, ac yn datblygu pecynnau.<br><br>• Mae gwasanaethau wedi adnabod bod mwy o achosion yn dod i sylw mewn perthynas ag ymddygiad rhywiol niweidiol (ymysg plant). Felly, mae'r ddau Gyngor yn edrych ar ffurf o allu ymateb i hyn yn effeithiol i'r dyfodol. | Bydd y datblygiad hwn yn waith mwy hirdymor. Adrodd ar gynnydd (Ch4). | Gwasanaethau plant y ddwy Sir | Bydd gwasanaethau plant Ynys Môn yn datblygu hyfforddiant addas ar gyfer gweithwyr a allai ddod ar draws y materion hyn, ac yn adnabod rhai gweithwyr y gellid eu datblygu i arbenigo mwy yn y maes. Bydd gwasanaethau plant Gwynedd hefyd yn ymgeisio am arian penodol ar gyfer datblygu'r adnodd arbenigol yn y gwasanaeth. Yn y dyfodol felly, bydd gwell dealltwriaeth ac ymateb i achosion o ymddygiad rhywiol niweidiol, a bydd modd adnabod nifer o yr achosion sy'n dod i sylw. Hefyd, bydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn mynd ati i osod arweiniad i wasanaethau ar gyfer gweithredu yn effeithiol. | Datganiad 6/2/20 Bellach mae tîm Ymddygiad Rhywiol Problemus a Niweidiol newydd ar waith (Gwynedd). Rôl y gwasanaeth yw cynorthwyo ein partneriaid ym maes Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol i uniaethu ac ymyrryd yn gynnar gyda phlant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiadau amhriodol ac yn atal gwaethygu. Mae'r gwasanaeth yn hapus i gyflwyno sesiwn friffio i'r bartneriaeth i ddarparu mwy o wybodaeth am gylch gwaith a monitro'r tîm. |
| | **Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**<br><br>• Trwyddedu tacsis: Gwiriadau Gwasanaeth Datgelu Gorfodol a Gwahardd (DBS), ac yn y camau olaf o weithredu hyfforddiant diogelu gorfodol fel gofyniad ar gyfer y drwydded. Partneriaid – Gwarchod y Cyhoedd, Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn<br><br>• Tîm ONYX Cam-fanteisio ar blant yn rhywiol (CBR): Wedi sefydlu yn nhimau lleol yr Heddlu er mwyn mynd i'r afael â CBR. Partneriaid – Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Tai | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **6** | **Ffocws:** Mynd i’r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal<br>• Cyflenwi cyffuriau cyfundrefnol<br>• Gyrru dan ddylanwad cyffuriau<br><br>**Mesurau:**<br>**1.** Dangosyddion Perfformiad Allweddol Llywodraeth Cymru | | | | |
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2019** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau a deilliannau** | **Allbwn wedi’i gwblhau** |
| | • Wedi adnabod yr angen am adeilad mwy addas ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn Ynys Môn, mae’r Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol (BCR) neu’r *APB (Area Planning Board)* wedi derbyn arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i brynu adeilad addas yng Nghaergybi. Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd gwaith adnewyddu yn cael ei wneud ar yr adeilad. | Bydd y gwaith yn parhau hyd at 2020/21, adrodd ar gynnydd yn ystod (Ch4) | Bwrdd cynllunio rhanbarthol | Rydym bob amser eisiau annog unigolion i dderbyn cefnogaeth a thriniaeth pan fo ganddynt anghenion yn deillio o gamddefnyddio sylweddau. Mae cael darpariaeth addas ac o ansawdd yn rhan fawr o gyflawni’r weledigaeth hon. Bydd modd adrodd yn ôl ar y ffordd mae’r gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth yn adnabod gwelliannau yn y ddarpariaeth. | Mae'r gwaith o ddatblygu ac adnewyddu Craig hyfryd yn mynd rhagddo a'r gobaith yw ei gwblhau'n fuan.<br><br>Ein bwriad yw ystyried unrhyw gyfle i nodi adeilad addas ar gyfer y gwasanaeth triniaeth ym Mangor. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo datblygiad cyfalaf yn ardal Bangor, ar yr amod bod cyllid ar gael. Ar hyn o bryd rydym yn ceisio nodi adeilad i'w brynu ym Mangor fel y gallwn gyflwyno cais cyfalaf wedi'i gostio'n llawn i Lywodraeth Cymru.<br><br>(Dim diweddariad) |
| | • Mae adnabod adeilad newydd addas ym Mangor hefyd yn | | Bwrdd cynllunio rhanbarthol | Ein bwriad yw ystyried unrhyw gyfle i adnabod adeilad addas ar gyfer y | |

Tudalen 39

Tudalen 40

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| flaenoriaeth. Mae'r bwrdd iechyd yn edrych ar gyfleoedd, a bydd y bwrdd rhanbarthol yn cydweithio â hwy i ymgeisio am arian cyfalaf newydd, petai cyfleoedd yn codi. | Dim amserlen benodol - adrodd fel y daw cyfleoedd | | gwasanaeth triniaeth ym Mangor. Hyd nes y bydd hyn yn digwydd, mae'r gwasanaethau'n gweithio o adeiladau partneriaid. | |
| • Mae'r bwrdd cynllunio rhanbarthol wedi adnabod bod angen edrych ar gynllun rhanbarthol penodol ar gyfer alcohol. Bydd y bartneriaeth leol yn bwydo i mewn i'r gwaith hwn, ac yn gweithredu fel bo'r angen. | Chwe mis ar gyfer paratoi strategaeth ddrafft. Adrodd ar gynnydd (Ch3). | Bwrdd cynllunio rhanbarthol, a'r grŵp datblygu cynllun. | Rydym yn adnabod fod alcohol yn gallu achosi niwed i unigolion, teuluoedd a chymunedau, a bod angen edrych ar dystiolaeth o ran beth sy'n gweithio, er mwyn creu strategaeth i leihau'r niwed. Bydd yr holl bartneriaid yn ymrwymo i wireddu'r strategaeth, gyda'r bwriad o leihau'r niwed y mae camddefnyddio alcohol yn gallu ei achosi. Bydd y strategaeth yn adnabod ffurf o asesu'r effaith fel rhan o'r datblygiad. | Cynhyrchwyd, Strategaeth ddrafft Alcohol Gogledd Cymru, a'i thrafod â phartneriaid yn y gweithdy ar 26 Tachwedd 2019, i nodi unrhyw fylchau a blaenoriaethau'r cynllun cyflawni / gweithredu. Strategaeth Derfynol i'w chyflwyno i Fwrdd Gweithredol APB ym Mis Ionawr i'w chymeradwyo. Grŵp Lleihau Niwed APB i gymryd perchnogaeth o'r cynllun gweithredu terfynol a goruchwylio / monitro cyflenwi yn erbyn hyn gan bartneriaid strategol yr APB. |
| • Yn dilyn adolygiad ar draws y rhanbarth parthed y ddarpariaeth o wasanaethau rheng 2, sef ymestyn allan/gwasanaeth galw i mewn, rydym wedi adnabod yr angen i ddarparu mwy o wasanaethau o'r fath. Felly, bydd | Adrodd ar gynnydd (Ch3). | Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol | Bydd gwaith cynllunio'n digwydd rhwng y partneriaid er mwyn adnabod pa fath o wasanaethau ychwanegol sydd eu hangen yn y ddwy Sir, ac ymhle. Yna, byddwn yn datblygu gwasanaethu newydd ac yn monitro'r effaith dros gyfnod y contractau. Y bwriad yw sicrhau bod unigolion sy'n ffafrio | Mae'r Gwasanaeth yn datblygu yn dda gyda cydweithio effeithiol rhwng y darparwr a Tîm Lleihau Niwed y Bwrdd Iechyd. Mae gwasanaethau galw fewn newydd wedi ei |

Tudalen 41

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | mwy o adnoddau ar gael drwy'r Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau yn lleol dros y ddwy Sir. | | | gwasanaethau yn y gymuned, a rhai llai ffurfiol, yn dod ymlaen i dderbyn cefnogaeth. | datblygu yn ogystal a mwy o ymestyn allan i gymunedau. Mae mwy o waith i'w wneud o ran ehangu'r ddarpariaeth ond mae cyllid ychwanegol gan Llywodraeth Cymru yn golygu bod modd cynnig mwy o gefnogaeth i unigolion o ran anghenion tai a iechyd meddwl. Bydd hyn yn datblygu ymhellach yn y flwyddyn ariannol nesaf. |
| | • Rydym wedi adnabod yr angen i gryfhau'r gefnogaeth yr ydym yn ei chynnig i deuluoedd yn Ynys Môn, lle mae materion camddefnyddio sylweddau/iechyd meddwl. Mae'r ddarpariaeth hon ar gael yng Ngwynedd yn barod, drwy arian gan y bwrdd cynllunio ardal. Felly, rydym am ddatblygu adnodd ychwanegol yng Ngwasanaethau Plant Ynys Môn. | Adnodd yn ei le erbyn mis Ebrill. Adrodd ar gynnydd (Ch 2). | Bwrdd cynllunio ardal/Gwasanaethau plant Ynys Môn | Bydd y swydd hon yn ychwanegu at wydnwch a gallu teuluoedd i ddelio â'r materion hyn, ac felly, bydd llai o deuluoedd yn datblygu i fod angen gwasanaethau mwy dwys. | Mae'r swydd wedi ei llenwi yn ystod chwarter 1. Mae'r swyddog wedi cychwyn yn y swydd ar y cyntaf o Ebrill. Rydym nawr yn gweithio ar dempled monitro perfformiad gyda gwasanaethau plant yn Ynys Môn, mae hwn yn cael ei weld fel datblygiad positif iawn oddi fewn y tîm. |
| | **Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**<br><br>• Arolwg diogelwch tân yn y cartref: Arolwg ar gyfer unigolion sydd wedi eu hadnabod i fod yn fregus yn sgil camddefnydd alcohol. Partneriaid – Gwasanaeth Tân ac Achub, CAIS a'r Bwrdd Iechyd Lleol. | | | | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Unigolion sy'n destun Gorchymyn Adferiad Cyffuriau: Cwrs gorfodol ar iechyd a lles, fydd yn pwysleisio ymarferion i leihau niwed – Gwasanaeth Prawf Cymru<br>• Hyrwyddo ymgyrchoedd lleol: Hyrwyddo ymgyrch diogelwch y ffyrdd y 5 angheuol, i godi ymwybyddiaeth o yfed dan ddylanwad alcohol/cyffuriau. Partneriaid – Heddlu, Gwasanaeth Tân ac Achub<br>• Ymgyrch RATTLE: Targedu'r rhai sy'n delio cyffuriau yng Ngwynedd a Môn. Partneriaid – Heddlu, Cynghorau | |



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **7** | **Ffocws:** Lleihau aildroseddu (ar gyfer dioddefwyr a throseddwyr)<br><br>**Mesur:**<br>**1.** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro (3 neu ragor mewn 12 mis, dangosydd newydd)<br>**2.** Nifer sydd yn ail-droseddu dro ar ôl tro oed 18+ (3 neu ragor mewn 12 mis, dangosydd newydd)<br>**3.** Nifer sydd yn ail-droseddu dro ar ôl tro, oedran 12-17(3 neu ragor mewn 12 mis, dangosydd newydd) | | | | |
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2019** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau a deilliannau** | **Allbwn wedi'i gwblhau** |
| | • Mae'r Bwrdd Rhanbarthol wedi ystyried sefydlu Bwrdd Rheoli Rhanbarthol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder ieuenctid. Os bydd Bwrdd yn cael ei sefydlu, bydd cyfleoedd i rannu ymarfer da. Ond, gan fod gennym Fyrddau Rheoli lleol hefyd, byddwn yn adolygu'r trefniant i sicrhau nad oes dyblygu gwaith, nac unrhyw golled i fuddion lleol, wrth weithredu yn y ffordd newydd. | | Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru i'w sefydlu. Byrddau rheoli lleol i ymrwymo i'r trefniant. | Mae hwn yn gyfle i dreialu trefniant rhanbarthol, a all fod o fudd i wasanaethau Cyfiawnder ieuenctid, ac o bosib rannu gwaith datblygol ar draws y rhanbarth. Serch hyn, rydym am asesu effaith y Bwrdd newydd, ac os nad oes budd, byddwn yn barod i ddychwelyd i'r trefniant cyfredol. | Ar ôl archwilio'r opsiwn hwn, penderfynwyd nad YJB rhanbarthol yw'r ffordd ymlaen. Fodd bynnag, mae rhannu ymarfer da a chydweithio ar draws y rhanbarth yn dal i ddigwydd, a bydd yn parhau yn ei le pan ddaw'r adolygiad rhanbarthol o Fyrddau i ben yn y flwyddyn ariannol nesaf |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Mae gwasanaeth Cyfiawnder ieuenctid y ddwy Sir wedi adolygu strwythurau ac wedi penderfynu sefydlu strategaeth newydd. Bydd hyn yn arwain at gynllun sy'n fwy effeithiol yn yr hinsawdd ariannol bresennol, ac yn gallu rhoi ystyriaeth i'r mathau o droseddau newydd yr ydym yn eu gweld yn datblygu, megis Llinellau Sirol. | Bydd cynllun strategol 2 flynedd, a chynllun gweithredu yn eu lle erbyn 5ed o Awst | Bwrdd rheoli gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid lleol<br><br>Bwrdd gweithredol gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid lleol | Bydd strategaethau newydd yn eu lle, sydd wedi eu datblygu i ymateb yn fwy effeithiol i'r materion sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. | Diweddariad 6/2/20 Mae'r strwythur rheoli a llywodraethu newydd bellach ar waith. Mae system dwy haen yn dilyn sefydlu Grŵp Rheoli Gweithredol YJS. Mae'r Bwrdd gweithredol newydd hwn yn atebol i'r Bwrdd Rheoli Strategol ac mae'n darparu mwy o gydweithrediad partneriaeth weithredol rhwng plant ac asiantaethau cyfiawnder. Unwaith eto, byddai'r gwasanaeth yn hapus i roi briff i'r bartneriaeth ar OMG YJS a'i waith i fynd i'r afael â thueddiadau troseddu newydd. |
| | • Mae'r cynllun rheoli troseddwyr mewn ffordd integredig neu (*IOM – Integrated offender management)* am newid y mathau o droseddwyr sydd am gael eu targedu. Rydym wedi adnabod mai dyma'r unigolion sy'n achosi'r niwed mwyaf i gymunedau. | Yn weithredol drwy'r flwyddyn. Asesu bob chwe mis gan gychwyn gyda (Ch2). | Bwrdd strategol IOM rhanbarthol | Mae'r cynllun yn gyfle i droseddwyr dderbyn cefnogaeth i'w helpu i roi'r gorau i droseddu. Y bobl fydd yn cael eu targedu o hyn allan fydd y rhai sydd wedi eu cyhuddo o drais yn y cartref neu droseddau yn gysylltiedig â gangiau troseddu cyfundrefnol. Bydd hyn yn galluogi'r cynllun i weithio gydag unigolion yr ydym yn eu hystyried sy'n achosi'r niwed mwyaf i gymunedau. Dylem weld lleihad yn nifer y troseddau gan yr unigolion hyn; mae'r rhai sy'n parhau i droseddu yn cael eu herlyn. | Mae'r carfan IOM wedi ei adolygu, yn dilyn tamaid o gwaith yn edrych ar yr elfennau o fygythiad/risg a niwed. Fe fydd y targed nawr yn wahanol, fe fydd pob un achos yn achos y gwasanaeth Prawf, ac fe fydd pwyslais ar achosion County Lines (troseddau cyffuriau) a gangiau troseddu cyfundrefnol . Fe fydd achosion trais yn y cartref hefyd yn cael eu cysidro. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Mae'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid (GCI) yn adnabod bod nifer fawr o'r plant sy'n dod i mewn i'r gwasanaeth yn dioddef o broblemau sy'n gysylltiedig â 'thrawma ac ymlyniad' (*attachment and trauma related issues)*. Felly, er mwyn torri'r cylch o ymddygiad gwael a throseddu, mae'n rhaid ymateb yn briodol i anghenion y plant hyn. | Hyfforddiant yn ystod (Ch1). Cynllun i weithredu'r dysgu (Ch 3). Bydd monitro'r allbynnau yn mynd ymlaen i 2020. | Gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn | Wrth hyfforddi'r gweithlu ar y ffyrdd gorau o ymateb a gweithio â phlant sydd wedi dioddef o faterion yn gysylltiedig â thrawma ac/neu ymlyniad, bydd gwell allbynnau i'r plant, a hefyd bydd llai o siawns iddynt fynd ymlaen i droseddu rhagor. Eisoes, dengys tystiolaeth genedlaethol fod y math hwn o ymateb yn gweithio. | **(Q1)** Mae holl staff yn y Gwasaneaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi derbyn cam cyntaf yr hyfforddiant model adfer trawma, gwell rheolaeth achos.Bydd yr ail gam, ymarfer ar sail Seicoleg, yn digwydd pan fydd y Swydd Seicolegydd wedi'i llenwi.<br><br>Bydd y trydydd cam, ymyriadau sy'n seiliedig ar wytnwch, yn cael eu darparu ym mis Medi/Hydref – fel rhan o raglen ymchwil y 3ydd flwyddyn sy'n cael ei chynnal gan Astudiaeth PhD Prifysgol Bangor ('Ymyriadau ar sail Effeithlonrwydd Gwydnwch gyda Phlant a phobl ifanc sy'n troseddu')<br><br>**(Q3)**Mae holl staff perthnasol yn yr YJS bellach wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol yn y model adfer Trawma a Rheoli Achos Gwell. Yn anffodus nid ydym wedi gallu sicrhau gwasanaethau Seicolegydd Plant Clinigol trwy ein comisiynu gwasanaethau iechyd (mater recriwtio). Mae ECM a TRM yn gofyn am ymyrraeth broffesiynol seicolegydd ar gyfer asesiad sylfaen y rhaglen. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | BCHBT, YJB a LlC i unioni'r mater neu i ddatblygu cylch gwaith sy'n cynnal ffyddlondeb yr ymyrraeth ac efalle yn caniatáu i'r gwaith ddechrau ar y rhaglen. |
| | **Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd blaenoriaeth)**<br><br>• Ymgyrch Phoenix: targedu pobl ifanc sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd mewn perygl o droseddu neu ail-droseddu a'u cynnwys mewn gweithgareddau cadarnhaol. Partneriaid – Gwasanaeth Tân ac Achub, Addysg, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r Heddlu.<br>• Prosiect WISDOM: Ymateb aml-asiantaethol i ail-droseddwyr risg uchel wedi sefydlu yn un o adeiladau'r Cyngor. Partneriaid – Heddlu (Uned Gwarchod y Cyhoedd) a Phrawf (Uned troseddwyr rhywiol a threisgar)<br>• Gorchymyn Ymddygiad Troseddol ar ôl euogfarn (CBO): Gorchymyn ar ôl euogfarn gyda'r nod o fynd i'r afael â'r troseddwyr mwyaf difrifol a pharhaus. Partneriaid - Heddlu, Gwarchod y Cyhoedd, Prawf<br>• Ymyrraeth Gynnar (EIT): Ymateb aml-asiantaethol ymyrraeth cynnar. Partneriaid – Arweinir gan yr Heddlu , aml-asiantaethol | | | | |

# Partneriaeth Diogelwch Cymunedol - Gwynedd a Môn

## Beth ydyw?

Grŵp o sefydliadau sy'n cydweithio i ystyried sut y gallwn fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn yw'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Ymgorfforir y gofyn i gael partneriaeth o'r fath yn ei lle ar lefel leol yn y gyfraith, o fewn Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae gan nifer o sefydliadau ran i'w chwarae o fewn y bartneriaeth, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol, yr Heddlu, gwasanaethau Prawf, y gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bwrdd Iechyd.

Mae gennym gyfrifoldebau dan Ddeddf 1998 dros nifer o feysydd, gan gynnwys - lleihau trosedd ac anhrefn, lleihau aildroseddu, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ogystal, mae dyletswydd arnom i gomisiynu adolygiadau Lladdiad Domestig mewn rhai amgylchiadau penodol. Hefyd, mae dyletswydd arnom i baratoi asesiad blynyddol o drosedd ac anhrefn, er mwyn ein harwain o ran yr hyn sydd angen ei flaenoriaethu.

## Beth mae'n ei wneud?

Ers iddi gael ei sefydlu dros 20 mlynedd yn ôl, mae'r bartneriaeth wedi wynebu sawl newid. Yn y lle cyntaf, cefnogwyd y gwaith drwy nifer o grantiau lleol a chydlynwyr ymroddedig. Fodd bynnag, nid oes gennym grantiau lleol heddiw ac mae adnoddau pwrpasol wedi lleihau'n aruthrol. Felly, rydym wedi ymaddasu i'r tirlun newydd sy'n golygu gweithio i raddau helaeth gyda phartneriaid ar draws gogledd Cymru, i sicrhau cyfleoedd ac adnoddau i weithredu newid yn lleol.

Ers 1998, mae llawer o'r gwaith wedi bod yn ymwneud â phrif ffrydio diogelwch cymunedol i waith bob dydd yr holl bartneriaid. Mae hyn wedi arwain at weld newidiadau helaeth gan fod gwasanaethau bellach yn cynllunio ac ymgorffori anghenion pobl bregus a dioddefwyr yn eu gwaith bob dydd. Mae hyfforddiant ar nifer o faterion yn ymwneud â throsedd ac anhrefn yn cael ei gymhwyso fel mater o drefn, ac mae asiantaethau yn cydweithio bob dydd.

Heddiw, rydym yn cynnal datblygiadau'r 20 mlynedd diwethaf, sydd wedi gweld lleihad mewn rhai mathau o droseddau, ond hefyd yn cynnal ymwybyddiaeth o droseddau newydd sydd angen sylw arbenigol. Ar ôl sefydlu cysylltiadau gweithio a rhwydweithiau ar draws rhanbarth gogledd Cymru, rydym mewn sefyllfa well i ymateb i'r heriau newydd yma.

Yn lleol, rydym yn dal i gynnal ein grwpiau gweithio ar y cyd ac yn chwilio'n gyson am ffyrdd i wella sut ydym yn cydweithio i fynd i'r afael â'n meysydd cyfrifoldeb. Isod, byddwn yn dangos pa strwythurau sydd gennym yn eu lle i symud ein gwaith ymlaen a hefyd pa feysydd penodol fydd yn cael ein sylw dros y 12 mis nesaf.

## Strwythurau diogelwch cymunedol -



### Rhanbarth Gogledd Cymru -

Mae gennym sawl Bwrdd yng ngogledd Cymru sy'n dod â'r partneriaid angenrheidiol ynghyd i drafod amrywiol agweddau o Ddiogelwch Cymunedol, mae'r rhain yn cynnwys -

- Troseddau difrifol a chyfundrefnol
- Diogelu (pobl fregus) gan gynnwys radicaleiddio
- Caethwasiaeth fodern
- Cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Camddefnyddio sylweddau (cyffuriau ac alcohol)
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol
- Rheoli troseddwyr

Nid yw hon yn rhestr gyflawn ond mae'n dangos faint o waith a wneir i ddatblygu cynlluniau strategol, i gyfarwyddo ac, o bryd i'w gilydd, i gomisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pob sir yng ngogledd Cymru. Adolygir y Byrddau'n gyson er mwyn sicrhau effeithiolrwydd ac osgoi dyblygu ymdrechion. Cynhelir adolygiad helaeth dros y misoedd nesaf i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd gennym drwy leihau nifer y Byrddau a chyfarfodydd.

## Gwynedd ac Ynys Môn -

Ceir nifer o grwpiau lleol ar draws Gwynedd a Môn sy'n rhoi'r gweledigaethau strategol hyn ar waith. Bydd partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd yn **goruchwylio'r** ffrydiau gwaith hyn yn lleol, ond bydd hefyd yn edrych yn fanwl ar sut a lle mae angen gwella anghenion arferion gweithredol.

Dros y 12 mis nesaf, byddwn yn edrych ar y meysydd gwaith a ganlyn -

- Ein rhaglenni hyfforddi - i sicrhau bod gennym weithlu gwybodus a galluog
- Ein rhaglen codi ymwybyddiaeth - deall y bylchau a'r anghenion
- Sicrhau ein bod yn datblygu ein arferion gweithio er mwyn diwallu galwadau newydd, megis Llinellau Cyffuriau (gangiau cyffuriau cyfundrefnol)
- Deall beth mae'r asesiad strategol blynyddol a phroffiliau/dadansoddiadau eraill a gwblhawyd yn dweud wrthym o ran yr hyn sydd angen i ni ei wneud
- Ystyried y cysylltiadau a'r arferion gweithio lleol, a gwella cyfathrebu a strwythurau lle bydd angen
- Bod yn rhan o adolygiad rhanbarthol a chenedlaethol o lywodraethu a strwythurau ar gyfer Diogelwch Cymunedol
- Peilota prosiectau newydd a monitro'r deilliannau

## Yr asesiad strategol -

Mae'r asesiad sydd newydd ei gwblhau ar gyfer Gogledd Cymru yn dweud wrthym bod angen blaenoriaethu'r meysydd isod.  Gan fod yr asesiad yn seiliedig ar lefel y risg a gallu gwasanaethau i ymateb, nid yw pob math o drosedd yn flaenoriaeth ar hyn o bryd. Deallir rhai mathau o drosedd yn dda ac mae ymateb y sefydliadau angenrheidiol yn briodol ac wedi'i hen sefydlu.  Nid yw hyn yn golygu nad ydym yn ymdrin ag unrhyw fater a gyfyd, ond gall olygu nad oes angen i ni roi sylw penodol i'r meysydd hyn fel partneriaeth.

- Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Camddefnyddio Sylweddau a'r holl droseddau sydd ynghlwm â hynny, megis Llinellau Cyffuriau a cham-fanteisio
- Dioddefwyr sy'n fregus
- Lleihau aildroseddu
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Troseddau Meddiangar Difrifol (SAC) gan gynnwys troseddau cyfundrefnol

## Cynllun Gwaith ar gyfer y 12 mis nesaf -

| | | |
|---|---|---|
| EIN RHAGLEN HYFFORDDI | | |
| Beth sydd angen ei wneud eleni | • Mae Awdurdodau Lleol Ynys Môn a Gwynedd yn datblygu gwybodaeth newydd a phriodol yng nghyswllt materion diogelu ar gyfer holl staff yr Awdurdod<br>• Mae angen i'r ddau Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Tân a'r Bwrdd Iechyd ddechrau gweithredu lefel Gofyn a Gweithredu y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Gamdriniaeth Domestig, ynghyd â pharhau â hyfforddiant ymwybyddiaeth lefel 1<br>• Mae angen i bartneriaid adolygu eu hyfforddiant PREVENT (radicaleiddio) i sicrhau bod y staff perthnasol yn derbyn y rhaglen ymwybyddiaeth gofynnol | |
| EIN RHAGLEN CODI YMWYBYDDIAETH | | |
| Beth sydd angen ei wneud eleni | • Bydd yr Heddlu yn darparu sesiynau ymwybyddiaeth ychwanegol ar gyfer Aelodau Lleol yng Ngwynedd, ynghylch materion Llinellau Cyffuriau<br>• Mae'r Bartneriaeth wedi datblygu ymgyrch ymwybyddiaeth, yng nghyswllt Cocên, a fydd yn cael ei chyflwyno ledled Gogledd Cymru. O ganlyniad i'r datblygiad hwn, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn buddsoddi mewn ymgyrch ymwybyddiaeth benodol dros y misoedd nesaf | • Oedi oherwydd C19<br>• Gwybodaeth wedi ei rhaeadru ar draws y partneriaid yn rhanbarthol |
| SICRHAU EIN BOD YN DATBLYGU EIN ARFERION GWEITHIO ER MWYN DIWALLU GALWADAU NEWYDD | | |

| | | |
|---|---|---|
| Beth sydd angen ei wneud eleni | • Bydd yr Heddlu nid yn unig yn parhau âr uned troseddau seiber, ond bydd yn datblygu ei chapasiti. Nod hyn fydd mynd i'r afael â'r broblem gynyddol o dwyll Seiber<br>• Bydd y bartneriaeth yn comisiynu data ychwanegol ynghylch natur a graddau troseddau seiber yn lleol - ac yn ymateb gyda gweithgareddau ychwanegol i godi ymwybyddiaeth os bydd angen<br>• Mae gwasanaethau plant Ynys Môn yn edrych ar y strwythurau yn ymwneud â darparu cyfweliadau i blant sydd wedi dychwelyd ar ôl bod ar goll. Y nod yw sicrhau bod materion diogelu yn cael eu hadnabod a'u trin – bydd unrhyw ddysgu yn cael ei rannu gyda Gwynedd<br>• Mae buddsoddiad ychwanegol yn cael ei roi i ddarpariaeth Camddefnyddio Sylweddau haen 2 yn y ddwy sir - golyga hyn y gellir cynyddu cefnogaeth allgymorth (wedi'i thargedu) ar gyfer pobl sydd â materion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn y ddwy sir. Y nod yw cyrraedd pobl na fyddai'n chwilio am help gyda'u problemau fel arall<br>• Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud yn barod wrth adnabod y materion lleol yn ymwneud â Llinellau Cyffuriau. Mae proffiliau ac asesiadau anghenion wedi'u paratoi a dros y misoedd nesaf bydd gweithdai'n cael eu cynnal i weld sut ellir ymgorffori'r rhain mewn cynlluniau gweithredu lleol. Y nod yw gweithio gyda'n gilydd er mwyn targedu ardaloedd lle mae'r mwyaf o angen, a lle gellir cael yr effaith fwyaf | |
| YSTYRIED Y CYSYLLTIADAU A'R ARFERION GWEITHIO LLEOL, A GWELLA CYFATHREBU A STRWYTHURAU LLE BYDD ANGEN | | |

| | | |
|---|---|---|
| Beth sydd angen ei wneud eleni | • Bydd Safonau Masnach a'r Heddlu yn lleol yn trafod ac yn gweithredu dulliau i rannu data gwybodaeth yn fwy effeithiol. Nod hyn fydd sicrhau erlyniadau effeithiol<br>• Bydd yr Awdurdodau Lleol a'r Heddlu yn adolygu gorchmynion diogelu mannau agored cyhoeddus presennol. Nod hyn fydd sicrhau bod yr hyn sydd yn ei le ar gyfer y dyfodol yn adlewyrchu'r angen gwirionedd ac yn ystyried yr adnoddau sydd ar gael<br>• Bydd adran dai Môn a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn edrych ar sut ellir gwella strwythurau, cydweithio ar adnabod ac ymyrryd yn gynnar gyda phobl ifanc sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol mewn ardaloedd penodol. Y nod yw ymgysylltu â phobl ifanc yn gynnar a lleihau'r siawns i'r ymddygiad waethygu<br>• Bydd y grŵp VARM (Breguster a Rheoli Risg) yn cael ei gyflwyno yng Ngwynedd. Grŵp amlasiantaethol yw hwn sy'n ceisio dod o hyd i ddatrysiadau i faterion ar gyfer unigolion nad ydynt o fewn ffiniau diogelu arferol, ond sydd dal i fod angen gwasanaeth. Y nod yw dod o hyd i ddatrysiad a fydd yn gwella'r sefyllfa i'r unigolyn a lleihau'r angen am ymyrraeth i'r gwasanaethau<br>• Yn rhanbarthol, rydym yn gweithio ar y cyd ar adolygiad o'n strwythurau MARAC, grŵp amlasiantaethol sy'n cynllunio ar gyfer diogelwch dioddefwyr camdriniaeth domestig risg uchel. Y nod yw datblygu strwythur a fydd yn gweithio ar gyfer y dyfodol yn nhermau pa mor effeithiol ydyw a rheoli'r galw<br>• Mae gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn ei chael hi'n anodd adnabod adeiladau priodol ac sydd ar gael ym Mangor, lle gallant ddarparu eu gwasanaethau. Mae partneriaeth yn gweithio ar y cyd i adnabod unrhyw gyfle i ddatblygu'r lle sydd ar gael yn yr ardal hon ar y cyd<br>• Cynnal adolygiad amserol o'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau i bobl ifanc, 'Be di'r Sgôr', i sicrhau bod llwybrau cyfeirio yn effeithiol<br>• Bydd gwasanaeth allgymorth haen 2 newydd ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn cael ei roi ar waith ledled Gogledd Cymru, byddwn yn sicrhau bod yr adnodd hwn wedi'i fodelu'n lleol mewn modd sy'n ategu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, ac mae llwybrau priodol ar waith ar gyfer targedu yn effeithiol | |

| BOD YN RHAN O ADOLYGIAD RHANBARTHOL O LYWODRAETHU A STRWYTHURAU AR GYFER DIOGELWCH CYMUNEDOL | | |
|---|---|---|
| Beth sydd angen ei wneud eleni | • Bydd y Byrddau Strategol presennol ledled Gogledd Cymru yn cael eu rhesymoli, a bydd y bartneriaeth leol yn sicrhau ein bod yn hysbysu'r broses o safbwynt lleol. Y nod - strwythur llywodraethu mwy effeithlon ac effeithiol<br>• Mae Llywodraeth Cymru yn parhau gydag adolygiad o faterion Diogelwch Cymunedol - byddwn yn ymateb fel sydd angen ar lefel leol<br>• Bydd y bartneriaeth yn adrodd i'r strwythurau llywodraethu gofynnol - yn cynnwys, am y tro cyntaf, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>• Fel Partneriaeth, rydym yn parhau i ymgymryd â'n dyletswydd yng nghyswllt cynnal adolygiadau o laddiadau domestig. Rydym yn dechrau'r flwyddyn strategol newydd hon gyda dau adolygiad ar y gweill. Y nod yw dysgu o ddigwyddiadau o'r fath, a gwella'r ddarpariaeth lle bo hynny'n bosib | |
| PEILOTA PROSIECTAU NEWYDD | | |

| | | |
|---|---|---|
| Beth sydd angen ei wneud eleni | • Bydd trafodaethau'n parhau gyda phartneriaid perthnasol i sefydlu a ellir sefydlu bugeiliaid stryd yng Nghaernarfon<br>• Bydd prosiect peilot yn digwydd yng Nghaergybi yn seiliedig ar ddiogelu cyd-destunol. Nod hyn fydd i'r gymuned chwarae ei rhan wrth ddiogelu pobl ifanc a allai fod mewn perygl o niwed neu droseddu<br>• Bydd gwaith yn digwydd eleni i archwilio'r posibilrwydd o fenter beilot ynghylch Cynfilwyr a pherthnasau iach. Y nod yw adnabod unrhyw faterion penodol sy'n berthnasol i gynfilwyr, lle gallai fod angen ymyraethau wedi'u teilwra<br>• Bydd Awdurdod Lleol Môn yn peilota ap 'cadw'n ddiogel' newydd ar gyfer plant/rhieni drwy'r ysgolion ac yn rhannu gwersi ar y diwedd<br>• Bydd prosiect peilot o dri mis yn cael ei redeg gan Crimestoppers yn ne Gwynedd. Gan weithio law yn llaw â'r Cynghorwyr Lleol a'r cymunedau, y nod yw cynyddu hyder y cymunedau i adrodd am droseddau'n ddienw, heb gyswllt uniongyrchol gyda'r Heddlu | |



## Monitro -

Bydd y Bartneriaeth yn derbyn diweddariadau chwarterol ynghylch sut mae troseddau a digwyddiadau yn digwydd yng Ngwynedd a Môn. Bydd yr adroddiad dadansoddol yn egluro unrhyw anghysondebau ac yn adrodd am unrhyw ffactorau ychwanegol sydd angen sylw.

Yn ogystal, bydd y cynllun gwaith yn cael ei fonitro ac adroddir ar hynny.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
# Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 22 Hydref, 2020 |
| **Pwnc:** | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddariad ar gynnydd gwaith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng R Meirion Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Rhys H Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Sioned Rowe, Swyddog Sgriwtini<br>01248 752039<br>SionedRowe@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1 – Argymhelliad/ion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio:

**A1** Nodi:
- Y cynnydd hyd yma gyda gwaith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion o safbwynt cyflawni ei raglen waith sy'n cynnwys herio cadarn o berfformiad ysgolion unigol.
- Y meysydd gwaith y rhoddwyd sylw iddynt drwy'r trefniadau newydd yn sgil pandemig Covid 19

**A2** Argymell bod y Pwyllgor yn dod i gasgliad am gadernid gwaith monitro'r Panel hyd yma.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid. Mae Cynllun y Cyngor yn cynnwys uchelgais i weithio gyda phobl Ynys Môn, eu cymunedau a gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bydd y gwasanaethau gorau posibl yn cael eu darparu a fydd yn gwella ansawdd bywyd pawb ar hyd a lles yr Ynys. Un o 3 nod y Cynllun ydy "creu amodau a fydd yn galluogi pawb i gyrraedd eu potensial llawn." Mae gwaith y Panel yn allweddol i gefnogi ysgolion a'r Cyngor i wireddu'r nod hwnnw.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Ar gais y Panel:

1. I ba raddau mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn fodlon â'r gwaith a wnaed gan y Panel hyd yma?
2. I ba raddau mae'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Panel hyd yma yn ddigon cadarn ac a yw cyflymder y gwaith yn briodol?
3. Pa awgrymiadau sydd gan y Pwyllgor i gryfhau ymhellach ar waith y Panel?
4. Pa feysydd eraill y mae angen i'r Panel eu craffu?

**4 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. CYD-DESTUN**

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, bydd Aelodau'n ymwybodol bod craffu wedi datblygu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf drwy waith y 3 phanel sgriwtini. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed hyd yma mewn perthynas â'r **Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion.**

**Trefniadau Llywodraethu'r Panel**

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r trefniadau llywodraethu cadarn sydd mewn lle fel sylfaen i waith y Panel[1] a bwriedir parhau i gynnal cyfarfodydd misol o'r Panel i'r dyfodol. Sefydlwyd proses o adrodd ar gynnydd yn chwarterol i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio gan y Cyng. Gwilym Owen Jones, cadeirydd y Panel.

Erys i aelodaeth y Panel fod fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor yn ystod y chwarter diwethaf[2]:

[1] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 20 Ebrill a 27 Mehefin 2017

[2] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 9 Ebrill, 2019

| Cynghorydd | Pwyllgor Sgriwtini |
|---|---|
| Gwilym O Jones (Cadeirydd y Panel) | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| Margaret M Roberts | |
| Kenneth P Hughes | |
| Vaughan Hughes | |
| | |
| Alun Roberts (Is-gadeirydd) | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| John Arwel Roberts | |
| Richard Griffiths | |
| **Aelod Cyfetholedig o'r Pwyllgorau Sgriwtini** | |
| Mr Keith Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |

## 2. FFOCWS GWAITH Y PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION

Cafodd cyfarfodydd y Panel eu gohirio o fis Mawrth o ganlyniad i'r pandemig Covid 19, a rhoddwyd rhaglen waith y Panel i'r neilltu am y tro. Penderfynwyd cyflwyno rhaglen dros dro yn ystod y pandemig gan ganolbwyntio i ddechrau ar graffu ar ymateb y Gwasanaeth Dysgu i Covid 19 a'r trefniadau a roddwyd mewn lle yn ystod yr argyfwng. Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn cynnwys cyfeiriad at 2 gyfarfod olaf y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion – ac o ganlyniad mae'n cwmpasu'r cyfnod **Medi→ Hydref, 2020.**

**Monitro Safonau Ysgolion Unigol –** Mae'r gwaith i fonitro safonau ysgolion unigol wedi ei hen sefydlu, ac yn parhau i ddatblygu. Yn dilyn trafodaeth a gafwyd ym mis Hydref, 2019 ynghylch y rhaglen ar gyfer monitro safonau mewn ysgolion unigol, gwelwyd tystiolaeth gref o weithredu ar y penderfyniad o ran datblygu'r gwaith craffu ymhellach.

Er hynny, mae'r ffrwd gwaith hon wedi cael ei rhoi i'r neilltu ar hyn o bryd o ganlyniad i'r Pandemig, ac mae'r Panel yn bwriadu ailymweld â'r ymweliadau hyn pan fydd yr amodau yn caniatáu. O'r herwydd bydd angen i'r Panel addasu'r modd y mae'n gweithio ac yn craffu ar berfformiad ysgolion unigol, ac mae cwmpas i'r Panel ymgymryd â'r gwaith hwn yn rhithiol dros Teams yn y dyfodol.

**<u>Trafodaeth am flaenoriaethau'r Panel o ganlyniad i'r Pandemig</u>**

Yn ei gyfarfod ar 24 Medi, 2020 bu i'r Panel drafod blaenoriaethau'r Panel yn sgil y Pandemig, a phenderfynwyd ar yr isod:

- Nodwyd bod angen rhoi rhaglen waith y Panel o'r neilltu ar hyn o bryd nes i'r amodau ganiatáu i ailafael yn y gwaith arferol o ymweld ag Ysgolion unigol ac yn y blaen.
- Nodwyd bod cyfle i'r Panel ddewis canolbwyntio ar feysydd allweddol o ymateb y Gwasanaeth Dysgu i Covid 19 er mwyn adnabod gwersi.
- Penderfynwyd gwahodd Pennaeth ysgol i un o gyfarfodydd rhithiol y Panel er mwyn clywed am eu profiadau a'r heriau maent yn eu hwynebu yn ystod y pandemig, a chlywed llais y plentyn ac y byddai modd trefnu hyn drwy un o'r ysgolion.
- Bu i'r Panel gydnabod pwysigrwydd craffu ar Adroddiad Safonau Ysgolion (Haf, 2020) ac Adroddiad Blynyddol GwE 2019/20, fel maent yn ei wneud yn arferol er bod yr amgylchiadau a'r sefyllfa yn gwbl wahanol eleni.

**<u>Ymateb y Cyngor i Covid-19 (Rhan 1): Canolfannau Gofal a Dysgu o Bell</u>**

Cafwyd adroddiad ar lafar gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yng nghyfarfod y Panel ar 24 Medi, ac amlinellwyd taith y Gwasanaeth Dysgu ac Ysgolion unigol o ymateb i Covid-19 ers mis Mawrth. Manylwyd ar nifer o themau penodol: Canolfannau Gofal, Dysgu o Bell, Trefniadau Cinio Ysgol am Ddim, Cynllun 'Ailgydio, Dal i Fyny a Pharatoi ar gyfer yr Haf a mis Medi', Asesiadau Canolfan (TGAU a Lefel A), Trefniadau mis Medi ac Achosion Positif o Covid mewn Ysgolion Cynradd.

**Canolfannau Gofal**

- Rhoddwyd trosolwg o'r trefniadau a rhoddwyd mewn lle a nodwyd bod swyddogaeth ysgolion wedi gorfod newid yn llwyr ar ddechrau'r cyfnod clo, gydag ysgolion yn newid i fod yn Ganolfanau Gofal. Pwysleisiwyd na wnaeth yr un ysgol gau gan eu bod wedi parhau i addysgu plant a phobl ifanc o bell drwy amryw o ffyrdd digidol, yn ogystal â darparu gofal i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol drwy gydol y cyfnod clo. Derbyniwyd diffiniad penodol o blant bregus gan Lywodraeth Cymru, a chafodd y ddiffiniad ei adolygu mewn partneriaeth â'r Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Amlygwyd y gwaith cydweithio llwyddiannus rhwng y Gwasanaeth Dysgu, Penaethiaid ysgolion Môn a'r Fforwm Penaethiaid Cynradd ac Uwchradd. Rhoddwyd trosolwg o'r amrywiol fodelau a ddefnyddiwyd gan fanylu ar enghreifftiau penodol.
- Nodwyd bod presenoldeb yn y Canolfannau Gofal yn amrywio yn ôl ardal, gydag Ysgol Llanfairpwll yn gofalu am hyd at 30 o blant, a gyda 1 neu 2 plentyn mewn ambell i Ganolfan Gofal. Er hynny, darparwyd gofal i bob plentyn cymwys yn ystod y cyfnod. Yn sgil ceisiadau gan rieni i agor canolfannau gofal dros y penwythnos ar gyfer mis olaf y tymor, sefydlwyd Canolfannau Gofal yng Nghaergybi, Llangefni, Amlwch a Llanfairpwll, er fod y nifer oedd yn mynychu yn isel iawn.
- Gwnaethpwyd penderfyniad yn genedlaethol bod canolfannau gofal dros wyliau'r haf ar gyfer plant bregus yn unig, a bu i'r cyfrifoldeb drosglwyddo i'r Gwasanaethau Plant, lle bu cydweithio â'r Tîm Ieuenctid, yr Urdd a'r Gwasanaeth Dysgu, a rhoddwyd cynllun effeithiol yn ei le.

**Dysgu o Bell**

- Cafwyd trosolwg o'r trefniadau dysgu o bell a weithredwyd er mwyn i'r plant barhau i gael eu haddysgu, gydag athrawon yn gosod gwaith i blant yn rhithiol, ym marcio'r gwaith, yn rhoi cymorth iddynt a'u cefnogi yn emosiynol. Cydnabuwyd nad oedd yr addysg hwn yn arferol, ond bod y byd wedi newid yn llwyr, a bod y ddarpariaeth hon yn effeithiol o ystyried y sefyllfa.
- Dysgwyd sut y bu i'r ysgolion wneud defnydd helaethach o dechnoleg, sy'n golygu bod yr agenda technoleg wedi symud yn ei blaen. Amlygwyd y gwaith cydweithio llwyddiannus rhwng GwE, y Gwasanaeth Dysgu a'r ysgolion er mwyn creu darpariaeth dros dechnoleg rhithiol, gyda phawb wedi addasu'n effeithiol.
- Nodwyd bod hyfforddiant cynhwysfawr wedi cael ei ddarparu i'r ysgolion yn ganolog gan y Cyngor, GwE a gan yr ysgolion eu hunain o ran y defnydd o dechnoleg, gan fanteisio ar gryfderau ac arbenigedd rhai athrawon.
- Nodwyd bod y gwasanaeth wedi cefnogi teuluoedd a oedd heb fynediad at liniaduron, a bod y gwasanaeth wedi cydweithio gyda Cynnal a Thîm TG y Cyngor er mwyn adnabod dyfeisiau nad oedd yn cael eu defnyddio er mwyn i blant gael eu defnyddio.
- Nodwyd bod cynllun cadarn yn ei le rhag ofn y bydd cyfnod clo arall a'r ysgolion yn gorfod cau. Bydd modd defnyddio'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer y cyfnod nesaf. Nodwyd o ganlyniad i'r profiad hwn y bydd y gwasanaeth mewn gwell sefyllfa y tro nesaf, er fod gwaith gwych wedi'i wneud.

- Gwelwyd gwaith craffu da gan Aelodau'r Panel a gofynnwyd i'r Gwasanaeth sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu hymgorffori wrth symud ymlaen.

**Cynllun 'Ailgydio, Dal i Fyny a Pharatoi ar gyfer yr Haf a mis Medi'**

- Eglurwyd y cynllun Llywodraeth Cymru oedd yn ceisio cael y plant yn ôl i'r ysgolion er mwyn ymgyfarwyddo â'r newidiadau oherwydd y pandemig.
- Nodwyd mai'r bwriad oedd i'r plant gael gwneud hyn am gyfnod o fis, ond newidwyd hyn i gyfnod o 3 wythnos.
- Oherwydd sefyllfa yn 2 Sisters ar yr Ynys bu i'r Cyngor weithredu'n sydyn, a phenderfynu peidio â gwahodd y plant yn ôl am 3 wythnos, ond yn hytrach wythnos ar ddiwedd y tymor.

**Asesiadau Canolfan (TGAU a Lefel A)**

- Nodwyd bod canlyniadau TGAU a Lefel A wedi cael eu gosod yn seiliedig ar asesiadau canolfan yn y pendraw ar ôl yr her gychwynnol, ac y teimlwyd bod y disgyblion wedi cael y graddau haeddiannol. Gofynnodd y Panel am gael craffu'r broses a arweiniodd at y graddau terfynol gan y teimlir ei bod yn bwysig adnabod gwendidau a chrfyderau'r system a bwydo hyn yn ôl i'r cyrff perthnasol yn ôl yr angen er mwyn dysgu o'r profiad.

**Mis Medi**

- Clywodd y Panel am drefniadau a rhoddwyd mewn lle er mwyn i'r plant ddychwelyd i'r ysgol yn raddol dros gyfnod o amser, gan y teimlwyd mai dyma'r ffordd gywir i wneud hyn o dan yr amgylchiadau. Pwysleisiwyd bod modd gweld ar adegau, nad yw'r disgyblion wedi cael addysg ffurfiol ers misoedd, er enghraifft o ran eu sgiliau iaith a rhifedd gan fod mymryn o ddirywiad yn gyffredinol, ac efallai y bydd hyn yn cael effaith ar gyrhaeddiad am flynyddoedd i ddod. Cydnabuwyd bod angen ystyried hyn wrth edrych ar ddeilliannau a chanlyniadau yn y dyfodol. Gofynnodd y Panel am sicrwydd bod trefniadau cadarn yn eu lle rhag ofn y cyfyd sefyllfa debyg o orfod cau ysgolion yn y dyfodol agos.

**Achosion Positif o Covid mewn Ysgolion Cynradd**

- Nodwyd bod achosion positif mewn 4 ysgol gynradd a bod grwpiau o blant wedi gorfod hunan ynysu o'r herwydd. Amlinellwyd y trefniadau a'r strwythurau a weithredwyd gan yr ysgolion gyda chefnogaeth gan yr Awdurdod Lleol, a'r tîm TTP, a oedd wedi profi'n heriol gyda'r ysgol gyntaf. Amlygwyd y gwersi a ddysgwyd, a rhoddwyd sicrwydd i'r Panel fod y Gwasanaeth Dysgu mewn gwell sefyllfa o ran delio ag achosion posibl mewn ysgolion ac i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i weithredu ar fyrder.
- I gloi, pwysleisiwyd y gwaith cydweithio gwych sydd wedi digwydd rhwng gwasanaethau'r Cyngor, Ysgolion a GwE er mwyn sicrhau darpariaeth o bell i blant Ynys Môn.

**Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol**

Yn ei gyfarfod ar 14.10.20, cafodd y Panel gyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Uwch Reolwr Cynradd, Pennaeth Ysgol Gymuned y Fali, ac athro yn yr

ysgol sy'n Bencampwr Digidol, a manylwyd ar sut y bu i'r Gwasanaeth a'r Ysgolion gydweithio er mwyn darparu addysg o bell.

Amlinellwyd strategaeth Môn a chydweithio agos rhwng y Gwasanaeth Dysgu, GwE ac Ysgolion fel rhwydwaith byw sydd yn hwyluso a meithrin cydweithio, rhannu a chyfathrebu. Bwriad y Gwasanaeth Dysgu yw atgyfnerthu'r rhwydweithiau hyn gan gynnwys sawl maes arall megis Athrawon Newydd Gymhwyso, Llywodraethwyr, Cydlynwyr y Gymraeg ac eraill mewn un safle ganolog.

Un enghraifft o'r gwaith yma yw ffrydio byw (*live-streaming*) ac mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi arwain cydweithio gydag ysgolion drwy lunio Canllaw Defnyddio Teams gyda Dysgwyr. Mae'r canllaw yn enghraifft dda o ysgol yn arloesi gydag elfen addysgiadol a'r Gwasanaeth Dysgu yn cefnogi drwy ganiatáu prosiect peilot er mwyn datblygu strwythurau a chanllaw i ddiogelu holl ysgolion Môn.

Mewn cydweithrediad â chonsortia rhanbarthol, mae'r Gwasanaeth Dysgu yn hyrwyddo a hwyluso'r dysgu proffesiynol sydd yn angenrheidiol ar gyfer cefnogi athrawon a dysgwyr, wrth gefnogi trafodaethau a chydweithio rhwng ysgolion yn y dalgylchoedd. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn monitro ac yn herio safon y ddarpariaeth drwy GwE, pencampwyr digidol a chyfarfodydd dalgylch. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn arddangos enghraifft o'r cydweithio hwn drwy wahodd Pennaeth ysgol i rannu ei brofiadau yng nghyfarfod y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion.

**Profiad Ysgol Gynradd o Ymateb i'r Pandemig**

Cafwyd cyflwyniad gan Bennaeth Ysgol Gynradd y Fali a hynny yn sgil cais gan y Panel er mwyn cael clywed am brofiad ysgol o ymateb i'r argyfwng.  Cyfeiriwyd yn benodol at y canlynol:

- Manteisiwyd ar dechnoleg Teams 2 ddiwrnod ar ôl i adeilad yr ysgol gau er mwyn cadw cyswllt wyneb yn wyneb â'r disgyblion.
- Defnyddiwyd y dechnoleg er mwyn adnabod unrhyw broblemau lles neu bryderon, a chadwyd cofnod o bresenoldeb y disgyblion yn y sesiynau wyneb yn wyneb a phryd roeddent yn defnyddio'r dechnoleg er mwyn adnabod unrhyw broblem.
  Os oedd problemau neu bryder am blentyn, rhoddwyd trefniadau yn eu lle i'r Pennaeth gysylltu â'r teulu.
- Cafwyd adborth gwych gan rieni a'r disgyblion, gyda'r disgyblion yn edrych ymlaen yn arw at y sesiynau wyneb yn wyneb ar Teams oedd yn gyfle iddynt gymdeithasu a chael lleisio unrhyw bryderon.
- Nodwyd bod y dechnoleg wedi rhoi mewnwelediad i fywyd personol y plant a'u perthynas â'u rhieni, rhywbeth na welwyd o'r blaen.
- Cydnabuwyd yr heriau a manylwyd ar sut aethpwyd ati i ymdrin â'r heriau hyn: plant ddim yn mynychu oherwydd diffyg adnoddau digidol ond darparwyd teclynnau i'r teuluoedd hynny, cynnal diddordeb y dysgwyr, ond cynhaliwyd sesiynau cwis ayyb i oresgyn hyn, a rhai plant ddim eisiau ymddangos ar sgrîn oherwydd eu bod yn teimlo'n hunan ymwybodol ond caniatawyd i'r plant hynny ymuno heb fideo a sain nes i'w hyder gynyddu.
- Nodwyd bod yr ysgol yn parhau i ddefnyddio Teams, gan fod plant wedi gorfod hunan ynysu felly mae'r platfform digidol wedi caniatáu i'r addysgu barhau.

Nodwyd y bydd y dysgu cyfunol yn fodd o sicrhau parhad addysg yn wyneb unrhyw ymchwydd.

- Manylwyd ar waith y Pencampwyr digidol sydd yn hanfodol i sicrhau llwyddiant y dysgu cyfunol, a nodwyd eu bod wedi buddsoddi amser helaeth yn datblygu adnoddau ar Google Classroom ar gyfer bob dosbarth.
- Nodwyd bod rhwydwaith y Pencampwyr digidol yn fodd o rannu arfer dda, rhannu adnoddau sy'n arbed amser cynllunio ac yn sicrhau cydweithio ar draws clystyrau.
- Manylwyd ar y gwahanol lwyfannau digidiol sy'n cael eu defnyddio er mwyn parhau i addysgu'r plant, a nodwyd bod cydweithio ar draws clystyrau a dalgychoedd yn hanfodol er mwyn datblygu banc adnoddau i gefnogi'r strategaeth dysgu cyfunol.
- Nodwyd bod y Gwasanaeth Dysgu yn cefnogi dalgychoedd ac ysgolion i fabwysiadu'r un model sy'n weithredol yn Ardal Cybi - er mwyn sicrhau bod y model sy'n cael ei ystyried yn arfer dda yn weithredol ar draws yr Ynys.

Camau nesaf:

- Parhau i ddatblygu'r rhydweithiau a chydweithio ar draws yr Ynys
- Canoli'r gwaith uchod ar un wefan er mwyn hwyluso a rhannu beth sydd ar gael ac yn digwydd i gefnogi ein hymdrechion fel sefydliad sy'n dysgu.

**5. MATER I'W UWCHGYFEIRIO I'R RHIANT BWYLLGOR EI YSTYRIED**

Cyfeirir y mater a ganlyn er ystyriaeth gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio:
4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ddod i gasgliad am gadernid gwaith monitro'r Panel hyd yma.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol. |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Dim yn berthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|

Sioned Rowe, Swyddog Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW

**Cyng. Gwilym Owen Jones**
**Cadeirydd y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion**
**Dyddiad: 12/10/2020**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, |
| **Dyddiad:** | 22 Hydref 2020 |
| **Pwnc:** | Casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd - Methodoleg codi tâl a chynllun gweithredu |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Y rhesymau am yr adroddiad yw sicrhau bod gan y Cyngor gynllun cymeradwy a digon o adnoddau i sicrhau y cyflwynir gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd effeithlon y codir amdano o 1 Ebrill 2021 ymlaen . |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Gwilym Owen Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Bob Parry, Aelod Portffolio (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Huw Percy – Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Marc Jones – Cyfarwyddwr y Swyddogaeth Adnoddau (Cadeirydd y Grŵp Llywio Rheoli Gwastraff).<br><br>Huw Percy – Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) |
| **Aelodau lleol:** | Yn berthnasol i bob aelod Sgriwtini |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried a gwneud sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith ar yr argymhellion a restrir isod, fel y dangosir yn yr adroddiad Pwyllgor Gwaith ynghlwm a fydd yn cael ei ystyried ar 26 Hydref 2020<br><br>**a.** Codi £35 y flwyddyn am gasglu gwastraff gwyrdd o'r bin olwynion cyntaf a £30 y flwyddyn am gasglu o finiau olwynion ychwanegol.<br><br>**b.** y gyllideb gwariant ychwanegol fel y'i nodir ym mharagraff 5.4 gyda'r gwariant ychwanegol hwn yn cael ei ariannu o'r incwm a gynhyrchir trwy godi am y gwasanaeth. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Dywed Amcan 3 o Gynllun y Cyngor am y cyfnod 2017 - 2022 y bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol. |

| **3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-** |

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. I ba raddau mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr holl opsiynau posibl o ran penderfynu ar y strwythur codi tâl wedi cael eu harchwilio?
2. I ba raddau mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y strwythur codi tâl a awgrymir yn gyson ag Awdurdodau Lleol eraill?
3. Ym mha ffyrdd mae'r model codi tâl hwn yn cydymffurfio â Glasbrint Casglu Gwastraff Llywodraeth Cymru (rhan o'r strategaeth wastraff genedlaethol 'Tuag at ddyfodol Diwastraff'?)
4. Pa gamau lliniaru fydd yn eu lle er mwyn delio ag unrhyw heriau posibl?
5. Beth yw'r goblygiadau ariannol ac o ran adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyflwyno'r gwasanaeth newydd hwn, a sut eir ati i ariannu'r rhain?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

Ar 27 Ionawr 2020, cyflwynodd swyddogion i'r Pwyllgor Gwaith ganfyddiadau cychwynnol 'Cam 1' y broses gaffael ar gyfer y Contract Glanhau a Chasglu Gwastraff newydd. Yn yr adroddiad, tynnodd swyddogion sylw at adborth gan awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru, rhagamcanion incwm posibl a risgiau cyflwyno gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd newydd y codir amdano. Yn seiliedig ar yr adborth hwn, cadarnhaodd y Pwyllgor Gwaith ffurf derfynol ei

wasanaeth o ran y broses gaffael a gofynnwyd i'r cwmnïau ddarparu tendrau terfynol ar y sail hon.

Yn yr un modd â'r holl awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith y byddai'r Contract yn nodi y byddai gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd newydd y codir amdano yn cychwyn o 1 Ebrill 2021, gan ddod â'r gwasanaeth cyfredol, sy'n rhad ac am ddim ers sawl blwyddyn i ben. Mae hyn yn cyd-fynd â Glasbrint Casgliadau Gwastraff Llywodraeth Cymru (rhan o'r strategaeth wastraff genedlaethol - 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'), ac â'u hargymhelliad i awdurdodau lleol Cymru y dylent godi tâl am gasglu Gwastraff Gardd Gwyrdd.

Yn dilyn hynny, ym mis Gorffennaf 2020, dyfarnodd y Cyngor Gontract Casglu Gwastraff a Glanhau newydd i Wasanaethau Gwastraff Biffa. Mae swyddogion y cyngor a Biffa bellach yn gweithio ar gynllun trefnu ar gyfer y Contract newydd, sy'n cynnwys cynlluniau i gyflwyno gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd newydd y codir amdano.

Y cam cyntaf yn y broses fu ceisio casglu cymaint o wybodaeth gan awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Biffa am ddarparu gwasanaethau (mae gan Biffa sawl gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd y codir amdano ledled y Deyrnas Unedig). Mae swyddogion wedi cynnal cyfarfodydd *Teams* gyda holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru a chyda Rheolwr Gwastraff Gardd Gwyrdd Biffa. Bellach, mae gan swyddogion ddealltwriaeth dda iawn o'r heriau y byddir yn debygol o'u hwynebu wrth gyflwyno gwasanaeth newydd o'r fath, ynghyd â'r hyn a fyddai'n arfer gorau. Wrth baratoi'r ffordd arfaethedig ymlaen i'r Cyngor, mae swyddogion wedi ystyried holl adborth awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Biffa.

**6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [yn cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal. Daeth i'r casgliad nad oedd unrhyw effeithiau sylweddol o ganlyniad i gyflwyno polisi codi tâl newydd ar gyfer casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd.

**7 – Goblygiadau Ariannol**

Amlygir goblygiadau ariannol cyflwyno gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd newydd y codir amdano ym mharagraffau 2.4, 2.5 a 5.4 o'r Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith sydd wedi ei atodi dyddiedig 26 Hydref 2020.

**8 – Atodiadau**

Dim

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith (ac atodiadau) dyddiedig 26 Hydref 2020 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **26 HYDREF 2020** |
| **Pwnc:** | **CASGLU GWASTRAFF GARDD GWYRDD - METHODOLEG CODI TÂL A CHYNLLUN GWEITHREDU** |
| **Deilydd (Deiliaid) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R.G.PARRY OBE FRAgS**<br>**Y CYNGHORYDD R.W. WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth/ Cyfarwyddwr:** | **HUW PERCY – PENNAETH GWASANAETH (PRIFFYRDD, GWASTRAFF AC EIDDO)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR Y SWYDDOGAETH ADNODDAU (CADEIRYDD Y GRŴP LLYWIO RHEOLI GWASTRAFF).**<br><br>**HUW PERCY – PENNAETH GWASANAETH (PRIFFYRDD, GWASTRAFF AC EIDDO)** |
| **Aelodau Lleol:** | **YR HOLL AELODAU** |

## A –Argymhelliad /Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

**Mae'r Pwyllgor gwaith yn:**

**1) Awdurdodi/cymeradwyo:**

**a. Codi £35 y flwyddyn am y bin olwynion cyntaf yn y gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd a £30 y flwyddyn am finiau olwynion ychwanegol.**

**b. Gwariant ychwanegol yn y gyllideb fel y'i nodir ym mharagraff 5.4 gyda'r gwariant ychwanegol hwn yn cael ei ariannu o'r incwm a gynhyrchir trwy godi am y gwasanaeth.**

Y rhesymau am yr argymhellion yw sicrhau bod gan y Cyngor gynllun cymeradwy a digon o adnoddau i sicrhau y cyflwynir gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd effeithlon y codir amdano o 1 Ebrill 2021 ymlaen .

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith barhau â gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd yn rhad ac am ddim a gwasanaeth llai (9 mis yn unig, ac eithrio misoedd y gaeaf). Fodd bynnag, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith yn derfynol, ar y 27ain o Ionawr 2020, gychwyn gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd bob pythefnos y codir amdano, trwy gydol y flwyddyn o 1 Ebrill 2021 ymlaen.

Ystyriwyd opsiynau eraill hefyd fel y'u manylir ym mharagraff 2.4 a 2.5

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar y fethodoleg i gyflwyno'r gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd newydd, gan ddefnyddio'r telerau ac amodau a'r taliadau. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Bydd codi tâl am gasglu Gwastraff Gardd Gwyrdd yn cynhyrchu incwm sylweddol. Bydd lefel yr incwm yn dibynnu ar y taliadau a godir a nifer y cartrefi sy'n cofrestru â'r gwasanaeth yn y pen draw. Mae mwy o fanylion i'w cael yng nghorff yr adroddiad hwn. |

| DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | Wrth gasglu Gwastraff Gardd Gwyrdd byddir yn cyfrannu at gwrdd â gofynion Strategaeth Gwastraff Cymru i sicrhau y byddir yn rheoli gwasanaethau gwastraff yn gynaliadwy yn y blynyddoedd i ddod. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Yn sgil y penderfyniad hwn cynhyrchir incwm fydd yn lleihau'r baich ar y gyllideb yn y blynyddoedd i ddod. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-** | Mae swyddogion wedi cynnal cyfarfodydd *Teams* gyda holl awdurdodau Gogledd Cymru a Rheolwr Gwastraff Gardd Gwyrdd Biffa. |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'u rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Trafodwyd yr adroddiad hwn yn y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio. |
| 5 | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Amherthnasol |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch-dîm Rheoli (UDRh)** (gorfodol) | Rhoes yr Uwch-dîm Rheoli ystyriaeth i'r adroddiad ac mae eu sylwadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Adroddiad y Swyddog Adran151 yw hwn. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | Cymerodd y Swyddog Monitro ran yn y |

| | | |
|---|---|---|
| | (gorfodol) | trafodaethau ar yr adroddiad yng nghyfarfod yr Uwch-dîm Rheoli. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Trafodwyd yr adroddiad hwn yn y Pwyllgor Craffu - Partneriaeth ac Adfywio ar yr 22ain o Hydref 2020 |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – Telerau ac Amodau Drafft<br><br>Atodiad 2 – Pecyn Gwybodaeth Drafft ar gyfer Cwsmeriaid Newydd a Chwestiynau Cyffredin |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| |

## 1.0 CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1.1 Ar 27 Ionawr 2020, cyflwynodd swyddogion i’r Pwyllgor Gwaith ganfyddiadau cychwynnol ‘Cam 1’ y broses gaffael ar gyfer y Contract Glanhau a Chasglu Gwastraff newydd. Yn yr adroddiad, tynnodd swyddogion sylw at adborth gan awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru, rhagamcanion incwm posibl a risgiau cyflwyno gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd newydd y codir amdano. Yn seiliedig ar yr adborth hwn, cadarnhaodd y Pwyllgor Gwaith ffurf derfynol ei wasanaeth o ran y broses gaffael a gofynnwyd i'r cwmnïau ddarparu tendrau terfynol ar y sail hon.

1.2 Yn yr un modd â’r holl awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith y byddai'r Contract yn nodi y byddai gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd newydd y codir amdano yn cychwyn o 1 Ebrill 2021, gan ddod â'r gwasanaeth cyfredol, sy’n rhad ac am ddim ers sawl blwyddyn, i ben. Mae hyn yn cyd-fynd â Glasbrint Casgliadau gwastraff Llywodraeth Cymru (rhan o’r strategaeth wastraff genedlaethol - ‘Tuag at Ddyfodol Diwastraff’), ac a’u hargymhelliad i awdurdodau lleol Cymru y <u>dylent</u> godi tâl am gasglu Gwastraff Gardd Gwyrdd.

1.3 Yn dilyn hynny, ym mis Gorffennaf 2020, dyfarnodd y Cyngor Gontract Casglu Gwastraff a Glanhau newydd i Wasanaethau Gwastraff Biffa. Mae swyddogion y cyngor a Biffa bellach yn gweithio ar gynllun symudiadau ar gyfer y Contract newydd, sy'n cynnwys cynlluniau i gyflwyno gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd newydd y codir amdano.

1.4 Y cam cyntaf yn y broses fu ceisio casglu cymaint o wybodaeth gan awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Biffa am ddarparu gwasanaethau (mae gan Biffa sawl gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd y codir amdano ledled y Deyrnas Unedig). Mae swyddogion wedi cynnal cyfarfodydd *Teams* gyda holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru a chyda Rheolwr Gwastraff Gardd Gwyrdd Biffa. Bellach, mae gan swyddogion ddealltwriaeth dda iawn o’r heriau y byddir yn debygol o’u hwynebu wrth gyflwyno gwasanaeth newydd o'r fath, ynghyd â'r hyn a fyddai'n arfer gorau. Wrth baratoi'r ffordd arfaethedig ymlaen i’r Cyngor, mae swyddogion wedi ystyried holl adborth awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Biffa.

## 2.0 RHAGAMCANION INCWM, STRWYTHUR CODI TÂL A SYSTEMAU TALU

2.1 Mae'n anodd rhagweld lefel yr incwm net gwirioneddol a gynhyrchir trwy godi tâl am gasglu Gwastraff Gardd Gwyrdd gan ei fod yn ddibynnol ar dri phrif newidyn:

a) y strwythur codi tâl i'w fabwysiadu gan y Cyngor;

b) costau gweinyddu'r gwasanaeth (staff ychwanegol, gweinyddu, Pecynnau Gwybodaeth, Sticeri Adnabod, costau postio, costau TG ac ati) a;

c) nifer y cartrefi fydd, mewn gwirionedd, yn cofrestru am y gwasanaeth.

<u>Nifer y cartrefi</u>

Ar ôl cymharu ffigurau cofrestru ar draws awdurdodau lleol Gogledd Cymru, gellir ystyried tri senario tebygol ar sail nifer isel, canolig ac uchel y cartrefi sy'n cymryd rhan, fel y dangosir isod:

| | **Nifer isel yn cofrestru (30% o gyfanswm y cartrefi)** | **Nifer canolig yn cofrestru (35% o gyfanswm y cartrefi)** | **Nifer uchel yn cofrestru (40% o gyfanswm y cartrefi)** |
|---|---|---|---|
| **Cartrefi sy'n cofrestru** | **10,000** | **12,000** | **14,000** |

2.2 Mae swyddogion wedi ymgynghori â phob awdurdod lleol arall yng Ngogledd Cymru ac wedi dod o hyd i ystod eang o strwythurau codi tâl. Mae sawl newidyn i'w hystyried os byddir yn cymharu gwahanol strwythurau codi tâl ledled Gogledd Cymru gan gynnwys:

2.2.1 Maint y bin olwynion i'w ddefnyddio (140 litr, 180 litr neu 240 litr).

2.2.2 Nifer y casgliadau bob blwyddyn (e.e. bob pythefnos trwy gydol y flwyddyn, un casgliad yn llai dros gyfnod y Nadolig, llai o gasgliadau ym misoedd Rhagfyr, Ionawr a Chwefror neu dim casgliadau ym misoedd Rhagfyr, Ionawr a Chwefror).

2.2.3 A ddylid codi pris is am finiau ychwanegol (bydd rhai cartrefi eisiau biniau olwynion ychwanegol ar gyfer Gwastraff Gardd Gwyrdd).

2.2.4 A ddylai'r ffi flynyddol fod yn un taliad yn unig bob blwyddyn ariannol neu'n daliad pro-rata yn gysylltiedig â phan fydd deiliad tŷ yn digwydd cofrestru.

2.2.5 A ddylid codi ffi is os gwneir taliad ar-lein, fel cymhelliant i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn;

2.3 Dangosir isod gymhariaeth o'r amrywiol newidynnau codi tâl ar draws awdurdodau lleol Gogledd Cymru:

| Rhif | Newidyn | Gwynedd | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | **Maint y bin olwynion** | 240 litr | 240 litr | 140 litr | 180 litr | 240 litr |
| 2. | **Nifer y casgliadau'r flwyddyn** | 25 | 26 | 26 | 20 | 23 |
| 3. | **Cost flynyddol am y bin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd cyntaf** | £35 | £35 | £24 (ar-lein) £27 (ffôn) | £32 (ar-lein) £35 (ffôn) | £25 |
| 4. | **Cost flynyddol am fin olwynion ychwanegol** | £30 (hyd at dri bin olwynion ychwanegol) | £20 (hyd at dri bin olwynion ychwanegol fodd bynnag, codir tâl danfon o £20 y bin). | £12 Dim mwy na dau | £30 (hyd at ddau fin olwynion ychwanegol) | £17 (dim cyfyngiad ar finiau olwynion ychwanegol) |
| 5. | **Taliad blynyddol neu pro-rata** | Blynyddol | Pro-rata | Pro rata | Blynyddol | Blynyddol |

2.4 Yn seiliedig ar gasglu 10,000 casgliad bob pythefnos (26 casgliad y flwyddyn) amcangyfrifir mai £50 yw cost pob casgliad y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys costau uniongyrchol y contractwr, cost ariannu'r cerbydau a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth gwastraff gwyrdd a'r hyn y mae'r contractwyr casglu gwastraff yn ei godi am y gwaith rheoli, y gorbenion eraill a'r elw. At hyn, mae'n cynnwys swm i gynnwys gorbenion y Cyngor i drefnu a rheoli'r gwasanaeth casglu gwastraff gardd gwyrdd. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys cost rhoi bin i bob eiddo.

2.5 Cyfraniad at gost darparu'r gwasanaeth a ariennir ar hyn o bryd o gyllideb y Cyngor yw'r ffi arfaethedig o £35. Pe câi'r ffi hon ei gostwng £5 ac yn seiliedig ar 10,000 casgliad, byddai hyn yn gostwng yr incwm a gynhyrchir £50,000 y byddai'n rhaid ei ariannu o gyllideb y Cyngor h.y. trwy godi £1.59 ym Mand D Treth y Cyngor (seilir hyn ar sylfaen dreth 2020/21). Byddai cynnydd o £5 yn y ffi, o'r lefel arfaethedig, yn gorfod bod yn gynnydd ym Mand C Treth y Cyngor o lai na £1.59 na phe byddai'r ffi yn £35, ar yr amod bod yr un nifer o ddefnyddwyr yn cofrestru ar y pris uwch.

2.6 Ar ôl ystyried yr hyn y mae awdurdodau lleol eraill Gogledd Cymru yn ei gynnig o ran costau a gwasanaethau, y cynnig yw defnyddio'r strwythur codi tâl a nodir isod

| Rhif. | Newidyn | Strwythur Codi Tâl Arfaethedig ar gyfer Ynys Môn o 1 Ebrill 2021 ymlaen | Rhesymeg /Nodiadau |
|---|---|---|---|
| 1. | **Maint y bin olwynion** | 240 litr | Mae bron pob bin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd yn 240 litr ei faint. |
| 2. | **Nifer y casgliadau'r flwyddyn** | 26 | Mae'r Contract newydd yn pennu 26 casgliad y flwyddyn ar gyfer Gwastraff Gardd Gwyrdd, yn unol â'r gwasanaeth presennol (cadarnhawyd gan y Pwyllgor Gwaith ar y 27ain o Ionawr 2020). |
| 3. | **Cost flynyddol am fin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd** | £35 y bin | Peidio â chodi am gasglu Gwastraff Gardd Gwyrdd o fynwentydd, addoldai crefyddol neu neuaddau pentref / cymunedol yn seiliedig ar y lefel bresennol o wasanaeth. |
| 4. | **Cost flynyddol am fin olwynion ychwanegol (dim mwy na thri bin olwynion ychwanegol y cartref)** | £30 y bin | |
| 5. | **Taliad blynyddol neu pro-rata** | Blynyddol | Byddai'r broses i weinyddu system dalu pro-rata yn gymhleth iawn ac yn cymryd llawer o amser i'w rheoli, felly cynigir system dalu flynyddol unwaith ac am byth, waeth beth fo'r amser y cofrestrwyd. |

2.7 O ran talu am y gwasanaeth Gwastraff Gardd Gwyrdd, rhoddir dewis i gartrefi dalu ar-lein neu dros y ffôn. Mae pob awdurdod lleol arall yng Ngogledd Cymru yn cynnig yr opsiwn i dalu am y gwasanaeth dros y ffôn - y prif reswm am hyn yw nad oes gan rai cartrefi y we neu nid ydynt yn ddigon hyderus i ddefnyddio'r opsiwn hwn i wneud taliadau. Mae swyddogion yn gweithio gyda'r Adran TG i sicrhau bod system daliadau ar gyfer y gwasanaeth ar gael o ddechrau mis Rhagfyr 2020.

## 3.0 TELERAU AC AMODAU

3.1 Mae gan bob awdurdod lleol sy'n cynnal gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd y codir amdano delerau ac amodau penodol. Noda'r rhain yn glir rwymedigaethau Cartrefi sydd wedi cofrestru fel nad oes amwysedd ynghylch darparu gwasanaeth yn hwyrach ymlaen. Mae'r telerau ac amodau hyn yn debyg iawn i rai mwyafrif yr awdurdodau lleol, ond bydd angen eu haddasu i adlewyrchu sefyllfa benodol Ynys Môn. Mae'r Telerau ac Amodau arfaethedig drafft ar gyfer Ynys Môn i'w gweld yn **Atodiad 1**.

## 4.0 CYFATHREBU, PECYNNAU GWYBODAETH I GWSMERIAID NEWYDD A CHWESTIYNAU CYFFREDIN

4.1 Y cynnig yw bod y Cyngor yn gwneud datganiad cyhoeddus yn Hydref / Tachwedd 2020, gan egluro y bydd strwythur codi tâl newydd yn cychwyn ar gyfer casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Yn dilyn hyn, y cynnig yw rhoi rhagor o wybodaeth i gartrefi yn llythyr Nadolig 2020 am sut i gofrestru am y gwasanaeth newydd a thalu amdano. Yn y llythyr hwn, hefyd, bydd y calendr casglu gwastraff blynyddol. Mae defnyddio'r llythyr Nadolig yn osgoi costau postio ychwanegol sylweddol o ran cyrraedd pob cartref yn Ynys Môn.

4.2 Unwaith y bydd cartref wedi cofrestru a thalu am y gwasanaeth, bydd angen anfon Pecyn Gwybodaeth iddo. Yn y Pecyn Gwybodaeth hwn bydd sticer adnabod penodol (wedi'i farcio â'r flwyddyn ariannol), y Telerau ac Amodau (Atodiad 1) a llythyr croeso. Bydd y llythyr croeso'n egluro lle dylid gosod y Sticer Adnabod ar fin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd fel y gall criwiau casglu gwastraff ei weld yn glir yn ystod eu rowndiau. Mae'r Pecyn Gwybodaeth drafft a'r Cwestiynau Cyffredin i'w gweld yn **Atodiad 2**.

## 5.0 ADNODDAU STAFFIO A GWEINYDDU

5.1 Yr adborth gan awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru yw bod lefel y gwaith gweinyddu sy'n ofynnol yn sylweddol iawn, yn enwedig wrth gyflwyno gwasanaeth newydd fel hwn. Mae'r ddau brif faes y mae angen eu hystyried yn benodol fel a ganlyn:

i) Ymdrin â galwadau / e-byst cwsmeriaid sy'n cynyddu'n sylweddol a chymryd taliadau dros y ffôn;

ii) Ymdrin â gwaith paratoi, pacio a phostio Pecynnau Gwybodaeth (gan gynnwys y Sticeri Adnabod) i gwsmeriaid newydd.

5.2 Er mwyn ymdrin â nifer uchel y galwadau gan gwsmeriaid, taliadau dros y ffôn ac e-byst, y cynnig yw cyflogi **dau** Gynghorydd Gwasanaethau Cwsmer ychwanegol dros dro, un yn llawn amser am 16 mis yn y lle cyntaf a'r ail yn llawn amser am chwe mis yn y lle cyntaf i roi cymorth gweinyddol ychwanegol/ cymorth ychwanegol yn y Ganolfan Alwadau i'r prosiect hwn. Mae yna ddisgrifiad swydd ar gyfer y swyddi hyn yn barod ac fe'u gwerthuswyd at ddibenion gwerthuso swyddi ar Radd 3. Y gobaith yw y byddai'r swyddi hyn yn cychwyn yn gynnar yn Rhagfyr 2020. Y gobaith yw

cynnal asesiad pellach ar nifer wirioneddol y staff sy'n ofynnol ar ôl chwe mis, unwaith y bydd mwy yn hysbys o ran gofynion y gwaith. Cyfanswm y gost flynyddol hyd yn hyn (gan gynnwys argostau) i gyflogi Cynghorydd Gwasanaethau Cwsmer ar Radd 3 yw **£27k**.

5.3 Bydd angen paratoi, pacio a phostio nifer sylweddol iawn o Becynnau Gwybodaeth i gwsmeriaid sydd wedi cofrestru, rhwng tua 10,000-14,000 o bosibl (gan ddibynnu ar faint sy'n cofrestru). O'r adborth gan awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru, mae dwy ffordd o baratoi, pacio a phostio Pecynnau Gwybodaeth i gwsmeriaid newydd. Y ffordd gyntaf yw i'r Cyngor gyflogi ei staff ei hun i gyflawni'r gwaith hwn, sy'n golygu cyflogi staff ychwanegol trwy'r gaeaf / gwanwyn / haf.. Yr ail opsiwn fyddai defnyddio cwmni postio allanol profiadol, yn debyg i sut caiff biliau Treth y Cyngor eu hanfon i gartrefi ar hyn o bryd. Cafwyd trafodaethau eisoes gyda chwmni postio allanol profiadol, sydd wedi cadarnhau y byddai'r costau tebygol o gyflawni'r gwasanaeth hwn oddeutu £0.60 y cartref (byddai hyn yn cynnwys nhw'n darparu ac argraffu'r llythyr croeso, y Telerau ac Amodau a'r amlen, ynghyd â chynnwys y Sticer Adnabod y cytunwyd arno a thalu'r postio). Yn seiliedig ar yr amcangyfrif hwn fesul cartref sy'n cofrestru, byddai'r gost ar gyfer y gwasanaeth hwn oddeutu £6k-8k y flwyddyn). Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth, cred y swyddogion y dylai'r Cyngor ddefnyddio cwmni postio allanol i baratoi, argraffu a phostio'r Pecynnau Gwybodaeth i gwsmeriaid sydd wedi cofrestru. Mae hyn yn lleihau'r baich gweinyddol ac yn osgoi'r angen am fwy o staff ychwanegol i'r hyn sydd eisoes wedi'i gynnig.

5.4 Mae crynodeb o amcangyfrif o'r costau i'w gweld yn y tabl a ganlyn:

| **Rhif** | **Disgrifiad o'r gost** | **Cost 2020/21** | **Cost 2021/22** | **Cost 2022/23** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Costau talu am / sefydlu system TG | £10k | £3k | £3k |
| 2 | Paratoi / argraffu Sticeri Gwybodaeth | £3k | £3k | £3k |
| 3 | Argraffu Llythyr Croeso, Telerau ac Amodau, Amlen, pacio a phostio | £8k | £8k | £8k |
| 4 | Dau Gynghorydd Gwasanaethau Cwsmer Ychwanegol | £18k | £32k | *****£27k |
| 5 | Cyfrifiaduron, ffonau a chostau trwyddedu ychwanegol ar gyfer dau Gynghorydd Gwasanaethau Cwsmer newydd. | £2k | £0 | £0 |
| 6 | Costau ychwanegol i adfer biniau olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd na chawsant eu defnyddio. | £15k | £5k | £3k |
| 7 | Cost i brynu a danfon biniau olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd | £5k | £18k | £18k |
| 8 | **Cyfanswm** | **£61k** | **£69k** | **£62k** |

** Mae cost Cynghorydd Gwasanaethau Cwsmer wedi'i chynnwys at ddibenion cynllunio cyllideb - fodd bynnag, gwneir asesiad o'r adnoddau gofynnol gwirioneddol yn nes at yr amser.*

## 6 AMSERLEN ARFAETHEDIG

6.2 Mae'r amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau'r prosiect hwn fel a ganlyn:

| Rhif | Gweithredu | Dyddiad |
|---|---|---|
| 1.0 | Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cytuno ar fethodoleg Gwastraff Gardd Gwyrdd a chodi tâl amdano. | 26 Hydref 2020 |
| 2.0 | Mae'r Cyngor yn rhyddhau datganiad i'r wasg yn hysbysu cartrefi y byddir yn codi tâl am Wastraff Gardd Gwyrdd o 1 Ebrill 2021 ymlaen. | Hydref / Tachwedd 2020 |
| 3.0 | Dau Gynghorydd Gwasanaethau Cwsmer yn dechrau yn eu swyddi | Yn gynnar ym mis Rhagfyr 2020 |
| 4.0 | Mae'r Cyngor yn cyhoeddi llythyr calendr Nadolig gan gynnwys manylion ar sut y gall cartrefi gofrestru gyda'r gwasanaeth newydd y codir amdano (ar-lein neu dros y ffôn). | Yn gynnar ym mis Rhagfyr - canol mis Rhagfyr 2020 |
| 5.0 | Gwasanaeth archebu ar-lein yn dechrau. | Yn gynnar ym mis Rhagfyr - canol mis Rhagfyr 2020 |
| 6.0 | Gwasanaeth archebu dros y ffôn yn dechrau. | Ionawr 2021 |
| 7.0 | Pecynnau Gwybodaeth (gyda Sticeri Adnabod) yn cael eu hanfon allan i gartrefi sy’n cofrestru | Yn hwyr ym mis Rhagfyr 2020 - ymlaen |
| 8.0 | Rowndiau casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd wedi'u cwblhau a diwrnodau casglu’n cael eu rhannu gyda'r cartrefi sy'n cofrestru. | Yn gynnar ym mis Mawrth 2021 - ymlaen |
| 9.0 | Gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd yn dechrau. | 1 Ebrill 2021 |

**ATODIAD 1**

**TELERAU AC AMODAU DRAFFT– GWASANAETH CASGLU GWASTRAFF GARDD GWYRDD**

1 Gwneir y cytundeb hwn rhwng deiliad y tŷ (y “cwsmer”) a Chyngor Ynys Môn (‘y Cyngor”) ym Mhencadlys y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW. Mae'n nodi'r telerau ac amodau (y “Telerau ac Amodau”) sy’n berthnasol fel y gall y Cwsmer ddefnyddio gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd y Cyngor bob pythefnos (y “gwasanaeth”). Gall y Cyngor amrywio neu newid y Telerau ac Amodau ar unrhyw adeg heb i’r cwsmer gydsynio ymlaen llaw. Rhoddir 10 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i'r cwsmer am unrhyw newidiadau o'r fath.

2 Yn unol â Rheoliadau Contractau Defnyddwyr (Gwybodaeth, Canslo a Thaliadau Ychwanegol) 2013, mae gan y cwsmer 14 diwrnod ar ôl derbyn yr Amodau a Thelerau hyn i ofyn am ganslo'r gwasanaeth. Rhaid i geisiadau i ganslo'r gwasanaeth fod yn ysgrifenedig i'r Cyngor neu rhaid anfon e-bost i green@anglesey.gov.uk. Nid oes modd canslo'r gwasanaeth dros y ffôn.

3 Dim ond i gwsmeriaid sydd wedi talu tanysgrifiad (y “Ffi Flynyddol”) ymlaen llaw y bydd y Gwasanaeth ar gael. Bydd y Cyngor yn seilio ei benderfyniad i wagio neu adael bin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd ar p'un a yw'r Cwsmer wedi atodi'r sticer adnabod cywir (a gyflenwyd gan y Cyngor) i'r bin - rhaid i'r Sticer Adnabod fod yn weladwy bob amser neu gall y Cyngor benderfynu peidio â chasglu'r bin.

4 Rhaid adnewyddu'r ffi flynyddol yn flynyddol i'r gwasanaeth barhau. Dim ond deiliaid tai sydd wedi talu eu ffi flynyddol sy'n gymwys i dderbyn y gwasanaeth.

5 Mae'r ffi flynyddol yn cynnwys tâl blynyddol am gyflenwi un bin ar gyfer Gwastraff Gardd Gwyrdd i'r cwsmer. Bydd cyfnod y gwasanaeth yn rhedeg o 1 Ebrill - 31 Mawrth bob blwyddyn gydag unrhyw ffioedd newydd yn y dyfodol yn cael eu hadolygu’n ôl disgresiwn y Cyngor. Gall deiliaid tai danysgrifio i'r Gwasanaeth ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag, bydd angen talu'r un ffi flynyddol, waeth beth yw union ddyddiad dechrau’r gwasanaeth.

6 Gellir cyflenwi biniau olwynion gwastraff gardd gwyrdd ychwanegol a byddir yn codi amdanynt ar y gyfradd a nodwyd. Bydd y Cyngor yn caniatáu cyfanswm o bedwar bin ar olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd i bob cartref.

7 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae unrhyw fin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd y mae’r Cyngor yn ei roi i'r cwsmer (gan gynnwys unrhyw un newydd) dan drwydded unigryw y gellir ei ddirymu a rhaid defnyddio unrhyw fin o'r fath yn unol â'r Telerau ac Amodau hyn. Ni chaniateir i'r cwsmer aseinio neu drosglwyddo'r contract hwn i unrhyw un arall, a bydd y Cyngor yn cadw perchnogaeth o'i holl Hawliau Eiddo Deallusol.

8 Bydd y Cyngor yn gwagio biniau olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd bob pythefnos, ac eithrio pan fydd ffactorau eraill, megis tywydd eithafol neu amgylchiadau annisgwyl neu heb eu cynllunio. Os yw'r Cyngor yn methu bin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd cwsmer neu’n methu ei gasglu am unrhyw reswm, gwneir pob ymdrech i ddod yn ôl er mwyn casglu'r bin(iau) olwynion cyn gynted â phosibl. Ni fydd y Cyngor dan unrhyw amgylchiadau yn rhoi ad-daliadau (cyfan neu rannol) am fethu bin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.

9 Bydd cwsmeriaid yn gyfrifol am finiau olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd, y mae'n rhaid iddynt aros gyda'r eiddo a enwir pe bai'r cwsmer yn symud cartref yn ystod y flwyddyn y talwyd am y ffi flynyddol, oni bai bod y Cwsmer yn symud i rywle arall yn Ynys Môn. Os digwydd hynny, bydd yn gallu trosglwyddo’i danysgrifiad i'r eiddo newydd. Rhaid i gwsmeriaid gysylltu â'r Cyngor i gadarnhau manylion y cyfeiriad casglu newydd cyn pen (10) diwrnod gwaith ar ôl symud tŷ. Os bydd Cwsmer yn symud oddi ar yr Ynys, ni roddir ad-daliadau. Fodd bynnag, bydd y person newydd sy'n byw yn hen eiddo'r cwsmer yn derbyn y gwasanaeth am weddill y

flwyddyn ariannol honno (ar yr amod bod bin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd yn aros yn yr eiddo). Felly, bydd deiliad y tŷ newydd yn elwa ar y gwasanaeth tanysgrifio Gwastraff Gardd Gwyrdd (p'un a yw'n cofrestru â'r cynllun ai peidio) am weddill y flwyddyn ac ni fydd unrhyw ad-daliad i'r cyn-gwsmer sydd wedi symud o'r eiddo hwnnw. Os nad oes bin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd yn yr eiddo Newydd, yna bydd y Cyngor yn trefnu i gyflenwi un o'r rhain, (dylid e-bostio pob cais am newidiadau i'r gwasanaeth i green@anglesey.gov.uk

10 Nid oes unrhyw ad-daliadau nac ad-daliadau rhannol os yw cwsmer yn penderfynu canslo'r gwasanaeth ran o'r ffordd trwy'r flwyddyn. Os oes unrhyw dystiolaeth o gamddefnyddio'r gwasanaeth neu fin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd a gyflenwyd gan y cwsmer, yna gellir canslo'r gwasanaeth ac ni roddir ad-daliad. Bydd gan y cwsmer yr hawl i apelio mewn perthynas â digwyddiad o'r fath, ar yr amod bod yr apêl yn cael ei chodi cyn pen 14 diwrnod ar ôl derbyn rhybudd o ganslo.

11 Rhaid i unrhyw fin Gwastraff Gardd Gwyrdd cwsmer gael ei ddefnyddio ar gyfer Gwastraff Gardd Gwyrdd o'ch eiddo eich hun yn Ynys Môn yn unig. Dim ond gwastraff gardd organig (rhydd), y gellir ei roi yn y bin a rhaid i'r caead aros ar gau pan nad yw'n cael ei ddefnyddio ac wrth ei gyflwyno ar y diwrnod casglu a drefnwyd. Mae Gwastraff Gardd Gwyrdd yn cynnwys toriadau gwair, toriadau gwrychoedd, brigau a changhennau hyd at ddiamedr o 5cm, rhisgl, dail, gwellt, gwair, blodau, planhigion, ffrwythau wedi syrthio, chwyn cyffredinol, gwaith tocio (rhaid cynnwys pob eitem yn eich bin olwynion gwyrdd a rhaid cau'r caead). Nid yw Gwastraff Gardd Gwyrdd yn cynnwys gwastraff cartref cyffredinol, três plastig, bagiau plastig, canghennau mawr dros 5cm mewn diamedr, rhywogaethau goresgynnol neu blanhigion gwenwynig megis clymog Japan, llysiau'r gingroen a Jac y Neidiwr, tywyrch, pridd, cerrig, graean, pren sydd wedi'i drin neu ei beintio, gwastraff bwyd cegin gan gynnwys croen llysiau ac ati, baw cathod neu gŵn, gwastraff anifeiliaid, gwastraff anifeiliaid anwes, gwrthrychau metel, sarn cathod ac ati. Ni chaniateir rhoi plastig o unrhyw fath yn y bin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd. Bydd unrhyw ddeunydd nad yw'n cydymffurfio ac a roddir mewn bin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd yn cael ei drin fel halogiad ac ni fydd y bin yn cael ei wagio.

12 Ni fydd biniau olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd Halogedig (h.y. biniau sy'n cynnwys deunyddiau anghywir) yn cael eu gwagio. Os yw bin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd cwsmer wedi'i halogi, cyfrifoldeb y Cwsmer yw tynnu'r eitem(au) halogedig cyn y casgliad nesaf a drefnwyd. Os bydd yr halogiad yn parhau, gallai'r Cyngor gael gwared â'r bin(iau) Gwastraff Gardd Gwyrdd. Ni roddir ad-daliadau am achlysuron pan na chaiff bin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd cwsmer ei wagio oherwydd halogiad neu am beidio â chydymffurfio.

13 Rhaid cyflwyno bin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd ar ymyl palmant yr eiddo (sef y briffordd fabwysiedig agosaf fel rheol, ar balmant neu ymyl y briffordd) erbyn 7.00am diwrnod casglu'r Gwasanaeth, yn unol â'r wybodaeth yn y calendr casglu a roddwyd gan y Cyngor. Rhaid cau caead bin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd yn llwyr ac ni ddylid gadael gwastraff ochr h.y. dim Gwastraff Gardd Gwyrdd ychwanegol y tu allan i'r bin neu wrth ei ymyl na'i adael ar y caead. Os digwydd hyn, ni chesglir y gwastraff ochr ychwanegol. Os na all y cwsmer fynd â bin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd i ymyl y palmant oherwydd anabledd neu broblemau iechyd, rhaid iddo / iddi wneud cais i'r Cyngor ymlaen llaw am Wasanaeth Casglu â Chymorth.

14 Os bydd bin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd y cwsmer yn cael ei ddifrodi yn ystod y broses wagio, bydd y Cyngor yn ei drwsio neu'n rhoi un arall yn ei le, yn rhad ac am ddim, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Mewn amgylchiadau lle mae'r cwsmer wedi esgeuluso neu gamddefnyddio'r bin olwynion Gwastraff Gardd Gwyrdd a'i ddifrodi, codir ar y cwsmer am drwsio'r bin neu am gael un arall yn ei le. Os yw bin Gwastraff Gardd Gwyrdd y cwsmer wedi'i ddifrodi, dylai anfon e-bost at green@anglesey.gov.uk a rhoi

rhagor o fanylion.

**PECYN GWYBODAETH DRAFFT A CHWESTIYNAU CYFFREDIN**

LOGO CSYM

Annwyl Ddeiliad,

**YNGHYLCH: GWASANAETH CASGLU GWASTRAFF GARDD GWYRDD AR GYFER 2021/22**

Diolch i chi am danysgrifio i wasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd newydd Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2021/22.

**Sticer Adnabod**: Bydd angen i chi lynu'r Sticer Adnabod amgaeedig ar eich bin(iau) Gwastraff Gardd Gwyrdd yn y man a ddangosir ar y llun isod, tua 30cm (10 modfedd) dan y dolenni cydio. Bydd angen i wyneb y bin(iau) olwynion gwyrdd fod yn lân ac yn sych er mwyn sicrhau nad yw'r Sticer Adnabod yn dod i ffwrdd.



Hefyd, wedi'i amgáu, mae copi o'r Telerau ac Amodau ar gyfer y gwasanaeth. Gallwch hefyd weld y rhain trwy fewngofnodi i www.XXXXXXXXXX

**Calendr Casglu:** Mewngofnodwch i www.XXXXXXXXXX ar ôl 20 Mawrth 2021 i wirio'ch diwrnod casglu a neilltuwyd ar gyfer Gwastraff Gardd Gwyrdd. Fel arall, gallwch gysylltu â Chanolfan Alwadau'r Adain Rheoli Gwastraff a all gadarnhau eich diwrnod casglu bryd hynny.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd, darllenwch ein Cwestiynau Cyffredin trwy fewngofnodi i www.XXXXXXXXXX, anfon e-bost atom i green@anglesey.gov.uk neu gysylltu â'n Canolfan Alwadau ar 01248 XXXXXX.

Yn gywir,

ADAIN RHEOLI GWASTRAFF
CYNGOR SIR YNYS MÔN

**STICER ADNABOD DRAFFT A5**



## CWESTIYNAU CYFFREDIN – GWASTRAFF GARDD GWYRDD

**1. Ydyw Cynghorau eraill Gogledd Cymru'n codi tâl am gasgliadau gwastraff gardd gwyrdd?**

Ydynt, mae pob Cyngor arall yng Ngogledd Cymru'n codi tâl am gasgliadau gwastraff gardd gwyrdd.

**2. Beth yw'r gyfraith ynghylch codi tâl i gasglu gwastraff gardd gwyrdd?**

Mae Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012 yn caniatáu i Gynghorau godi tâl am gasgliadau gwastraff gardd gwyrdd. Nid oes rheidrwydd ar gynghorau i ddarparu casgliadau gwastraff gardd gwyrdd am ddim i gartrefi. Dywed y gyfraith y gall Cynghorau godi tâl rhesymol am gasglu gwastraff gardd gwyrdd cartref, yn yr un modd ag y gwneir am gasgliadau gwastraff swmpus. Fodd bynnag, byddwch yn gallu parhau i gael gwared â'ch gwastraff gardd gwyrdd yn rhad ac am ddim yn ein Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref. Mae codi tâl am gasgliadau gwastraff gardd gwyrdd hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn dilyn argymhellion Glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer opsiynau casglu gwastraff yng Nghymru.

**3. Onid wyf eisoes yn cyfrannu at gost darparu'r gwasanaeth hwn trwy fy Nhreth y Cyngor?**

Nid oes rhaid i gynghorau gasglu gwastraff gardd gwyrdd deiliaid tai am ddim er bod dyletswydd gyfreithiol arnynt i gael gwared â gwastraff cartref yn rhad ac am ddim. Mae'r gyfraith yn rhoi hawl i Gynghorau godi tâl rhesymol am gasglu gwastraff gardd gwyrdd cartref. Yn ogystal, nid oes angen gwasanaeth casglu gwastraff gardd gwyrdd ar bob eiddo yn Ynys Môn oherwydd nad oes gardd neu gompost cartref ym mhob eiddo. Am y rheswm hwn, y teimlad hefyd yw mai teg yw cyflwyno tâl gan mai dim ond y cartrefi hynny sy'n dewis ei ddefnyddio fydd yn talu am y gwasanaeth.

**4. Beth ydym yn ei dderbyn / ddim yn ei dderbyn yn y bin gwastraff gardd gwyrdd?**

Rydym yn derbyn:

- toriadau gwair, toriadau gwrychoedd, brigau a changhennau hyd at ddiamedr o 5cm, rhisgl, dail, gwellt, gwair, blodau, planhigion, ffrwythau wedi syrthio, chwyn cyffredinol, gwaith tocio (rhaid cynnwys pob eitem yn eich bin gwastraff gardd gwyrdd a rhaid cau'r caead).

Nid ydym yn derbyn:

- gwastraff cartref cyffredinol, três plastig, bagiau plastig, canghennau mawr dros 5cm mewn diamedr, rhywogaethau goresgynnol neu blanhigion gwenwynig fel clymog Japan, llysiau'r gingroen a Jac y Neidiwr, tywyrch, pridd, cerrig, graean, pren sydd wedi'i drin neu ei baentio, bwyd cegin gan gynnwys croen llysiau ac ati, baw cathod neu gŵn, gwastraff anifeiliaid, gwastraff anifeiliaid anwes, gwrthrychau metel, sarn cathod. Ni chaniateir rhoi plastig o unrhyw fath ym min olwynion gwastraff gwyrdd. Bydd unrhyw ddeunydd nad yw'n cydymffurfio ac a roddir ym min gwastraff gardd gwyrdd yn cael ei drin fel halogiad ac ni fydd y bin yn cael ei wagio.

**5. Beth fydda i'n ei dderbyn fel rhan o'm gwasanaeth casglu gwastraff gardd gwyrdd?**

Byddwch yn derbyn gwasanaeth casglu gwastraff gardd gwyrdd bob pythefnos trwy gydol y flwyddyn o fin olwynion 240 litr.

**6. Faint ydi o a phryd y bydd yn dechrau?**

Y ffi flynyddol am y bin gwastraff gardd gwyrdd cyntaf i bob cartref fydd £35. Bydd y gwasanaeth casglu gwastraff gardd gwyrdd newydd y codir tâl amdano yn dechrau 1 Ebrill 2021.

**7. Alla' i gael mwy nag un bin gwastraff gardd gwyrdd?**

Gallwch. Gallwch danysgrifio am hyd at gyfanswm o bedwar bin olwynion gwastraff gardd gwyrdd i bob cartref. Noder, ni ellir rhoi Gwastraff Gardd Gwyrdd masnachol o gwbl yn y biniau olwynion a gyflenwir gan y Cyngor.

**8. Sut mae talu?**

Gellir cymryd taliadau ar-lein trwy wefan y Cyngor neu dros y ffôn. Bydd angen talu cyn i unrhyw wasanaeth casglu gwastraff gardd gwyrdd ddechrau.

**9. Alla' i dalu'r ffi mewn rhandaliadau?**

Na, dim ond mewn un taliad y gallwn gymryd y ffi.

**10. Alla' i dalu am y gwasanaeth hanner ffordd trwy'r flwyddyn?**

Gallwch. Gallwch ymuno â'r gwasanaeth ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ond bydd y ffi yn aros yr un fath ar £35 ar gyfer y bin cyntaf, waeth pa bryd y cofrestrwyd. Mae'r flwyddyn yn ymestyn o 1 Ebrill i 31 Mawrth. Er enghraifft, os dewiswch aros tan fis Gorffennaf cyn talu am y gwasanaeth byddwch yn derbyn llai o gasgliadau, ond y pris fydd £35 o hyd.

**11. Mae gen i fin gwastraff gardd gwyrdd bychan - fydd gwahaniaeth yn y pris?**

Ffi flynyddol o £35 yw'r ffi sefydlog am wagio unrhyw fin gwastraff gardd gwyrdd hyd at 240 litr o faint. Os oes angen, gallwch gyfnewid eich bin gwyrdd bach am fin 240 litr mwy heb unrhyw gost ychwanegol.

**12. Sut byddwch chi'n gwybod fy mod wedi talu am y gwasanaeth?**

Ar ôl i chi dalu, byddwch yn derbyn llythyr croeso a sticer adnabod trwy'r post - bydd gofyn i chi lynu'r sticer adnabod hwn ar eich bin olwynion gwastraff gardd gwyrdd. Mae'r sticer adnabod penodol hwn yn dangos eich bod wedi talu am y gwasanaeth ac mae'n hawdd i'r criwiau casglu ei adnabod. Rhaid i chi roi'r sticer adnabod ar eich bin olwynion gwastraff gardd gwyrdd yn y man a nodir (gweler y cyfarwyddiadau isod). Rhaid i'r sticer adnabod hwn fod ar eich bin gwastraff gardd gwyrdd yn y man penodol er mwyn i'ch bin gael ei gasglu.

**13. Lle ydw i'n glynu'r Sticer Adnabod i ddangos fy mod wedi talu?**

Glynwch y sticer adnabod oddeutu 30cm (10 modfedd) dan ddolenni cydio eich bin olwynion gwastraff gardd gwyrdd (fel y llun isod). Fel hyn, mae modd i'r criw casglu weld yn hawdd pwy sydd wedi talu am y gwasanaeth y codir tâl amdano. Ni fydd y criwiau casglu'n casglu unrhyw finiau gwastraff gardd gwyrdd lle nad oes sticer adnabod i'w weld.



**14. Beth fyddai'n digwydd pe bawn i'n colli fy Sticer Adnabod?**

Cysylltwch â'r Adain Rheoli Gwastraff ar green@anglesey.gov.uk neu 01248 xxxx

**15. Beth yw fy niwrnod casglu ar gyfer gwastraff gardd gwyrdd?**

Mewngofnodwch i www.XXXXXXXXXX ar ôl 20 Mawrth 2021 i wirio'ch diwrnod casglu a neilltuwyd ar gyfer gwastraff gardd gwyrdd. Fel arall, gallwch gysylltu â Chanolfan Alwadau'r Adain Rheoli Gwastraff a all gadarnhau eich diwrnod casglu bryd hynny.

**16. Lle wyf yn gadael fy min gwastraff gardd gwyrdd ar ddiwrnod casglu?**

Rhaid gadael y bin gwastraff gardd gwyrdd wrth ymyl y ffordd (sef y briffordd fabwysiedig agosaf fel rheol, palmant neu ymyl y briffordd, er enghraifft) erbyn 7.00am ar y diwrnod casglu, yn unol â'r wybodaeth yn y calendr casglu a roddir gan y Cyngor. Gwnewch yn siŵr bod dolenni cydio'r biniau'n wynebu canol y briffordd fabwysiedig fel y gall y criwiau casglu weld eich Sticer Adnabod yn glir.

**17. Gaf i adael gwastraff gardd gwyrdd ychwanegol ar y llawr wrth ymyl fy min olwynion?**

Na chewch. Dim ond gwastraff gardd gwyrdd sy'n cael ei roi yn y bin gyda'r caead ar gau y byddwn yn ei gasglu.

**18. Nid wyf eisiau cael casglu gwastraff gardd gwyrdd - oes angen i mi wneud unrhyw beth?**

Nac oes, nid oes angen i chi wneud dim. Awgrymwn eich bod yn cadw'r bin gwastraff gardd gwyrdd ar dir eich tŷ rhag ofn y byddwch yn penderfynu defnyddio'r gwasanaeth yn y dyfodol.

**19. Nid wyf eisiau talu am y gwasanaeth gwastraff gardd. Beth ddylwn ei wneud gyda'm gwastraff gardd gwyrdd?**

Gallwch fynd â'ch gwastraff gardd gwyrdd i un o'n Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref (ym Mhenhesgyn a Gwalchmai). Fel arall, fe allech chi gompostio gartref. Ni ddylid rhoi gwastraff gardd gwyrdd yn eich bin du i gael gwared ag o. Ar gyfer gwastraff nad oes modd ei ailgylchu yn unig mae hwn.

**20. Rwy'n symud i dŷ arall yn Ynys Môn ac wedi talu am y gwasanaeth gwastraff gardd gwyrdd - a alla' i gael ad-daliad?**

Ni roddir ad-daliadau os byddwch chi'n newid eich cyfeiriad ar Ynys Môn. Fodd bynnag, gallwch drosglwyddo'r gwasanaeth i'ch tŷ newydd ar Ynys Môn. Bydd angen i chi gysylltu â ni i gadarnhau eich manylion newydd. Os ydych yn symud o Ynys Môn, ni fyddwch yn derbyn ad-daliad ond gallwch hysbysu'r person fydd yn symud i mewn i'ch cartref y bydd y gwasanaeth yn parhau ar eu cyfer am weddill y flwyddyn ariannol. Peidiwch â symud eich bin olwynion gwastraff gardd gwyrdd o'ch cartref.

**21. Oes angen i mi adnewyddu fy nhaliadau bob blwyddyn?**

Oes. Bydd angen talu bob blwyddyn i'r gwasanaeth barhau. Cysylltir â chi yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan fydd tanysgrifiadau newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol yn agor.

**22. Beth fydd yn digwydd pe bai'r Cyngor yn methu casglu bin gwastraff gardd gwyrdd?**

Os yw'n gasgliad dilys a fethwyd (bin wedi'i gyflwyno ar y diwrnod cywir ac ar yr amser cywir), cysylltwch â ni erbyn 5pm fan bellaf y diwrnod ar ôl y diwrnod casglu a drefnwyd a byddwn yn trefnu dod yn ôl ar amser y cytunir arno.

**23. Beth pe byddai angen gwasanaeth casglu â chymorth arnaf?**

Os nad oes gennych unrhyw un sy'n gorfforol abl yn eich cartref, gallwch ofyn am wasanaeth casglu â chymorth. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **22 Hydref, 2020** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2020/21** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2020/21<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |
| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |

| 5 – Cefndir / Cyd-destun |
|---|

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Effaith yr Argyfwng presennol ar Raglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r cyfnod presennol (**rheoli ymateb argyfwng i'r Pandemig, yr Adfer ac yn raddol dychwelyd i'r Normal Newydd**) yn eithriadol o heriol i'r Cyngor a bob sefydliad cyhoeddus arall drwy Gymru wrth i ni barhau i wynebu heriau'r argyfwng Covid-19, ac mae'n anorfod bod hyn yn cael effaith ar raglen waith y Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Yn ystod cyfnod o argyfwng fel hyn, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig model sgriwtini penodol yn sgil y pandemig, sydd ar y cyd â Strategaeth Bwyllgorau'r Cyngor yn gymorth i lywio rhaglen waith y Pwyllgor, gweler amlinelliad ohono isod:

i. Ffocws ar nifer llai o faterion allweddol sy'n canolbwyntio ar agweddau sylfaenol bywyd pobl leol ("*life and limb*")
ii. Cynnal briff gwylio dros wasanaethau'r Cyngor, perfformiad a materion ariannol
iii. **Elfennau penodol y Model Craffu:**
  - Trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid-19
  - Trosolwg penodol ar faterion sylfaenol bywyd (deddfwriaeth gofal; diogelu plant ac oedolion; iechyd cyhoeddus)
  - Cynnal trosolwg ar faterion cyllidol y Cyngor
  - Gweithredu fel cyfrwng ar gyfer profiadau cymunedol.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2020/21 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2020

| | |
|---|---|
| | lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:<br>• Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)<br>• Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini). |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2020/21 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI → MEDI 2020 – EBRILL, 2021**
**[Fersiwn ddyddiedig 13/10/20]**

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Medi, 2020 (14/09/20)** | **Medi, 2020 (21/09/20)** |
| Craffu Ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19 (yn cynnwys yr effaith ariannol) | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2019/20 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Craffu Agweddau Partneriaethol: Ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| **Medi, 2020 (22/09/20)** | |
| Adroddiad Cynnydd Cynllun Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019/20 | |
| | |
| **Hydref, 2020 (20/10/20)** | **Hydref, 2020 (22/10/20)** |
| Strategaeth Ataliol Corfforaethol | Adroddiad Cynnydd Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2019/20 | Partneriaeth Diogelwch Cymunedol: Adroddiad Blynyddol 2019/20 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Ffioedd Casglu Gwastraff Gwyrdd |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| | |
| **Tachwedd, 2020 (02/11/20)** | **Tachwedd, 2020 (10/11/20)** |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu ar y trefniadau llywodraethu |
| Codi Tâl Galw Gofal: Tenantiaid Tai Cyngor | Cytundeb Llywodraethu 2 - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Rhan 9: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) **(i'w gadarnhau)** |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| | |
| **Tachwedd, 2020 (17/11/20) [Ch2]** | |
| Monitro Cyllideb Chwarter 2 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | |
| | |
| | **Dyddiad i'w gadarnhau (?Rhagfyr, 2020)** |
| | Adroddiad Safonau Ysgolion (Haf, 2020) **(i'w gadarnhau)** |
| | Adroddiad Blynyddol GwE 2019/20 **(i'w gadarnhau)** |
| | Adroddiad Cynnydd Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |

Drafft Diweddaraf

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Ionawr, 2021 (Dyddiad i'w gadarnhau) [cyllideb 2021/22]** | **Ionawr, 2021 (19/01/21)** |
| Cynigion cychwynnol cyllideb 2021/22 | |
| Cynllun Ymgynghori Cyhoeddus ar gyfer cyllideb 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | |
| | |
| **Chwefror, 2021 (01/02/21) [cyllideb 2021/22]** | **Chwefror, 2021 (09/02/21)** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2021/22 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | |
| | |
| **Mawrth, 2021 (08/03/21)** | **Mawrth, 2021 (09/03/21)** |
| Adroddiad Cynnydd Cynllun Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adroddiad Cynnydd y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai | Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2020/21 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| | |
| **Ebrill, 2021 (12/04/21)** | **Ebrill, 2021 (14/04/21)** |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |

**Eitemau i'w rhaglennu:**

**Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu**

**Rhaglen Moderneiddio Ysgolion- ardaloedd Llangefni/Amlwch**

**Ymateb y Cyngor i Covid-19 – materion dilyn i fyny ar gais y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (14/09/2020):**

- **Llesiant staff y Cyngor a chymunedau**
- **Monitro effeithiolrwydd y strategaeth Tracio ac Amddiffyn (TTP)**

Drafft Diweddarf